

**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

9.30yb – 28 Mawrth 2022
Wyneb yn Wyneb ac Ar-lein ar Microsoft Teams


AGENDA

Yn bresennol:

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:	
Rachel Barber – Cadeirydd John Cunliffe Allan Rainford	Julie Perkins Sarah Davies
SWYDDOGION YR HEDDLU:	
Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Guto Edwards – Pennaeth Cyllid Helen Williams – Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Sian Beck – Gwasanaethau Corfforaethol James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth/Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd
SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:	
Stephen Hughes - Prif Swyddog Gweithredol Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid	Angharad Jones – Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr
POBL ERAILL YN BRESENNOL	
Helen Cargill, TIAA	Michelle Phoenix, Archwilio Cymru

	Eitemau Sefydlog		Diben	Tudalen	Amser
1	Ymddiheuriadau	Cadeirydd			
2	Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2021 yn gywir.	Cadeirydd			5 mun
3	Cofnod Gweithrediadau	Cadeirydd			15 mun
	Eitemau Sefydlog				
4	Diweddariad Sefydliadol	Prif Swyddog Gweithredol a	Gwybodaeth		10 mun

		Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau			
5	Diweddariad AHEM	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	Gwybodaeth		5 mun
6	Archwilio Mewnol a. SICA Archwilio Mewnol 2021-22 b. Cynllun Blynyddol Drafft Archwilio Mewnol 2022-23 c. Trosolwg Archwilio Mewnol – Adroddiad Rheolwyr (yn cynnwys crynodeb o Adolygiad Dilynol)	a&b – Rheolwr Archwilio TIAA c – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Swyddog Cyllideb	Sicrwydd		10 mun
7	Diweddariad Risgiau - Datblygiad Proses Risg a Chofrestr Risgiau Bresennol	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	Sicrwydd		10 mun
8	Rhaglen Waith 2022/23	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Swyddog Cyllid	Penderfyniad		5 mun
Eitemau Sefydlog					
9	Strategaeth Gyfalaf (gan gynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys)	Pennaeth Cyllid	Sicrwydd & Penderfyniad		10 mun
10	Diweddariad Llywodraethu – gan gynnwys AGS drafft;	Prif Swyddog Cyllid	Sicrwydd		10 mun
11	Archwilio Cymru – dadansoddeg data/cynllun blynyddol	Archwilio Cymru	Gwybodaeth		10 mun
12	Adroddiad Blynyddol y CA a Gwerthusiad	Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio	Gwybodaeth	Llafar	10 mun
13	At wraidd y mater risg: Digonolrwydd adnoddau ariannol	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Penderfyniad		20 mun
Unrhyw Fater Arall (Hysbyswch y cadeirydd cyn y cyfarfod)					
	DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL 28 Gorffennaf 2022 6 Hydref 2022 8 Rhagfyr 2022				
		CYFANSWM			2 awr



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

8 RHAGFYR 2021

PRESENNOL

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:

Rachel Barber – Cadeirydd
John Cunliffe
Allan Rainford (Eitem 9, 12, 13 yn unig)
Sarah Davies
Julie Perkins

SWYDDOGION YR HEDDLU:

Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
Guto Edwards – Pennaeth Cyllid
Helen Williams – Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol
Anne Mathews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau
James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes
Sarah Hughes – Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu

SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:

Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol
Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid
Angharad Jones – Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr

POBL ERAILL YN BRESENNOL

Helen Cargill – TIAA
Michelle Phoenix – Archwilio Cymru
Jacquie Don – Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg (Eitem 14)

1. YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ymddiheuriadau: Prif Uwcharolygydd Sian Beck, Gwasanaethau Corfforaethol, Phil Kenyon – Cyfreithiwr yr Heddlu

Dim datganiadau o ddiddordeb.

2. COFNODION A CHOFNOD GWEITHREDIADAU

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2021 fel cofnod cywir o'r cyfarfod gan ychwanegu un pwynt gweithredu.

Gweithrediad 1	Prif Swyddog Cyllid i gysylltu gyda'u cyfatebwr yn SCHTh De Cymru er mwyn trafod cyfranogiad aelodau'r CA yn y broses gaffael Archwilio Mewnol.
-------------------	---

3. COFNOD GWEITHREDIADAU

Diweddarwyd y Cofnod Gweithrediadau a bydd yn cael ei gylchredeg gyda'r cofnodion. Y gweithrediadau a argymhellwyd eu cau ac a gytunwyd eu cau oedd: 56a, 7, 1, 2, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13.

4. DIWEDDARIAD SEFYDLIAD

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r adroddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru a roddodd ddiweddariad am y gwaith a wnaed ers cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Awst.

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Adroddwyd fod archwiliad mewnol ar brosesau comisiynu'r Comisiynydd wedi digwydd ac wedi derbyn sicrwydd sylweddol. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gadarnhau a'i gyhoeddi'n fuan.

Nododd y Prif Swyddog Gweithredol y gwnaeth SCHTh gomisiynu Asesiad Anghenion Gwasanaeth Dioddefwyr yn 2015 a arweiniodd at gyflwyno'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr sydd dal mewn lle heddiw. Mae angen gloywi'r Asesiad Anghenion hwn ac rydym wedi comisiynu cwmni'n ddiweddar i gyflawni'r gwaith hwn, sydd nawr yn cyfathrebu gyda phartneriaid ledled y rhanbarth. Bydd yr asesiad hwn yn ysbrydoli'r strategaeth gomisiynu dros y blynyddoedd nesaf

Holodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio sut mae'r arian ychwanegol a dderbynnir drwy grantiau yn cael ei fonitro a'i lywodraethu. Adroddwyd fod y cynigon hyn i gyd mewn partneriaeth gydag awdurdodau/sefydliadau partner a bod strwythur llywodraethu ffurfiol mewn lle. Mae'r strwythur llywodraethu hwn yn monitro cyflawni'r rhaglen. Rhoddir adborth rheolaidd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a darparwyr grant eraill.

Prif Swyddog Gweithredol i roi adborth pellach mewn cyfarfod yn y dyfodol ar sut y monitrir comisiynu gwasanaethau. Mae'r eitem hon eisoes ar y rhaglen waith fel eitem agenda at y dyfodol.

Gweithrediad 2	Prif Swyddog Gweithredol i roi diweddariad pellach ar strwythur llywodraethu'r gwasanaeth comisiynu yng nghyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol.
-------------------	--

Heddlu Gogledd Cymru

Diweddarodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau'r Cydbwyllgor ar faterion a digwyddiadau sy'n effeithio'r sefydliad ers y cyfarfod diwethaf.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2020-21 bellach wedi'u cymeradwyo a'u cyhoeddi. Mae'r Canghellor wedi cyhoeddi'r casgliadau lefel uchel o adolygiad Gwariant 2021 ac mae tair blynedd o gynlluniau gwario lefel uchel wedi'u cyhoeddi. Mae cyllid hefyd ar gael er mwyn cwblhau recriwtio 20,000 o swyddogion newydd yn genedlaethol. Mae llawer o drafod wedi bod ers y cyhoeddiadau hyn ac mae cynlluniau wedi'u datblygu ymhellach dros yr wythnosau diwethaf. Mae cynlluniau bras wedi'u rhannu gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd er mwyn ysbrydoli ei gynigion praesept.

Gobeithir derbyn gwybodaeth fanwl am setliad yr wythnos nesaf. Bydd hyn wedyn yn caniatáu'r Heddlu i gadarnhau unrhyw gynigion cyn y Panel Heddlu a Throsedd ym mis Ionawr.

Holodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio pa mor anodd ydy hi i lenwi rolau o fewn y sefydliad a'r hyn fyddai'r effeithiau pe na ellid llenwi'r rolau hyn. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn fodlon rhoi mwy o fanylion wrth symud ymlaen ond mae llawer o waith tu ôl i'r llenni. Nododd eu bod angen bod yn ddynamig wrth wneud hyn.

Gweithrediad 3	Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau am ddarparu adborth pellach ar weithgarwch sy'n cael eu hymgymryd er mwyn sicrhau y llwyddir recriwtio rolau anodd eu llenwi.
-------------------	--

Oherwydd difrifoldeb cyflwyno'r Rhaglen Alluogi Genedlaethol (NEP), byddai'n dda cael cip rheolaidd ar sut mae pethau'n symud ymlaen o ran cerrig milltir mawr. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddiweddarau o ran cynnydd yn gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf.

Gweithrediad 4	Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddarparu diweddariadau rheolaidd i Aelodau'r Cydbwyllgor o ran y cerrig milltir mawr o fewn cyflwyno'r rhaglen NEP.
-------------------	--

Gofynnodd aelod o'r Cydbwyllgor am fanylion ynghylch astudiaeth dichonolrwydd yr Awtomeiddio Prosesau Roboteg a'r hyn ydy'r Cylch Gorchwyl. Gall hyn gael effaith sylweddol ar unigolion o fewn y sefydliad ac ar sut y defnyddir pobl. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau am rannu'r Cylch Gorchwyl ac elfennau o'r astudiaeth dichonolrwydd gydag aelodau.

Gweithrediad 5	Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddarparu Cylch Gorchwyl bras o astudiaeth dichonolrwydd RPA i aelodau'r Cydbwyllgor.
-------------------	---

5. ARCHWILIO MEWNOL

a. TROSOLWG ARCHWILIO MEWNOL – ADRODDIAD RHEOLWYR

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch rheolaethau mewnol o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

Mae'r nifer o argymhellion nodedig wedi dringo o'r lefelau a welwyd mewn adroddiadau blaenorol. Ond mae hyn oherwydd bod nifer o archwiliadau wedi'u cwblhau'n ddiweddar.

Holodd y Cadeirydd am CBN-21041 – fetio staff – a ydy hyn yn cael ei loywi'n rheolaidd. Adroddwyd fod Prif Uwcharolygydd yr Adran Safonau Proffesiynol wedi adolygu'r broses hon ac mae'r casgliadau wedi'u hanfon at y Dirprwy Brif Gwnstabl i'w cymeradwyo. Mae'r ddogfen hon yn cadarnhau fod Heddlu Gogledd Cymru yn cydymffurfio â chodau ymarfer yr Heddlu a rhai Cenedlaethol. Rhennir y ddogfen gydag aelodau'r Cydbwyllgor unwaith y ceir cymeradwyaeth y Dirprwy Brif Gwnstabl.

Gweithrediad 6	Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i rannu dogfen adolygiad fetio staff gydag aelodau'r Cydbwyllgor unwaith y ceir cymeradwyaeth gan y Dirprwy Brif Gwnstabl.
-------------------	---

Holwyd sut mae Heddlu Gogledd Cymru yn sicrhau diogelwch eiddo tra mae ym meddiant swyddogion. Adroddodd y Swyddog Cyllid a Chyllidebau fod eiddo fel arfer yn llawn pan mae angen achosion llys/cyfweliad ac mae prosesau mewn lle er mwyn nodi pwy sydd â meddiant. Cadarnhaodd Archwilio Mewnol na wnaethant adolygu'r mater hwn yn ystod yr archwiliad diweddar. Holodd y Cadeirydd am sicrwydd ar brosesau sydd mewn lle er mwyn sicrhau diogelwch eiddo.

Gweithrediad 7	Y Swyddog Cyllid a Chyllidebau i rannu'r prosesau sy'n mewn lle i gofnodi pwy sy'n meddu eiddo a diogelwch eitemau pan archebir gan swyddogion unigol gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.
-------------------	---

Mae holl archwiliadau mewnol wedi'u trefnu i gael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae Archwilio Mewnol yn hyderus y bydd popeth wedi'i gwblhau.

Dywedodd Aelod o'r Cydbwyllgor y byddai'n fuddiol cael golwg ar unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg ynghylch pam fod amserlenni gweithrediadau a nodwyd o fewn yr archwiliadau mewnol yn llithro. Mae'r Swyddog Cyllid a Chyllidebau am edrych a gweld os oes ffordd y gallem nodi unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg.

Gweithrediad 8	Y Swyddog Cyllid a Chyllidebau i ymchwilio os oes unrhyw themâu yn dod i'r amlwg o ran pam fod amserlenni ar weithrediadau a nodwyd o fewn archwiliadau mewnol yn llithro. Mae am hysbysu'r Cydbwyllgor Archwilio am y canlyniad.
-------------------	---

b. ARCHWILIO MEWNOL SICA 2021-22 AC ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020/21

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd o ran Cynllun Blynyddol 2021-22.

6. **DIWEDDARIAD RISG**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur Diweddariad Risg ar 9 Tachwedd 2021.

Gofynnodd aelod o'r Cydbwyllgor am gael gweld yr ymarfer mapio sicrwydd sy'n cael ei ymgymryd er mwyn derbyn eglurder pellach. Gobeithir y bydd hyn yn digwydd yn ystod trafodaethau gyda'r Swyddog Risg a Pharhad Corfforaethol cyn cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio

Gweithrediad 9	Y Swyddog Risg a Pharhad Corfforaethol i ddangos yr ymarfer mapio sicrwydd i'r Aelod o'r Cydbwyllgor sy'n cael ei ymgymryd er mwyn derbyn eglurder pellach.
-------------------	---

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am ba mor bell mae'r eitem hon wedi'i datblygu yn ystod y blynyddoedd diweddar.

7. **RHAGLEN WAITH 2021/22**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r rhaglen waith ddiweddaraf a gyflwynwyd.

Yr eitem arfaethedig nesaf ar raglen waith y Cydbwyllgor Archwilio ydy'r digwyddiad Cymru gyfan. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cysylltu â phartneriaid er mwyn trafod dyddiad addas. Gwnaeth ofyn i aelodau'r Cydbwyllgor ei hysbysu o unrhyw ddyddiadau addas ac anaddas.

Gweithrediad 10	Y Cydbwyllgor Archwilio i hysbysu'r Prif Swyddog Cyllid o ran dyddiadau addas ar gyfer cynnal digwyddiad Cydbwyllgor Archwilio Cymru Gyfan.
--------------------	---

Cadarnhaodd y Prif Swyddogion Cyllid fod eitemau wedi'u hychwanegu at y rhaglen waith wrth i'r cyfarfod symud ymlaen.

Gofynnodd y Cadeirydd am gadarnhau dyddiad i'r cyfarfod briffio cyfrifon cyn gynted â phosibl.

Gweithrediad 11	Y Prif Swyddog Cyllid i sicrhau dyddiad i'r cyfarfod briffio cyfrifon cyn gynted â phosibl.
--------------------	---

8. ARCHWILIO CYMRU – GWERTH AM ARIAN AC ADRODDIAD ARCHWILIAD BLYNYDDOL (LLYTHYR RHEOLWYR)

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r llythyr archwilio blynyddol a roddwyd gan Archwilio Cymru sy'n crynhoi'r prif negeseuon a chasgliadau sy'n codi o'u cyfrifoldebau statudol. Mae'n nodi eu bodlonrwydd bod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl gyda'r trefniadau priodol mewn lle er mwyn sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth iddynt ddefnyddio adnoddau.

9. RHAGLEN GYFALAF - DIWEDDARIAD CYNNYDD 2021/22

Gwnaeth aelodau'r Cydbwyllgor nodi cynnwys y cyflwyniad a rannwyd yn ystod y cyfarfod.

Mae craffu parhaus yn parhau'n fewnol drwy'r Bwrdd Cyllid ac Adnoddau Strategol a'r Bwrdd Newid Strategol. Mae'r ddau yn adrodd i'r Uwch Fwrdd Rheoli sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl a'r Uwch Fwrdd Gweithredu sy'n cael ei gadeirio gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae Archwilio Mewnol wedi ymgymryd ag adolygiad o'r Rhaglen Gyfalaf hefyd a derbyniodd hyn sicrwydd sylweddol.

Mae amcan wariant o ran y cynllun yn parhau'n isel yn Chwarter 3. Mae amcanestyniadau ar gyfer y flwyddyn lawn wedi'u gostwng ers y cydbwyllgor archwilio diweddar. Mae gwariant yn debygol o fod yn is nac amcanestyniadau. Mae'n parhau i fod yn amgylchfyd heriol i ddechrau prosiectau oherwydd ffactorau amrywiol. Yn gyffredinol, mae Covid wedi effeithio datblygiadau pawb ers mis Mawrth 2020 o ran argaeledd adnoddau mewnol ac allanol (pobl a deunyddiau). Mae problemau cyflawni a chwyddiant oherwydd Brexit a ffactorau eraill wedi achosi oedi. Mae angen camau rhesymol os ydy costau amcanestynol dros y ffigyrau gwreiddiol er mwyn sicrhau gwerth am arian.

I Stadau, mae oedi mewn prosiectau wedi'u profi wrth symud caniatâd cynllunio ymlaen. Mae rhai oherwydd Covid a rhai oherwydd cymhlethdodau eraill. Mae danfon cerbydau hefyd wedi'u hoedi am nifer o resymau gan gynnwys Covid, Brexit, oedi mewn cytundeb cenedlaethol a phrinder microsglodion ledled y byd.

Mae'r prif brosiectau TG yn symud ymlaen a byddant yn cael eu gweithredu dros ddiwedd y flwyddyn. Mae profi a sicrhau bod yr offer/meddalwedd cywir yn cael ei brynu yn cymryd amser i'w gael yn iawn.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau rannu'r cyflwyniad gyda'r aelodau.

Gweithrediad 12	Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i rannu cyflwyniad Diweddariad Cynnydd y Rhaglen Gyfalaf gydag aelodau.
--------------------	--

Holodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio sut mae'r broses graffu yn gweithio ac a ddylai'r llithriant disgwylidig fod wedi'i ragamcanu ar ddechrau'r flwyddyn. Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau efallai fod deiliaid y gyllideb wedi bod yn uniongyrchol ac wrth symud ymlaen bod angen bod yn fwy realistig o ran yr hyn a ellir ei gyflawni.

Holodd aelodau hefyd ym mha fforymau mae Rheolwyr Prosiect yn cael eu herio a phwy sy'n arwain yr heriau hyn. Adroddwyd bod prosiectau'n cael eu herio ar lefel uchel. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau nad yw'n credu fod craffu gan uwch swyddogion yn broblem ac mae craffu yn digwydd ar y lefel gywir o fewn y sefydliad.

Holodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio os oes llinell amser bob mis a fyddai'n hysbysu aelodau o lle/beth ydy'r bylchau mewn gwario a galluogi aelodau i graffu a herio swyddogion yn well.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn mynd â'r mater i ffwrdd. Eglurwyd fod yr oedi gyda sefydlu a dechrau'r prosiectau/cytundebau. Unwaith mae'n barod, mae'n cael ei wario'n gyflym.

Gweithrediad 13	Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ystyried darparu amcanestyniad bob mis o wariant cyfalaf.
--------------------	--

Gofynnodd aelodau a oedd llif o brosiectau cyfalaf posibl a ellid eu hariannu gyda chronfeydd a ail-ddyrannwyd er mwyn galluogi'r rhagolwg gael ei gyflawni. Eglurwyd nad ydy prosiectau wedi'u gwaredu ond wedi'u symud ymlaen. Felly bydd dal angen arian er mwyn ariannu gan mai'r rhain ydy'r meysydd sydd bwysicaf i'r Heddlu. Roedd angen gwell rhagolygu er mwyn sicrhau y dyrennir arian a phrosiectau'n gywir.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio a oedd dull ar gael er mwyn craffu pam fod y tanwariant yn digwydd a sut all hanes gynorthwyo i hysbysu gwariant yn y dyfodol.

Holodd y Cadeirydd pa mor dryloyw ydy Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mewn trosglwyddo'r tanwario. Dywed y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod y Cydbwyllgor Archwilio yn fforwm cyhoeddus. Adlewyrchir holl ffigyrau yn y cyfarfod hwn a'r Datganiad Cyfrifon sydd hefyd yn cael ei gyhoeddi. Ond ystyrir ymhellach sut y gellir trosglwyddo'r tanwario'n well.

Gweithrediad 14	Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ystyried a oes angen dadleniad cyhoeddus ymhellach.
--------------------	--

10. ADRODDIAD CYFREITHIOL

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch cyfreithiol o fewn yr Heddlu yn ystod y chwe mis diwethaf.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio os oes unrhyw fylchau mewn dysgu wrth symud ymlaen er mwyn ceisio lliniaru hawliadau sifil. Cadarnhaodd Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu y darperir hyfforddiant i holl swyddogion ar brawf er mwyn ymdrin â phroblemau. Cyhoeddir bwletinau "Anghwybod" a "Chyfreithiol" i'r heddlu ehangach.

Gofynnodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio ei bod yn cael gweld sut y dyrennir y wybodaeth hon. Nododd nad oedd data yn yr adroddiad am batrymau yn dod i'r amlwg. Gofynnodd a ellir adlewyrchu hyn yn yr adroddiad wrth symud ymlaen i weld os lledaenir hyfforddiant yn llwyddiannus. Mae Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu am ymchwilio ymhellach sut y lledaenir gwybodaeth o fewn yr Heddlu ac mae am adrodd yn ôl.

Gweithrediad 15	Mae Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu am ymchwilio sut y dyrennir gwybodaeth a ddysgir gan hawliadau sifil o fewn Heddlu Gogledd Cymru.
--------------------	---

Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau o fewn elfen caffael y papur, mae rhai o'r cynigion dros £10k yn berthnasol i elfennau mawr ac allweddol o fewn y rhaglen gyfalaf. Dyma'r gweithgarwch sy'n digwydd yn y cefndir ac a all achosi peth oedi.

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio ei bod yn anodd cymharu'r ffigyrau cyflawniad cyfreithiol a ddarperir gan nad oedd llawer o gyd-destun os oes mwy o ystadegau ar gael. Adroddwyd fod meddalwedd newydd wedi'i brynu'n ddiweddar sy'n galluogi ystadegau gael eu rhoi. Gan symud ymlaen, gall gwybodaeth gymharol gael ei rhoi o fewn y papur a gyflwynir gan y bydd y system yn gallu rhoi'r ystadegau angenrheidiol.

Gweithrediad 16	Mae Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu am ystyried darparu ystadegau cyflawniad pellach o fewn y papur Diweddariad Cyfreithiol am gyfarfodydd yn y dyfodol.
--------------------	--

11. **DIWEDDARIAD SICRWYDD; SICRWYDD O GYFARFODYDD LEFEL UCHEL – BWRDD CYD LYWODRAETHU**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd Cyd-lywodraethu a'r mewnbwn a gafwyd gan y Bwrdd Sicrwydd.

12. **RHEOLI'R TRYSORLYS**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad chwe mis ar Reoli'r Trysorlys a'r gweithgarwch a ymgymerwyd o fewn chwe mis cyntaf 2021-22.

Nid oes toriadau wedi'u hysbysu amdanynt o fewn y 6 mis diwethaf, ond mae cyfraddau llog yn parhau i fod yn hynod isel gan mai'r flaenoriaeth ydy diogelwch, hylifedd ac arenillion yn y drefn honno. Nid oes angen benthycu newydd wedi bod.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio am y gyfradd log economaidd a pha mor sefydlog ydynt. Hysbysodd y Pennaeth Cyllid y derbynnir diweddariadau rheolaidd gan ymgynghorwyr. Maent i gyd i'w weld yn sefydlog ar hyn o bryd gyda dim newidiadau mawr wedi'u rhagfynegi.

Nodwyd bod Heddlu Gogledd Cymru mewn sefyllfa tan fenthycu. Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio os ydy/pryd mae hyn yn debygol o newid a pham nad ydy'r Heddlu'n manteisio am gyfraddau llog isel. Gofynnwyd hefyd a oedd gan Heddlu Gogledd Cymru strategaeth er mwyn ymdrin â hyn.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod strategaeth mewn lle ac y'i hadolygir yn flynyddol. Nodwyd hefyd fod holl fenthycu yn y dyfodol yn gysylltiedig gyda'r Rhaglen Gyfalaf a'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys. Mae holl brosiectau cyfalaf gwario mawr eto i'w cymeradwyo. Rhain ydy'r prosiectau y byddai benthycu yn debygol o fod yn eu herbyn. Mae'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys hefyd wedi'i wthio'n ôl flwyddyn a gallai'r Llywodraeth gamu i mewn i ariannu. Derbynnir diweddariadau rheolaidd hefyd gan yr Ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys, gan gynnwys amseru benthycu newydd.

13. **DIWEDDARIAD I'R COD RHEOLAETH ARIANNOL**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio ddiweddariad i'r Rheolaeth Ariannol sy'n cynorthwyo arfer da mewn rheolaeth ariannol ac mae'n cynorthwyo mewn arddangos cynaliadwyedd ariannol a meysydd i'w gwella.

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor fod hunanasesiad yn edrych fel marcio eich gwaith cartref eich hun. Gofynnodd a ellid cael pobl eraill i asesu cydymffurfiaeth. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod pobl eraill yn dod i mewn a bod Rheolwr Busnes yn rhan o'r broses hon. Gwnaiff edrych ar bwy all ddod fewn yn y dyfodol er mwyn cynorthwyo i adolygu ond gall fod yn anodd gan ei fod yn pwyso'n drwm ar brosesau ariannol.

Gweithrediad 17	Mae'r Pennaeth Cyllid i ystyried posibilrwydd swyddogion pellach yn dod i mewn er mwyn edrych ar sut mae'r Tîm Cyllid yn cyflawni o ran y dangosyddion a amlinellir o fewn y cod ymarfer.
--------------------	---

Dywed y Cydbwyllgor Archwilio eu bod yn edrych ymlaen at weld cynnydd pellach dros y misoedd nesaf.

14. **MOESEG**

Nododd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Moeseg ar y penbleth moesegol a gyfeiriwyd ato ynghylch cofnodion meddygol. Nododd y gwnaiff y Pwyllgor ailymweld a'r mater eto yn y dyfodol fel rhan o broblem ehangach.

Mae'r Pwyllgor Moeseg yn ceisio codi ei broffil drwy hyrwyddo'r gwaith maent yn ei wneud yn fewnol o fewn Heddlu Gogledd Cymru. Mae codi eu proffil wedi codi'r nifer o benblethau a dderbynnir.

Gofynnodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio sut y datblygir fframwaith unwaith mae'r benbleth wedi'i hymdrin er mwyn amlygu'r broblem o fewn yr Heddlu. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg fod gwaith yn parhau i nodi ffyrdd addas o adrodd yn ôl i'r Heddlu er mwyn atgyfnerthu sut y derbynnir negeseuon. Gofynnodd yr aelod i'r mater hwn ddod yn ôl at y Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol.

Gweithrediad 18	Mae Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg am ymchwilio ffyrdd sut yr adroddir materion yn ôl i staff o fewn Heddlu Gogledd Cymru a dod yn ôl i gyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol.
--------------------	--

Adroddwyd y gofynnwyd i Brif Uwcharolygydd ac Uwcharolygydd nodi cwestiynau moesegol allweddol sydd cael eu mewnbynnu i'r Pwyllgor Moeseg.

Nid chodwyd mater arall.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio ar 28 Mawrth 2022 am 9.30yb naill ai yn Ystafell Gynhadledd 1, Pencadlys yr Heddlu Bae Colwyn neu ar Microsoft Teams.

**CYDBWYLLGOR ARCHWILIO
COFNOD GWEITHREDIADAU o 06.10.2021**

	Agored
	Wedi cau
	Wedi ei ohirio

Gweithrediadau newydd/agored o fis Mawrth 2021

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
	152	Adolygiad Blynyddol / Adroddiad Blynyddol y CA (drafft) – Aelodau a Swyddogion i roi unrhyw adborth i'r Cydbwyllgor Archwilio cyn cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.	Cyn gynted â phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	20/06/21 – Cyflwynodd y CCA adborth ar gyfer y ddau adroddiad. 04/08/2021 – Gan nad oes cynllun gweithredu ynghylch gwerthusiad y CA – mae'r gweithrediad i barhau ar agor. 06/10/2021 – Mae'r CCA wedi creu cynllun gweithredu drafft a gaiff ei gylchredeg i'r PSC a CX am sylwadau. 18/11/21 – Mae'r cynllun gweithredu drafft wedi'i anfon at y PSC a'r PW a bydd yn cael ei anfon ymlaen at Gadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio sef Rachel Barber. 08/12/2021 Disgwyl hyd nes bod adolygiad y Cydbwyllgor Archwilio wedi bod.
06/10/2021	3	Diweddariad Sefydliadol – Prif Weithredwr i ddiweddarau aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ar y Strategaeth Gyfathrebu wrth fynd ymlaen.	01/12/2021	Prif Weithredwr	Yn dilyn adolygiad mewnol, penderfynwyd dod â'n cytundeb i ben gydag ymgynghoriaeth Cysylltiadau Cyhoeddus/Cyfyngau allanol. Rydym ar hyn o bryd yn recriwtio am Bennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a fydd yn cael yr orchwyl o adolygu ein strategaeth gyfathrebu bresennol. 08/12/2021 – Cynnal cyfweiliadau ar gyfer Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar ddiwedd yr wythnos.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					Gofynnodd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio am amserlen pryd y gweithredir y strategaeth gyfathrebu a'i chynnwys o fewn y Rhaglen Waith. 16.03.2022 - Dechreuodd y Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd yn ei rôl ar 7 Mawrth. Ymhlith tasgau cyntaf Matt bydd adolygu ac adnewyddu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r OPCC. Bydd hyn yn cael ei rannu ag aelodau JAC cyn y cyfarfod ym mis Gorffennaf.
08/12/2021	1	Munud – Prif Swyddog Cyllid i gysylltu gyda'u cyfatebwr yn SCHTh De Cymru er mwyn trafod cyfranogiad aelodau'r CA yn y broses gaffael Archwilio Mewnol.	10/01/2022	Prif Swyddog Cyllid	Mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi anfon manylion ymlaen am ddau aelod o CA Gogledd Cymru at y Prif Swyddog Cyllid yn Heddlu De Cymru.
08/12/2021	2	Diweddariad Sefydliad – Prif Swyddog Gweithredol i roi diweddariad pellach ar strwythur llywodraethu y gwasanaeth comisiynu yng nghyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol.	28/07/2022	Prif Swyddog Gweithredol	16.03.2022 - Paratowyd papur gan ddefnyddio cyllid Strydoedd Diogelach fel enghraifft i roi sicrwydd i aelodau'r JJAC ar y llywodraethu sydd ar waith pan sicheir cyllid allanol. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2021	3	Diweddariad Sefydliad – Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau am ddarparu adborth pellach ar weithgarwch sy'n cael eu hymgymryd er mwyn sicrhau y llwyddir recriwtio rolau anodd eu llenwi.	28/03/2022	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	04/04/2022 – Mae Pennaeth DPS wedi sefydlu gweithgor wythnosol sy'n canolbwyntio ar ymdrin a'r swyddi 'anodd eu llenwi'. Mae ystod o swyddi'n cael eu hystyried ar hyn o bryd, o TGCh, Data, Caffael, ac eraill. Mae'r diweddariad wythnosol diweddaraf wedi'i rannu gydag aelodau'r CA drwy yriant Google a rennir. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2021	4	Diweddariad Sefydliad – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddarparu diweddariadau rheolaidd i Aelodau'r Cydbwyllgor o ran y cerrig milltir mawr o fewn cyflwyno'r rhaglen NEP.	Cyfredol	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	15/02/2022: Mae PM a'r Rheolwr Rhaglen wedi rhoi rhestr o gerrig milltir a statws ar gynnydd. Gellir rhoi diweddariadau pellach ar gynnydd yn chwarterol yn ôl yr angen. Mae'r cerrig milltir wedi'u rhannu gyda holl aelodau y CA. Diweddariad wedi'i gynnwys yn yr adroddiad Sefydliadol. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2021	5	Diweddariad Sefydliad – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddarparu Cylch Gorchwyl bras o astudiaeth dichonolrwydd RPA i aelodau'r Cydbwyllgor.	Cyfredol	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Dogfen mynegiant o ddiddordeb cychwynnol wedi'i rhannu gyda'r CA drwy yriant Google a rennir. Awgrymu cau'r gweithrediad.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
08/12/2021	6	Archwilio Mewnol – Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i rannu dogfen adolygiad fetio staff gydag aelodau'r Cydbwyllgor unwaith y ceir cymeradwyaeth gan y Dirprwy Brif Gwnstabl.	28/03/2022	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Wedi'i rannu drwy Google Drive gydag aelodau am wybodaeth. Dim i'w ledaenu ymhellach. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2021	7	Archwilio Mewnol – Y Swyddog Cyllid a Chyllidebau i rannu'r prosesau sy'n mewn lle i gofnodi pwy sy'n meddu eiddo a diogelwch eitemau pan archebir gan swyddogion unigol gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.	28/03/2022	Swyddog Cyllid a Chyllidebau	Anfonodd y Swyddog Cyllid a Chyllidebau y "Weithdrefn Gweithredu Safon Eiddo ac Arddangosion" i'w rhannu gydag aelodau ar Google Drive. Mae'r Rheolwr Eiddo Wedi ei Atafaelu wedi hysbysu tra mae arddangosion allan o'r brif storfa, maent yn cael eu cadw yn y storfeydd cludiant amrywiol. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2021	8	Archwilio Mewnol – Y Swyddog Cyllid a Chyllidebau i ymchwilio os oes unrhyw themâu yn dod i'r amlwg o ran pam fod amserlenni ar weithrediadau a nodwyd o fewn archwiliadau mewnol yn llithro. Mae am hysbysu'r Cydbwyllgor Archwilio am y canlyniad.	28/03/2022	Swyddog Cyllid a Chyllidebau	O ran yr argymhellion sy'n weddill, mae'r unig lithriant rwyf yn ei weld ynghylch hyfforddiant Swyddogion Tân. Mae hyn o ganlyniad i Covid ac yna amrywiolyn Omicron lle canslwyd hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mae'r holl enwebeion wedi'u hailgofrestru ar gyfer cyrsiau hyfforddiant ym misoedd Chwefror a Mawrth 2022. Yr unig argymhellion eraill sydd wedi'u diwygio ydy pethau sy'n gysylltiedig â TG/NEP. Mae Anne wedi gofyn am ddiweddariad gan bartion perthnasol. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2021	9	Diweddariad Risgiau – Y Swyddog Risg a Pharhad Corfforaethol i ddangos yr ymarfer mapio sicrwydd i'r Aelod o'r Cydbwyllgor sy'n cael ei ymgymryd er mwyn derbyn eglurder pellach.	28/03/2022	Swyddog Parhad Risg a Busnes Corfforaethol	03/02/22 – Cynhaliwyd cyfarfod ar-lein ar 02/02/22 gyda Phennaeth Cudd-wybodaeth Busnes, Arweinydd Risg a Pharhad Busnes, Arweinydd Llywodraethu a Pholisi lle arddangoswyd safle presennol yr Heddlu ar Fapio Sicrwydd i Arweinydd Risg y CA. Roedd yr ymgysylltu a'r adborth yn hynod bositif. Wrth i'r ymarfer hwn symud ymlaen dros y 12 mis nesaf, bydd gwelliannau i'r broses yn parhau i roi sicrwydd pellach i aelodau'r CA ynghylch rheoli Risg. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2021	10	Rhaglen Waith 2021/22 – Y Cydbwyllgor Archwilio i hysbysu'r Prif Swyddog Cyllid o ran dyddiadau addas ar gyfer cynnal digwyddiad Cydbwyllgor Archwilio Cymru Gyfan.	10/01/2022	Prif Swyddog Cyllid	13/12/2021 – Anfonwyd e-bost at aelodau'r CA yn gofyn iddynt ymateb gydag unrhyw ddyddiadau anaddas.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
08/12/2021	11	Rhaglen Waith 2021/22 – Y Prif Swyddog Cyllid i sicrhau dyddiad i'r cyfarfod briffio cyfrifon cyn gynted â phosibl.	23/12/2021	Prif Swyddog Cyllid	14/12/2021 – Anfonwyd gwahoddiad Teams at bawb gyda dyddiad ar gyfer cyfarfod Briffio Cyfrifon. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2021	12	Rhaglen Gyfalaf – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i rannu cyflwyniad Diweddariad Cynnydd y Rhaglen Gyfalaf gydag aelodau.	23/12/2021	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	09/12/2021 – Cyflwyniad wedi'i roi ar Google Drive er gwybodaeth i aelodau. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2021	13	Rhaglen Gyfalaf – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ystyried darparu amcanestyniad bob mis o wariant cyfalaf.	28/03/2022	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Fel rhan o broses cynllunio Sefydliadol a datblygu'r strategaeth gyfalaf, mae cyflwyno cyllidebau cyfalaf wedi'i ystyried. Mae cyllid corfforaethol bellach wedi cyflwyno cyllidebu chwarterol a gwnaiff fonitro o ran gwariant gwirioneddol fel arbrawf ar gyfer 2022-23 fel y gellir rhoi mwy o gip o wahaniaethau. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2021	14	Rhaglen Gyfalaf – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ystyried a oes angen dadleniad cyhoeddus ymhellach.	28/03/2022	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Ar hyn o bryd cyflawnir dadleniad cyhoeddus drwy rhaglen waith y CA (lle mae gwariant Cyfalaf yn nodwedd gyson), Adroddiad Naratif y Datganiad Cyfrifon a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r dogfennau Strategaeth Gyfalaf. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2021	15	Adroddiad Cyfreithiol – Mae Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu am ymchwilio sut y dyrennir gwybodaeth a ddysgir gan hawliadau sifil o fewn Heddlu Gogledd Cymru.	28/03/2022	Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu	Bwydir gwersi a ddysgwyd yn ôl yn uniongyrchol i'r swyddog sydd ynghlwm yn yr hawliad sifil. Mae Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu yn credu fod y cwestiwn yn berthnasol i ddatblygiad personol/proffesiynol parhaus swyddogion wedi iddynt gwblhau eu cyfnod prawf a pha hyfforddiant a ddarparwyd i'r swyddogion hynny. Cedwir holl ofynion hyfforddiant, gan gynnwys rhai gorfodol, annorfodol, penodol i rôl a datblygiadol o fewn Fframwaith Dysgu a Datblygu HGC. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2021	16	Adroddiad Cyfreithiol – Mae Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu am ystyried darparu ystadegau cyflawniad pellach o fewn y papur Diweddariad Cyfreithiol am gyfarfodydd yn y dyfodol.	28/07/2022	Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu	Mae'r adran gyfreithiol wedi cyflwyno System Rheoli Achosion ddiweddar, sef Opus. Dros amser, o leiaf 12 mis, wrth i'r data a geir o fewn Opus gynyddu, fe grëir adroddiadau mwy arwyddocaol/manwl o ran y meysydd a nodwyd. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2021	17	Diweddariad i'r Cod Rheolaeth Ariannol – Mae'r Pennaeth Cyllid i ystyried y posibilrwydd o swyddogion pellach yn dod i	28/03/2022	Pennaeth Cyllid	Mae'r cod Rheolaeth Ariannol yn asesu sut mae'r Heddlu a SCHTh yn cyflawni o ran y cod yn hytrach na'r Tîm Cyllid. Roedd yr asesiad cychwynol yn cynnwys un o'r Rheolwyr

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
		mewn er mwyn edrych ar sut mae'r Tîm Cyllid yn cyflawni o ran y dangosyddion a amlinellir o fewn y cod ymarfer.1			Busnes. Adroddir y cod Rheolaeth Ariannol i'r Bwrdd C&A a ddefnyddir i graffu'r asesiad. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2021	18	Moeseg – Mae Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg am ymchwilio ffyrdd sut yr adroddir materion yn ôl i staff o fewn Heddlu Gogledd Cymru a dod yn ôl i gyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol.	28/03/2022	Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg	Rhoddwyd diweddariad gan y Pwyllgor Moeseg i'r Bwrdd Uwch Reoli ar 17/01/22. Amlinellodd y cyflwyniad fecanweithiau sut yr adroddir materion yn ôl i staff HGC, a chyffyrddwyd ar rai dilemâu moesegol diweddar. Mae'r sleidiau wedi'u rhannu ar wahân gydag aelodau'r CA er gwybodaeth. Awgrymu cau'r gweithrediad.

Gweithrediadau caeedig ers y cyfarfod diwethaf – archifwyd ym mis Mawrth 2021 – ar gael ar gais

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD O'R GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
	56a	Moeseg Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i godi'r ddilema a dderbyniwyd ynghylch rhai sy'n cael eu hymosod yn rhywiol gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr.	Wedi gohirio	Comisiynydd Heddlu a Throsedd	<p>Mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi cydlynu gyda'r Prif Swyddog Gwybodaeth sy'n dweud bod hyn yn fater cenedlaethol sy'n cael ei ystyried yn ddiweddar gan yr ICO, GEG a'r llysoedd ac yn argymhell na ddylai CHTH beidio â bod yn rhan o'r mater ar y foment.</p> <p>09/03/2020 – fel mater cenedlaethol, gall cynnwys y CHTH atal cynnydd. Gohirio hyd nes y bydd y darlun cenedlaethol yn gliriach.</p> <p>02/06/2020 – Wedi gohirio. Yn disgwyl cynnydd cenedlaethol.</p> <p>19/10/2020 – Cadarnhau na dderbyniwyd diweddariad pellach.</p> <p>30/03/2021 – Cadeirydd newydd yn y swydd ac mae'r trosglwyddiad yn bwrw ymlaen. Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i ymchwilio i sicrhau bod y mater yn cael ei gynnwys o fewn y trosglwyddiad.</p> <p>04/08/2021 – Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi ymchwilio'r mater a godwyd ymhellach a gwnaiff drafod gyda'r Prif Weithredwr a Chadeirydd y Pwyllgor Moeseg i gytuno ar ffordd ymlaen.</p> <p>05/10/2021 – Gwnaeth y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau gyfarfod â Jacquie Don, Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg yr wythnos ddiwethaf i drafod dau fater ar wahân sydd o bosib yn berthnasol i'r hen weithredid CA. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg yn bwriadu trafod y materion hyn yn y bwrdd ym mis Hydref os yn bosibl. Unwaith y trafodir, bydd y pwyllgor yn rhoi adborth ar gamau nesaf posibl a ellir eu bwydo i'r CA er mwyn rhyddhau'r gweithrediad.</p> <p>17/11/21 – Gwnaeth y Pwyllgor Moeseg gyfarfod ar 26 Hydref a thrafodwyd materion perthnasol (mae crynodeb wedi'i anfon ar wahân gan y Cadeirydd Jacquie Don). O ganlyniad, mae'r Pwyllgor Moeseg wedi gofyn am wybodaeth bellach i'w adolygu mewn bwrdd yn y dyfodol. Faes o law, bwydir yr allbwn o'r Pwyllgor Moeseg i fforwm a gadeirir gan y Prif Gwnstabl.</p>

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD O'R GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					08/12/2021 Bydd adborth yn cael ei roi i Heddlu Gogledd Cymru drwy gyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli/Uwch Dîm Arwain. Awgrymu y caeir y gweithrediad.
	91b	Archwilio Mewnol – Datganiadau Rheolwyr yr Heddlu i'w rhoi ar y Bwrdd Cyd Lywodraethu ac Agenda'r Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	02/06/2020 Nid oes rhwymedigaeth i greu Datganiad Rheolwyr yr Heddlu yn ystod 2020/21. Edrychir ar y ddogfen fodd bynnag a bydd yn cael ei chreu ar gyfer cyfarfod mis Mawrth 2021. 30/07/2020 CFO i ddiweddarau'r rhaglen waith i adlewyrchu newid rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021. 12/02/21 – Camau a ail-agorwyd i fonitro cynnydd. 12.02.21 – Mae amserlenni'n golygu y bydd y FMS drafft yn cael ei gwblhau ar ôl y cyfarfod ym mis Mawrth. Y wybodaeth ddiweddaraf i'w rhoi i'r FMS i'w gynnwys yn y sesiynau cynefino Aelodau Newydd i Aelodau'r Pwyllgor, Agenda CA mis Gorffennaf neu'r ddau. Pennaeth yr Uned Cynllunio Strategol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd cyn y cyfarfod ym mis Mawrth. 01.03.2021 – Fel rhan o'r broses gynllunio a arweiniodd at bennu cyllidebau, cwblhaodd pob ardal yn yr heddlu Gynllun Busnes yn nodi eu dealltwriaeth o'r galw, y capasiti a'r gallu presennol ac yn y dyfodol. Bydd y cynlluniau hyn ynghyd â chanlyniadau'r penderfyniadau a wneir wrth bennu'r gyllideb yn ffurfio ein cyflwyniad FMS eleni. Yn ogystal, mae dadansoddiad bwlch wedi'i wneud i'n galluogi i olrhain effaith ein penderfyniadau adnoddau. Mae rhagolygon ystadegol o dueddiadau galw allweddol wedi'u cwblhau i lywio cynllunio sefydliadol. Mae bron pob adran yn nodi tuedd gynyddol o alw ac er bod agweddau wedi'u hatal gan COVID mae eraill wedi cyflymu y tu hwnt i'n rhagamcanion gwreiddiol. Ar hyn o bryd rydym yn cwblhau dadansoddiad manylach ar effaith y pandemig ar alw'r heddlu a fydd yn rhan o'r ddogfen derfynol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno i HMCIFRS yw 31 Mai 2021.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD O'R GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					<p>30/03/2021 – Gwaith yn parhau i gael ei ddatblygu a'r Cydbwyllgor Archwilio i weld Datganiad Rheoli'r Heddlu pan fydd wedi'i gwblhau.</p> <p>21/05/21 – I'w ddsbarthu cyn ac ar wahân i bapurau cyfarfod.</p> <p>23/06/21 – Mae'r FMS yn ddogfen 'Sensitif Swyddogol' gyda'r rhan fwyaf o'r cynnwys hwnnw wedi'i gynnwys yn y Cynlluniau Busnes. Y cynnig yw dosbarthu'r Crynodeb Gweithredol i aelodau'r CA, rhoi trosolwg yng nghyfarfod y CA ym mis Awst gyda'r bwriad o ddarparu sesiynau briffio mwy penodol wedi'u targedu yn ôl y gofyn.</p> <p>04/08/2021 – Cadarnhaodd swyddogion fod y ddogfen hon wedi bod â'r marc 'Swyddogol Sensitif' bob amser.</p> <p>Awgrymodd aelodau o'r CA gau'r gweithrediad.</p>
	102b	Trosolwg Archwilio Mewnol – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ymateb i'r CA yn ymwneud â'r rheswm dros ddiwygiadau dyddiad dyledus a sut y byddai mater GDPR sy'n ymwneud â data sensitif a gedwir ar yriannau Rhwydwaith yn cael sylw drwy NEP a mudo i amgylchedd Cwmwl.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	<p>17/09/20</p> <p>E-bostiwyd Arweinydd Risg CA gan y DFR 31/07/20 gyda rhesymau dros y diwygiadau dyddiad dyledus wedi'u hamlygu. Pwysleisiwyd bod yr angen i sicrhau bod dyddiadau priodol ar argymhellion TIAA yn rhesymol ac yn realistig cyn cytuno wedi'i bwysleisio i'r rhai sy'n cynnal archwiliadau gan y DFA a'r HoF.</p> <p>E-bostiodd DFR Arweinydd Risg CA ar 31/07/20 parth. GDPR: "Er mwyn lliniaru'r mater GDPR y cyfeirir ato yn y pen draw, byddai angen i unrhyw ateb sicrhau mai dim ond data sy'n cydymffurfio â GDPR sy'n cael ei fudo i'r Cwmwl (lle mae angen ei reoli wedyn mewn ffordd strwythuredig) a hefyd bod angen rheoli unrhyw ddata nad yw'n mudo yn briodol.</p> <p><i>Mae darparu adnoddau ar gyfer y ffrwd waith naill ai drwy dîm prosiect y NEP neu drwy ffrwd waith ar wahân yn cael ei drafod ar hyn o bryd gydag achos busnes ar y gweill."</i></p> <p>05.10.2020 – Holodd aelod o'r CA sut fyddai symud data sydd ddim yn cydymffurfio i'r cwmwl o gymorth wrth liniaru risg ac yn gadael yr Heddlu gyda data sydd ddim yn cydymffurfio ar</p>

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD O'R GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					<p>y gyriant. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod data cydymffurfiaeth yn cael ei fudo i'r Cwmwl ond ei fod hefyd yn edrych ar faterion gwaddol er mwyn edrych ar y mater ymhellach. Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i edrych i'r mater ymhellach a diweddarau'r Cydbwyllgor Archwilio.</p> <p>20/11/2020 – Diweddariad pellach ynghylch dull a anfonwyd drwy'r e-bost gan DFR at arweinydd Risg CA.</p> <p>10.12.2020 – e-bost wedi'i anfon at ARWEINYDD Risg CA ar liniaru risg. Aelod/Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i gytuno pa sicrwydd fydd yn cau'r cam gweithredu hwn.</p> <p>09/02/2021 Trafododd DFR ac arweinydd risg CA e-bost dyddiedig 10/12/20 am gyfnod. Cynlluniau Rhaglen Galluogi Cenedlaethol (NEP) ar gyfer mudo data i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol sydd ei angen i gau camau gweithredu.</p> <p>30/03/2021 – Datblygwyd cynlluniau i ymestyn yr NEP. Y cam nesaf yw anfon Data Mudo at y Cydbwyllgor Archwilio er gwybodaeth.</p> <p>21/05/21 – Dylid dosbarthu'r briff i John Cunliffe a'i gopïo i'r Cadeirydd.</p> <p>NEP i'w gynnwys yn y rhaglen Waith.</p> <p>23/06/21 – Anfonwyd e-bost briffio ynghyd â dogfennau sylfaenol. NEP i'w gynnwys fel rhan o bwynt at Wraidd y Mater ar Agenda CA mis Awst</p> <p>Mae Aelodau'r CA yn awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
	105a	Bwrdd Sicrwydd – Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i ddod â rhestr o brofion Top Bwrdd i gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio.	Cyfarfod mis Hydref	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	<p>Rydym yn cydnabod bod hon yn agwedd bwysig ar ein gwaith sicrwydd, a byddwn yn ceisio canolbwyntio arno mewn ystyr ystyrllon unwaith y bydd gallu i wneud hynny ar ôl ymdrin â materion pwysig BC o ddysgu'r gwersi o COVID. Mae prosesau ar waith gyda phwyntiau cyswllt unigol parhad busnes ar gyfer ymarferion pen bwrdd parhaus, ac ymarfer blynyddol ar lefel yr Heddlu gyfan, ond nid oes amserlen ffurfiol/fanwl ar waith ar hyn o bryd.</p> <p>Bydd amserlen brofi lawn yn rhan o'n hymateb ond mae angen i ni roi ystyriaeth briodol iddi cyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gydbwyllgor Archwilio. Byddaf yn anelu at gael</p>

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD O'R GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					<p>y wybodaeth ddiweddaraf lawnach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor yn manylu ar y rhestrau profi cyfredol ac arfaethedig.</p> <p>05.10.2020 – Blwyddyn ddigynsail ac mae llawer wedi'u profi mewn amser real. Adolygiad arall ddechrau'r flwyddyn nesaf. Diweddariad llawnach i'w roi yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2020.</p> <p>12/11/20 Mae dau brawf parhad busnes wedi'u trefnu ers cyfarfod diwethaf y CA.</p> <ul style="list-style-type: none"> • 10/11/20 Ymarfer Seiber Fforwm Cydnerth Lleol Gogledd Cymru – wedi'i ohirio oherwydd anawsterau technegol, i'w aildrefnu ar gyfer diwedd mis Tachwedd/dechrau mis Rhagfyr 2020 • 17/12/20 – Ymarfer parhad Busnes Ymadael â'r UE. Fersiwn wedi'i diweddarau o ymarfer Ymadael â'r UE a gynhaliwyd yn flaenorol ar 09/10/20 • Mae papur opsiynau parhad busnes wedi'i baratoi ar gyfer grŵp tactegol Adfer Covid 19 13/10/20 er mwyn ystyried ymestyn cynlluniau parhad busnes pwrpasol i bob maes gan gynnwys meysydd risg isel. Bydd hyn yn hysbysu graddfa'r gwaith parhad busnes i'w ymgymryd. Bydd hefyd yn hysbysu'r amserlen profi ar gyfer 2021 a fydd yn cael ei chreu fel rhan o'r gwaith. <p>Yng ngoleuni problemau gallu o fewn y tîm sicrwydd, cytunwyd ar aelod o staff dros dro ychwanegol a fydd ar gael yn fuan o'r Adran Cynllunio Gweithredol i gynorthwyo dros dro gyda'r gwaith parhad busnes.</p> <p>11.01.2020 – Cadeirydd ac Uwcharolygydd/Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol i drafod gweithredu.</p> <p>03.03.2021 Gweler y papur amgaeedig (Atodiad A).</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
	139a	Rhaglen Waith – Prif Swyddog Cyllid i drefnu gweithdy i drafod risg a sut y	CYN GYNTED A PHOSIBL	Prif Swyddog Cyllid	Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau/Prif Swyddog Cyllid wedi trafod ac mae PA wedi gofyn i DFR drefnu gweithdy ddiwedd Ionawr/dechrau Chwefror. Pennaeth Cudd-

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD O'R GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
		gellid ymgorffori risgiau statig yn well i agenda'r cyfarfod.			wybodaeth Busnes/Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol i drafod gydag Arweinydd Risg CA a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r rhaglen. Angen trafodaeth bellach gan efallai mai aelod newydd o'r CA fydd yr Arweinydd Risg. 03.03.2021 – Y Prif Swyddog Cyllid i drefnu gweithdy i drafod risg a sut y gellid ymgorffori risgiau statig yn well yn agenda'r cyfarfod. Yn dilyn trafodaeth gyda John Cunliffe, cytunwyd y byddai'r Heddlu, ochr yn ochr ag Adolygiad Blynyddol Awch Risg, hefyd yn cynnal adolygiad blynyddol o'r Gofrestr Risg yn ogystal â'r risgiau a gaewyd yn ystod y 12 mis blaenorol. Digwyddodd hyn yng nghyfarfod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 23 Chwefror 2021, a rhoddwyd ystyriaeth i risgiau y gallai fod angen eu hadolygu'n barhaus er iddynt gael eu cau. Mae llwybr hefyd i oruchwyllo risgiau statig drwy'r broses mapio risg. Byddai'r ddau hyn yn adrodd o bryd i'w gilydd i'r Cydbwyllgor Archwilio drwy'r adroddiad risg rheolaidd pan fo'n berthnasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i risgiau statig/hirdymor. 21/05/21 – Bydd swyddogion yn cael diweddariadau rheolaidd gydag arweinydd y CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.
30/03/2021	144	Diweddariad Sefydliadol – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i baratoi nodyn strategol lefel uchel ar ganlyniad y diwrnod gweledigaeth a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2021.	Cyn Gynted â Phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Bydd Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn cylchredeg i bawb. 24/06/21 – Dosbarthwyd dogfen diwrnod creu gweledigaeth i aelodau'r CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	145a	Diweddariad AHEM – Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau bod rhagor o fanylion yn cael eu darparu yn y papur diweddarau ar gyfer cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2021.	Gorffennaf 2021	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol	Ystyried wrth baratoi ar gyfer y papur ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	146a	Archwilio Mewnol – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i sicrhau bod	Gorffennaf 2021	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Pan roddir sicrwydd cyfyngedig yn yr adroddiad archwilio, mae'r rheolwr perthnasol i fynychu Cydbwyllgor Archwilio.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD O'R GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
		perchnogaeth o gamau gweithredu sy'n weddill yn cael ei hadlewyrchu mewn papurau yn y dyfodol.			23/06/21 – Monitro'r CCA a'r Gyllideb i adlewyrchu yn adroddiad Archwilio Mewnol 21Awst. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	146b	Archwilio Mewnol – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i drafod y terfynau amser a gollwyd ar gyfer ymatebion gan reolwyr ar argymhellion sy'n weddill gyda'r tîm.	CYN GYNTED A PHOSIBL	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Pan roddir sicrwydd cyfyngedig yn yr adroddiad archwilio, mae'r rheolwr perthnasol i fynychu Cydbwyllgor Archwilio. 23/06/21 – Monitro'r CCA a'r Gyllideb i adlewyrchu yn adroddiad Archwilio Mewnol 21Awst. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	146c	Archwilio Mewnol – Archwilio Mewnol i ddarparu tystiolaeth o gyflawniadau yn ystod y flwyddyn ariannol.	Gorffennaf 2021	Archwilio Mewnol	Byddwn yn ceisio sicrhau bod ein hadroddiadau yn rhoi trosolwg cytbwys o'r gwaith a gwblhawyd a chyflawniadau tra'n glynu wrth arfer gorau a safonau perthnasol. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	147	Diweddariad Risgiau – Pennaeth Gwybodaeth Busnes i roi amserlenni i'r Cydbwyllgor Archwilio o ran pryd y bydd papurau yn y dyfodol sy'n dangos dull mwy seiliedig ar risg o fapio sicrwydd yn cael eu dwyn yn ôl i'r cyfarfod i'w hystyried.	Gorffennaf 2021	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	Pennaeth Gwybodaeth Busnes i sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys yn y papur nesaf. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	148a	Rhaglen Waith – Cyfarwyddwr Cyllid a Phrif Swyddog Cyllid/Adnoddau i ddiweddarau'r rhaglen waith cyn y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2021.	Gorffennaf 2021	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Prif Swyddog Cyllid	Rhaglen Waith wedi'i diweddarau. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	148b	Rhaglen Waith – Cyfarwyddwr Cyllid a Phrif Swyddog Cyllid/Adnoddau i ystyried y ffordd orau o gynnwys y NEP a'r gwaith trawsnewid Digidol o fewn rhaglen waith y Cydbwyllgor Archwilio.	Cyn cyfarfod Gorffennaf 2021	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Prif Swyddog Cyllid	21/05/21 Ymateb cychwynnol fu i gynnwys yr NEP fel rhan o ymchwiliad at wraidd y mater ar gyfer CA Gorffennaf 21. 24/06/21 Cynnig byddai rhoi trosolwg o'r Rhaglen Trawsnewid Ddigidol fel rhan o'r archwiliad risg at wraidd y mater yn y dyfodol gyda'r bwriad o roi sicrwydd ynghylch yr elfennau a archwiliwyd hyd yma a'r llywodraethu sy'n gysylltiedig â gweddill elfennau'r rhaglen. 04/08/2021 – Diweddarau'r rhaglen waith i adlewyrchu Trawsnewidiad Digidol. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	149a	Strategaeth Gyfalaf – Pennaeth Cyllid i roi mwy o eglurder ar ffigurau o fewn y ddogfen a'u dosbarthu i	Cyn Gynted â Phosibl	Pennaeth Cyllid	05/07/21 Dealltwriaeth y Pennaeth Cyllid o'r cwestiwn yn y cyfarfod oedd ei fod yn ymwneud ag achosion y llithriadau yn y Rhaglen Gyfalaf a oedd yn bwydo i mewn i'r Rhaglen yn y

Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none">• Mae geiriau'r risg wedi ei ddiweddarau i ddisgrifio'r risg yn well.• Mae'r peryg yn gysylltiedig â Gweledigaeth yr Heddlu, Cynllun Cyflenwi, Blaenoriaethau Plismona'r CHTh yn ogystal â gofynion rheolaethol.• Mae'r Cynllun Ariannol yn y Tymor Canolog a'r adroddiad Praesept wedi eu cysylltu yn uniongyrchol at reoli'r risg.• Mae'r risg yn cael ei achosi gan amrywiaeth a sensitifrwydd yn ymwneud â chyllid yr heddlu yn cyfateb i'w anghenion adnoddau. Mae'r amrywiaethau allweddol yn cael eu hadlewyrchu yn y rhagdybiaethau cynllunio.• Mae effaith a thebygolrwydd yr elfennau allweddol sy'n gyrru'r risgiau yn cael eu craffu arnynt yn rheolaidd.• Mae llywodraeth benodol yn ei le yn ogystal â riportio drwy Bwrdd Gweithredol.
Argymhellion:	Bod y Pwyllgor Archwilio yn sicrhau bod y risg yn cael ei reoli yn effeithiol.
Effaith cofrestr risgiau:	Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â risg penodol ar y rhestr.
Goblygiadau sicrwydd:	Mae'r MTFP yn gosod yn fanwl sut mae'r risg yn cael ei reoli.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim effaith.
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddatleniad:	Dim gwybodaeth wedi'i hesgusodi.

Cydbwyllgor Archwilio 28/03/22

Adolygiad Manwl o Risg 13 - Adnoddau ariannol annigonol i gyflenwi cynlluniau gwasanaeth

1. Risg Disgrifiad:

Mae risg bod adnoddau ariannol yn annigonol ar gyfer ateb anghenion cyflenwi gwasanaethau'r Heddlu. Mae hyn **wedi'i achosi gan** amrywiaeth a sensitifrwydd yn ymwneud ag elfennau yn gyrru cyllid yr heddlu ac i'r graddau y mae hyn yn parhau i gyfateb i'w anghenion adnoddau **a all arwain at** beidio â chyflenwi cynlluniau gwasanaeth.

Mae amrywiolion niferus yn effeithio'r risg uchod gydag elfennau allweddol fel Grantiau'r Llywodraeth, Praesept, Tâl a chwyddiant arall, y gallu i gyflenwi arbedion pellach, newid yn y fformiwlâu a newid yn y galw.

2. Sut mae'r peryg hwn yn berthnasol i Weledigaeth yr Heddlu; Cynllun cyflwyno; Blaenoriaethau Plismona'r CHTH; neu ofynion rheolaethol arall?

Mae'r peryg yn gysylltiedig â Gweledigaeth yr Heddlu, Cynllun Cyflenwi, Blaenoriaethau Plismona'r CHTH yn ogystal â gofynion rheolaethol.

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) yn gosod y broses y mae'r Heddlu yn bwriadu eu lleihau dros y tymor canolig. Bydd hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau bob blwyddyn.

Mae'r MTFP yn clymu'r Cynllun Heddlu a Throsedd 2021 a blaenoriaethau plismona cysylltiedig gyda Strategaeth Ariannol a'r adnoddau sydd ar gael i'w gyflenwi.

Mae'r MTFP a'r broses gynllunio gysylltiedig y tu ôl iddo yn asesu os oes adnoddau digonol i gyflenwi'r cynllun, yn dynodi adnoddau yn unol â blaenoriaethau'r CHTH a'r Prif Gwnstabl.

3. Beth gafodd ei wneud i ddeall/asesu Effaith a Thebygolrwydd y peryg hwn pan gafodd ei godi gyntaf?

a) Effaith

Mae'r cylch cynllunio blynyddol yn adolygu effaith cyllid annigonol posib yn fanwl.

Mae'r broses yn cysylltu Datganiad Rheoli'r Heddlu (FMS) sy'n cynnwys cwblhau hunan asesiad dwfn bob blwyddyn sy'n cael ei gyflwyno i'r HMICFRS. Yr FMS yw eglurhad y Prif Gwnstabl o'r

- galw mae'r heddlu yn disgwyl i'w wynebu yn y dyfodol;
- y perfformiad, cyflwr, cyfansoddiad, capasiti, gallu a gwasanaeth a diogelwch cyflenwad gweithlu'r heddlu a'r graddau y mae asedau cyfredol yr heddlu yn gallu ateb galw'r dyfodol;

- sut y bydd yr heddlu yn newid a gwella'r gweithle, polisïau, arferion ac asedau eraill i ymdopi gyda'r galw yn y dyfodol;
- yr effaith y mae'r heddlu yn disgwyl i'r newidiadau gael ac effaith unrhyw waddol methiant gwasanaeth;
- a'r arian y mae'r heddlu yn disgwyl ei gael i wneud hyn i gyd.

Mae'r broses gynllunio flynyddol yn ystyried arbedion posib ar lefelau risg gwahanol ar gyfer pob maes Gwasanaeth. Bydd yr effaith yn dibynnu ar yr amgylchiadau sydd wedi amrywio o ba weithgaredd sydd yn rhaid stopio a sut i fynd i'r afael â galw newydd.

Yng nghyswllt cyllid, mae'r prif amrywion yn cael eu hasesu yn rheolaidd fel rhan o gylch cynllunio. Mae'r lefelau cyfredol o sensitifrwydd ar gyfer y prif amrywiolion fel a ganlyn:

1% o newid mewn...	Effaith £m
Tâl	1.49
Cyfraniadau Pensiwn Cyflogai	1.09
Treth Gyngor	0.94
Grant	0.88
Chwyddiant cyffredinol	0.54

b) Tebygolrwydd


Mae'r prif rhagdybiaethau sy'n gyrru cyllid yr heddlu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r broses gynllunio ac mae hyn yn cynnwys y tebygolrwydd o ddigwyddiad arbennig er nad yw tebygolrwydd penodol neu lefelau hyder yn cael eu gosod yn ffurfiol i'r amrywiolion cyllid allweddol.

Cyhoeddir grantiau fis Rhagfyr cyn y flwyddyn ariannol sy'n dechrau fis Ebrill sy'n dilyn. Mae'r praecept wedi ei osod yn Ionawr ond ni ellir cytuno arno heb wybod y Grantiau. Cytunwyd ar ddyfarniadau tâl yn ystod y flwyddyn ariannol y maent yn berthnasol iddynt (wedi eu dyfarnu o fis Medi).

Gan ystyried y rhagdybiaethau sy'n rhaid eu gwneud ar sail tebygolrwydd a cheir gwybodaeth am y rhain gan drafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol ac unrhyw gyhoeddiadau eraill (e.e. Datganiad Hydref y Canghellor).

Dylid nodi bod cyhoeddiad grant diweddaraf y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 yn cynnwys ffigurau lefel y Swyddfa Gartref ar gyfer 2023-24 a 2024-25 ond mewn gwirionedd mae'r blynyddoedd diweddaraf yn fynegol yn unig ac yn gallu newid yn dibynnu ar amgylchiadau yn ddiweddarach ac ond yn rhannol yn rhychwantu'r cyfnod MTFP.

Mae tebygolrwydd o newidiadau i'r rhagdybiaethau a'r effaith yn cael ei drafod drwy'r broses i gyd, gydag asesiadau cyfredol o'u heffaith ddiweddaraf isod:



4. Pa lywodraethu sydd yn bodoli o gwmpas y risg hwn?

Mae llywodraethu o gwmpas y risg yn cynnwys:

- Adlewyrchu arno ar gofrestr risg yr Heddlu a'i fonitro drwy Broses Rheoli Risg yr Heddlu.
- Hunan asesiad blynyddol FMS a'r bwrdd llywodraethu cysylltiedig.
- Y broses Cynllunio Strategol Flynyddol a'r bwrdd llywodraethu cysylltiedig.
- Y broses MTFP flynyddol a'r bwrdd llywodraethu cysylltiedig.
- Cyflwyno a chraffu'r adroddiad MTFP a'r Praesept drwy Banel yr Heddlu a Throsedd.
- Adroddiadau ariannol rheolaidd gyda diweddariadau ar gynnydd - ar ôl cytuno, perfformiad ariannol yn erbyn y cynllun - yn cael ei adrodd Bwrdd Cynllunio Strategol (BCS) a'r Bwrdd Gweithredol Strategol (BGS) fel rhan o'r diweddariadau Cyllid a'r adroddiadau penodol fel bo'r galw.
- Oblygiadau penodol swyddogion S151 yr Heddlu a CHTh sy'n goruchwylio'r prosesau uchod ac yn ymgysylltu â nhw yn llwyr.
- Archwiliadau sydd wedi digwydd dros gwrs y flwyddyn yn cynnwys hunan asesiad Cod FM (sy'n cynnwys elfen o gynladwyedd ariannol) ac archwiliad Blynyddol Annibynnol Cymru.

Mae llinell amser y broses gynllunio Strategol wedi ei amlinellu ar y tabl isod:

<u>Mai 2021</u>	<u>Mehafin - Gorffennaf - Awst</u>	<u>Medi - Hydref 2021</u>	<u>Tachwedd 2021</u>	<u>Rhagfyr 2021 i Chwefror 2022</u>
Gweithdy'r Prif Swyddog	Achosion Busnes a Chynlluniau a luniwyd	Cyflwyno yn gynnar fis Medi	Cyfarfod Cynllunio Sefydliadol Terfynol	Cynigion wedi eu cyflwyno i CHTh 7.12.2021

Gweithdy Rhanddeiliad Allweddol	Cynllunio Strategol yn blaenoriaethu cefnogaeth tîm canolog	Adolygiad Cynllunio Strategol a Chyllid	Datganiad yr hydref	Cyhoeddiad Grant 16.12.21
Achosion Busnes a Gomisiynwyd		Adolygiad Cyfarfodydd Cynllunio Sefydliadol	Cyfarfod cyllideb Prif Swyddogion ac Arweinwyr Gwasanaethau i gwblhau cynigion	Cwblhau cynigion gyda'r CHTH 21/12/21
Cynlluniau Busnes a Gomisiynwyd	Tîm canolog yn dechrau cyfarfodydd cefnogol gyda'r awduron	Cynigion a osodwyd		Cynlluniau Terfynol wedi eu llunio
				Cyfarfod panel 31.1.2022

5. Beth sydd wedi cael ei wneud i reoli neu leihau effaith a/neu'r tebygolrwydd o'r peryg hwn?

Agweddau allweddol i reoli neu leihau'r effaith a thebygolrwydd y risg yw:

- Y broses gynllunio flynyddol wedi ei amlinellu.
- Mae Uwch Arweinwyr yn yr Heddlu yn bwydo i mewn i'r drafodaeth genedlaethol ynghylch cyllid. Bydd cyflwyniadau Cenedlaethol a Rhanbarthol yn cael eu gwneud i'r Swyddfa Gartref fel rhan o adolygu gwariant, y bydd yr Heddlu yn cyfrannu atynt.
- Bydd trafodaeth anffurfiol gyda swyddogion y Swyddfa Gartref yn cael ei gynnal yn Grŵp Cyllid Cymru Gyfan er enghraifft.
- Sicrhau bod gan yr Heddlu blatfform ariannol sefydlog yn nhermau cryfder y Fantolen yn agwedd bellach ar sut mae effaith y risgiau yn gallu cael eu rheoli yn y tymor byrrach.
- Mae effaith y peryg yn cael ei leihau drwy'r lefelau gwahanol o ddewisiadau sydd ar gael, arbedion y gellir ail fuddsoddi ynddynt a thoriadau i gyllidebau y byddai angen eu gwneud os yw'r cyllid yn waeth na'r disgwyl.

6. Beth yw asesiad cyfredol y risg a sut mae hyn wedi ei gytuno?

Mae'r lefel risg gyfredol yn ganolog ac wedi ei ail-asesu yn seiliedig ar gyllideb gytbwys wedi ei osod am y 3 blynedd nesaf.

Serch hynny, mae'r ansicrwydd o gwmpas y rhagdybiaethau i gyrraedd y safle hwn yn ei atal rhag gael ei leihau ymhellach. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y lefel darged o ganolog gan fod yr ansicrwydd hyn yn debygol o fod yn bresennol bob amser i raddau gwahanol.

7. Gweithrediadau parhaus/wedi eu cynllunio

Mae'r prosesau a osodwyd yn C4 yn un parhaus.

Mae manylion a'r ffocws ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael eu trafod yn barod.


Mae'r broses yn debygol o fod yn debyg y flwyddyn nesaf gyda'r ffocws yn symud i gynllun 3 blynedd mwy manwl yn nhermau effeithiolrwydd ac ateb y galw o ystyried cyd-destun setliad cyllid tymor hirach.

8. Meysydd i'w nodi neu unrhyw wybodaeth nad yw eisoes wedi ei chynnwys a fyddai'n helpu'r Pwyllgor i ddod i gasgliad ar ba mor sicr bod y risg yn cael ei reoli'n briodol.

Mae'r agweddau allweddol yn cynnwys y risg wedi eu gosod ymhellach yn y MTFP Adran 7.

9. Bydd trafodaeth fanwl neu risgiau fel arfer yn digwydd mewn sesiynau agored (cyhoeddus) - os teimlwch y dylai trafodaeth o'r risg hwn ddigwydd mewn sesiwn caeedig nodwch hynny isod a rhowch resymau clir am eich barn.

Mae adroddiad yr MTFP a'r Praesept yn cael eu trafod mewn cyfarfod cyhoeddus ac maent ar gael ar wefannau'r CHTh a'r PCP ac i weld isod.



**Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl Heddlu
Gogledd Cymru**

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

2022-23 tan 2026-27

Ionawr 2022

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn cysylltu [Cynllun Heddlu a Throsedd 2021 \(northwales-pcc.gov.uk\) Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd](https://www.northwales-pcc.gov.uk), a gafodd ei adolygu ar ôl i'r CHTH newydd gael ei ethol, a'r Blaenoriaethau Plismona a gytunwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl gyda'r Strategaeth Ariannol (Atodiad A) a'r adnoddau sydd ar gael.
- 1.2 Mae proses gynllunio fanwl wedi bod dros y flwyddyn ddiwethaf. Fe gynhaliodd y Llywodraeth adolygiad 3 blynedd o wariant yn ystod yr haf. Roedd yr adolygiad yn cadarnhau ymrwymiad y Llywodraeth i Ymgyrch Uplift i gynyddu nifer Swyddogion yr Heddlu ledled y DU o 20,000 erbyn Mawrth 2023. Roedd llawer o ansicrwydd ynglŷn â chyllid sylfaenol a chyllid Uplift yn ystod y flwyddyn, yn enwedig yn sgil ansicrwydd ychwanegol y pandemig COVID. Roedd y broses gynllunio'n ystyried twf yn niferoedd y Swyddogion, cyfleoedd i wneud arbedion a dyrannu adnoddau i gyd-fynd â blaenoriaethau. Roedd yn ystyried gwahanol sefyllfaoedd cyllid a chwyddiant.
- 1.3 Mae'r Comisiynydd wedi ystyried yr holl opsiynau o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Fe wnaed gwaith sylweddol yn rhan o'r Broses Gynllunio Sefydliadol i ddod o hyd i arbedion a symud adnoddau o fewn y sefydliad. Roedd y broses gynllunio hefyd yn galluogi neilltuo swyddogion Ymgyrch Uplift yn ddoeth, ar sail blaenoriaethau, a deall gofynion eraill i ateb y galw sy'n newid o hyd a darparu cymorth ar gyfer y swyddogion ychwanegol, yn ogystal â thalu costau sefydlu, hyfforddi a recriwtio'r swyddogion hynny.
- 1.4 Byddai angen cynyddu Treth y Cyngor 5.91% i dalu am chwyddiant a chynnydd mewn costau sefydlog fel arall. Mae adnoddau ychwanegol wedi'u darparu o ganlyniad i'r cyhoeddiad am Swyddogion Uplift ychwanegol; mae 78 o Swyddogion eraill wedi'u neilltuo i HGC gyda 4 yn ychwanegol wedi'u cyflenwi drwy HGC i Uned Ranbarthol Trosedd Cyfundrefnol. Mae'r rhain wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer 2022-23, ond mae'n rhaid edrych yn fwy hirdymor gan y bydd cost y Swyddogion ychwanegol hyn yn cynyddu wrth iddynt barhau drwy eu cynyddrannau blyneddol dros 6 blynedd.
- 1.5 Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, cynigir cynnydd o £11.25 (3.68%) yn Nhreth y Cyngor. Y cynnydd sy'n cael ei gynnig gan y Swyddfa Gartref ar gyfer 2022-23 yw £10. Mae'r cynnydd ychwanegol o £1.25 yn ariannu 10 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol, yn rhan o weithredu Cynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd. Mae hwn yn gynydd darbodus i Dreth y Cyngor/y praesept, o ystyried bod angen ariannu pwysau yn y dyfodol ar ffurf dyfarniadau cyflog a chynyddrannau yn ogystal â phwysau ar gostau ar wahân i staff oherwydd chwyddiant ar hyn o bryd. Ar sail y damcaniaethau sydd yn y CATC, mae cyllideb gytbwys wedi'i gosod ar gyfer 2022-23 i 2024-25 gyda bwlch wedi'i amcangyfrif yn cynyddu i £2.879 y flwyddyn dros y ddwy flynedd ganlynol. Bydd y broses gynllunio'n parhau i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd. Ar hyn o bryd, disgwylir i lawer o'r rhain fod yn rhai mwy hirdymor, gan fod buddsoddiadau presennol yn dylanwadu ar arbedion yn y dyfodol.

1.6 Nod

Nod y papur hwn yw manylu sut y cafodd y gyllideb ei mantoli hyd yma a'r cynlluniau i gynnal cyllideb gytbwys yn y tymor canolig a hwy, gan gynnal a gwella perfformiad a sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni.

1.7 **Cefndir** - Mae Rhaglen Caledi'r Llywodraeth, a ddechreuodd yn 2011, wedi arwain at doriadau sylweddol ar draws y sector cyhoeddus. Mae cyllid gan y Llywodraeth wedi gostwng 21.4% mewn termau real (gan ystyried chwyddiant) erbyn 2022-23.

1.8 Mae effaith gyffredinol llai o gyllid a phwysau chwyddiant a phwysau arall wedi arwain at wneud £38.291m o doriadau i'r cyllidebau dros gyfnod o 11 mlynedd. Mae hyn gyfwerth â gostyngiad o 25.8% yng nghyllidebau cyn caledi 2010-11 o £148.035m. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru hanes da o gyflawni arbedion sydd wedi'u cynllunio, gyda strategaeth o graffu'n llawn ar yr arbedion hynny cyn y flwyddyn y maent i gael eu gwneud ynddi. Dangosir y toriadau blynyddol yn y tabl isod:

	2011-16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	Cyfanswm
	£m							
Arbedion wedi'u cynllunio	24.101	2.838	2.686	1.479	1.927	2.358	2.902	38.291
Arbedion wedi'u cyflawni	24.101	2.838	2.686	1.479	1.927	2.358	2.902	38.291
% yr arbedion wedi'u cyflawni	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%

1.9 Cyn cyhoeddi setliad 2020-21, roedd gan y Llywodraeth bolisi yn ei le i gynyddu niferoedd Swyddogion yr Heddlu o 20,000 (Ymgyrch Uplift) dros gyfnod o 3 blynedd. Roedd cyhoeddiadau 2020-21 a 2021-22 yn dyrannu 12,000 o'r swyddogion ychwanegol hyn ymysg Heddluoedd, a dyrannwyd 124 i Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y cyhoeddiad cyllid ar gyfer 2022-23 yn rhannu'r 8,000 o swyddogion ychwanegol oedd yn weddill, ac fe gafodd Heddlu Gogledd Cymru 82 arall, oedd yn gyfanswm o 206 (gan gynnwys 8 a ddyrannwyd i Uned Ranbarthol Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol). Yn ychwanegol at y rhain, ariannwyd 30 o swyddogion eraill o braesept 2020-21, felly cyfanswm y cynnydd oedd 236 dros 3 blynedd.

1.10 Mae cynnydd mewn cyllid ers 2020/21 wedi canolbwyntio ar Ymgyrch Uplift. Mae grant ychwanegol wedi'i dderbyn er mwyn cynyddu niferoedd swyddogion; ond mae'r grant sylfaen wedi parhau ar yr un lefel o ran y swm (gostyngiad mewn termau real) sy'n arwain at bwysau cyllidebol mewn meysydd eraill, gan gynnwys costau ychwanegol cynnal nifer uwch o swyddogion. Mae'r dyraniad terfynol o niferoedd a chyllid wedi dylanwadu ar y cynllun at y dyfodol o ran faint o'r gyllideb sydd angen ei neilltuo i ariannu costau cyflogau swyddogion yn y dyfodol, a faint sy'n gallu cael ei neilltuo ar gyfer costau.

1.11 Ers dechrau 2020, mae'r DU wedi bod yn ceisio mynd i'r afael â'r pandemig COVID bydeang. Roedd y cyd-destun hwn yn gwneud y sail ar gyfer cynllunio ariannol at 2022-23 ymlaen yn ansicr iawn. Cyn pandemig COVID, roedd disgwyl adolygiad o wariant 3 blynedd, a chyhoeddiad cynnar am ffigyrau Ymgyrch Uplift yn y dyfodol. Fodd bynnag, setliad am flwyddyn yn unig oedd un y llynedd, ac fe wnaed cyhoeddiadau Ymgyrch Uplift ar yr un pryd ac am yr un cyfnod byr yn unig. Roedd y cyhoeddiad ar gyfer 2022-23 yn cynnwys ffigyrau awgrymiadol am dair blynedd yn ogystal â niferoedd a chyllid terfynol Uplift. Derbyniwyd y rhain yn hwyr yn Rhagfyr 2021 ac, er y gallent newid, maent yn gymorth i gynllunio at y dyfodol. Mae nifer o agweddau ansicr am y dyfodol, yn enwedig o ran dyfarniadau cyflog a chwyddiant. Mae damcaniaethau darbodus wedi'u gwneud ar sail y wybodaeth oedd ar gael yn Rhagfyr 2021.

2. Y Broses Gynllunio

2.1 Pwrpas cyffredinol y broses gynllunio yw blaenoriaethu adnoddau ac alinio cynlluniau gwario gyda blaenoriaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a gweledigaeth y Prif Gwnstabl.

2.2 Etholwyd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ym mis Mai 2021. Fe adolygodd y Comisiynydd y Cynllun Heddlu a Throsedd a gosododd y blaenoriaethau sy'n cael eu crynhoi isod. Mae'r cynllun llawn ar gael ar wefan y Comisiynydd [Cynllun Heddlu a Throsedd 2021 \(northwales-pcc.gov.uk\)](https://www.northwales-pcc.gov.uk).

SHAPING THE PLAN

MY PLAN

My plan sets out my vision for North Wales and how I expect the vision to be achieved. It is informed by public consultation and

MY VISION

North Wales communities are safe, victims and vulnerable people feel supported, crime and reoffending are low, and people have confidence in policing and the criminal justice system

MY PRIORITIES

DELIVERING SAFER NEIGHBOURHOODS

- Tackle and prevent rural and wildlife crime
- Improve the efficiency and effectiveness of police officers and police staff
- Improve Road safety

SUPPORTING VICTIMS AND COMMUNITIES

- Tackle and prevent domestic abuse and sexual violence
- Safeguard vulnerable people including children
- Tackle and prevent cybercrime
- Establish a victims panel
- Tackle and prevent Hate Crime

FAIR AND EFFECTIVE CRIMINAL JUSTICE SYSTEM

- Introduce a North Wales Female Offender Strategy
- Increase the use of Restorative Justice
- Support and protect children and young people and divert them away from the Criminal Justice System
- Address the root causes of offending and support the rehabilitation of people who have offended

3

Gweledigaeth y Prif Gwnstabl yw

Sicrhau mai Gogledd Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn y DU; trwy Atal Trosedd, Diogelu Cymunedau a Dal troseddwyr fel mae'r Cynllun yn ei nodi, i'w weld ar dudalen isod.

POLICING DELIVERY - what we do

We ensure that:

- Public have confidence in North Wales Police
- We deliver an excellent quality of service to victims
- We use police powers proportionately



OUR FOCUS - how we deliver

PEOPLE

- With a focus on Diversity, Equality and Inclusion, we will
- Attract a talented workforce, representative of our communities
 - Provide an outstanding wellbeing offer
 - Support people to reach their full potential
 - Celebrate achievements and value individual and team contributions
 - Expect our people to deliver an exceptional service and display the highest standards of behaviour

INNOVATION

- By creating a digital and agile working environment, we will
- Maximise the opportunities for our people to work effectively
 - Improve our accessibility for our communities
 - Develop a visual data tool which provides our people with relevant information to support their decision making
 - Use data to help us adapt to the changing demands our organisation faces
 - Ensure the digital programme supports future digital innovation and opportunities

PREVENTION

- Adopting a preventative mind set across the whole organisation, we will
- Engage with and listen to our communities to understand their concerns
 - Problem solve issues with our partners
 - Continue to develop our early intervention approach with our partners
 - Work with partners to prevent re offending

We will develop strong financial and resourcing plans to ensure we are efficient and effective and provide value for money

- 2.3 Cafodd y broses gynllunio ar gyfer 2022-23 ei hadolygu gan yr Uned Cynllunio Strategol, yr Adran Gyllid, Uwch Arweinwyr a'r Prif Swyddogion. Aseswyd nifer o risgiau, gan gynnwys unigolion allweddol ddim ar gael oherwydd COVID; effaith COVID ei hun; y cynllun adfer ar gyfer y sefydliad ar ôl COVID; a'r angen am adolygu gofynion a phennu'r gyllideb. Roedd y broses ar gyfer 2021-22 yn seiliedig ar Gynlluniau Busnes ar gyfer yr holl arweinwyr Gweithredol a Gwasanaeth (fel deiliaid cyllidebau cyfredol) gydag angen am Achosion Busnes ychwanegol, wedi'u targedu ar gyfer y galw a'u cytuno fel meysydd ychwanegol i'w hystyried ar ddechrau'r broses. Fe weithiodd y dull hwn yn dda ar gyfer cyllideb 2021-22, a dilynwyd proses debyg. Fe arweiniodd y dull corfforaethol a gwaith craffu cynnar gan gydweithwyr at gynllun â chefnogaeth lawn a fydd yn cael ei weithredu dros y 12 i 18 mis nesaf.
- 2.4 Roedd materion ymarferol i ddelio â nhw hefyd o ran cyfarfodydd a fyddai angen eu cynnal ar-lein yn sgil Covid-19. Dechreuodd y broses cyn gynted â phosib', fel y nodir yn y crynodeb isod. Trwy bennu'r drefn yn gynnar yn y broses a chynnal Cyfarfodydd Cynllunio Sefydliadol yn rheolaidd trwy gydol y broses (bob wythnos neu bythefnos yn ôl y gofyn), roedd modd dilyn yr amserlen a nodir isod.



<u>Mai 2021</u>	<u>Meh-Gorff-Awst</u>	<u>Medi-Hyd 2021</u>	<u>Tachwedd 2021</u>	<u>Rhagfyr 2021 i Chwefror 2021</u>
Gweithdy'r Prif Swyddog	Drafftio Achosion a Chynlluniau Busnes	Cyflwyno ddechrau Medi	Cyfarfod Cynllunio Sefydliadol terfynol	Cyflwyno cynigion i'r Comisiynydd 7.12.2021
Gweithdy i Fudd-ddeiliaid Allweddol	Cynllunio Strategol yn blaenoriaethu cefnogaeth y tîm canolog	Adolygiad Cyllid a Chynllunio Strategol	Datganiad yr Hydref	Cyhoeddiad Grant 16.12.21
Comisiynu Achosion Busnes	Y tîm canolog yn dechrau cyfarfodydd cefnogi gyda'r awduron	Adolygiad Cyfarfodydd Cynllunio Sefydliadol	Cyfarfod Cyllideb Prif Swyddogion ac Arweinwyr Gwasanaeth er mwyn cadarnhau cynigion	Cadarnhau cynigion gyda'r Comisiynydd 21.12.21
Comisiynu Cynlluniau Busnes		Nodi'r cynigion		Drafftio'r Cynlluniau Terfynol Cyfarfod panel 31.1.2022

- 2.5 Gosodwyd dwy lefel o arbedion ar gyfer y broses gynllunio, £1.7m a allai gael ei ddefnyddio i ail-fuddsoddi ac £1.7m arall wrth gefn oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â chyllid. Ystyriwyd hefyd bod cyllideb gytbwys wedi'i chynllunio ar gyfer 2022-23 yn rhan o'r CATC blaenorol, a'r lefel o arbedion a nodwyd ar gyfer 2021-22 (£2.9m).

£1.7m – Gwelliant Cyfanswm £1.7m	£1.7m – Parodrwydd Cyfanswm £2.4m
<u>Dylem ni</u>	<u>Efallai y bydd angen i ni</u>
<ul style="list-style-type: none"> • Cyllid ar gyfer Twf ac Arloesi • Dewisiadau wedi'u datblygu drwy adolygiadau a Chynlluniau Busnes • Rhyddhau buddsoddiad i alluogi arbedion yn y blynyddoedd i ddod 	<ul style="list-style-type: none"> • Arian at raid ar gyfer hapddigwyddiadau ynghlwm â chyllid neu gostau

- 2.6 Fel rhan o'r uchod, aethpwyd drwy'r broses arferol i ddatblygu gofynion cyllidebol y dyfodol ac mae'r manylion i'w gweld yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) hwn. Wrth i reolwyr ddatblygu'r cyflwyniadau a'r CATC hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

- Blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Heddlu a Throsedd a Gweledigaeth yr Heddlu
- Pwysau newydd a phwysau sy'n datblygu
- Y broses cynllunio strategol
- Datganiad Rheoli'r Heddlu
- Strategaethau eraill yr Heddlu
- Yr hinsawdd economaidd bresennol
- Amcangyfrifon o'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Rhagolygon ar gyfer y gyllideb dros y cyfnod, yn cynnwys dyfarniadau cyflog
- Y sefyllfa ariannol bresennol
- Y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf, y Cod Darbodus a'u heffaith ar y Gyllideb Refeniw
- Cronfeydd wrth Gefn a Balansau
- Creu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
- Cydweithio
- Cynllun Adfer COVID

2.7 Mae Datganiad Rheoli'r Heddlu wedi cael ei gyhoeddi dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'n dadansoddi galw yn y dyfodol yn erbyn capasiti a gallu ein timau. Mae'n defnyddio prosesau dadansoddi data a chyfweiliadau gydag arbenigwyr pwnc. Mae'r Datganiadau blaenorol wedi llywio'r broses gynllunio, a bydd y broses gynllunio, yn ei thro, yn llywio'r Datganiad nesaf.

2.8 Roedd y broses i lunio'r Datganiad yn cynnwys ceisio pennu'r rhagolygon am alw yn y dyfodol, ystyried beth sydd ar y gorwel, a chasglu barn arbenigwyr gweithredol. Darganfu'r broses bod:

- 79% o adrannau wedi dweud bod cynnydd o 10% wedi bod yn y galw
- 65% o adrannau wedi gweld elfennau o alw nad oedd modd eu hateb gyda'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd
- Y rhan fwyaf o fylchau'n rhai'n ymwneud â diffyg pobl (capasiti)
- Y sefyllfa o ran galluogrwydd (cyfarpar, sgiliau) yn gadarnhaol

Roedd hyn yn dangos pa feysydd roedd angen buddsoddi ynddynt:

- Adnoddau rheng flaen gweledol
- Rheoli troseddwy'r difrifol, diogelu pobl ddiamddiffyn a lleihau aildroseddu
- Ymchwiliadau ariannol ynghlwm â thwyll a thechnoleg
- Gwellu'r broses Cyfiawnder Troseddol
- Cyswllt cyhoeddus digidol
- Safonau mewnol
- Perfformiad ac effeithlonrwydd

2.9 Cafodd y cynlluniau busnes ar gyfer pob maes eu cyflwyno mewn templed â'r penawdau canlynol, gyda phob adran â chyfres o gwestiynau strwythuredig:

- Perfformiad ar amcanion
- Cyllid yn erbyn cyllidebau
- Galw a'r galw a ragwelir
- Capasiti a galluogrwydd
- Lles
- Ymateb meysydd gwasanaeth
- Galw gweddillol
- Rhyngddibyniaethau
- Arbedion

2.10 Cafodd y broses – yn arbennig y rhyngddibyniaethau – ei rheoli drwy'r Grŵp Cynllunio Sefydliadol gyda Phrif Uwch-arolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol yn gadeirydd arno ac Arweinwyr Gweithredol a Gwasanaeth yn bresennol. Mae hyn yn galluogi i strategaeth gorfforaethol gael ei datblygu a'i chyflwyno i'r Prif Swyddogion yn hytrach na phroses gystadleuol.

2.11 Meysydd eraill a gafodd eu hystyried yn benodol oedd:

- Cyfleusterau a TG yn gysylltiedig â gweithio'n hyblyg
- Adolygu'r fflyd
- Rhaglen ddigidol
- Cyfuniad o swyddogion/staff
- Adolygu cyllidebau corfforaethol

2.12 Cynhaliwyd dau gyfarfod gyda thîm y Prif Swyddog i gael canlyniad y broses gynllunio. Roedd hyn yn caniatáu defnyddio adnoddau oedd ar gael i gyflawni blaenoriaethau, ac yn llywio'r broses o ddyrannu'r Swyddogion Uplift ychwanegol o drydydd cam Ymgyrch Uplift. Yna, trafodwyd y canlyniad yng nghyfarfod blynyddol Gosod y Gyllideb gydag Arweinwyr Gwasanaeth ac eraill gan ddod ag argymhellion y Grŵp Cynllunio Sefydliadol, yn cynnwys Cynlluniau Arbedion a'r holl elfennau eraill, at ei gilydd i lunio'r CATC hwn. Roedd hyn yn ffurfio'r cynnig a gyflwynwyd i'r Comisiynydd a'i dîm.

2.13 Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'u cynrychiolwyr ar 7 Rhagfyr i drafod cynigion y gyllideb, a chyfarfod terfynol ar 21 Rhagfyr ar ôl i'r Llywodraeth wneud y cyhoeddiad cyllid.

2.14 Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion yr holl ddatblygiadau ers y CATC blaenorol, gan nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer refeniw, cyfalaf a chronfeydd wrth gefn.

3 Cyllideb 2021-22

3.1 Roedd cyhoeddiad y gyllideb ar gyfer 2021-22 ar 17 Ionawr 2020 yn cynnwys £4.262m o gyllid ychwanegol, ond nodwyd yn glir bod y cyllid hwn ar gyfer costau Ymgyrch

Uplift ar gyfer y flwyddyn a'r dyfodol. Nid oedd yn darparu unrhyw gyllid tuag at gynnydd chwyddiant na thwf tu hwnt i Uplift. Mae'r newidiadau wedi'u crynhoi isod:

Setliad 2021-22	CATC ac eithrio Uplift £m	Setliad £m	Amrywiant £m
Grant Sylfaen	78.714	83.677	4.963
Grant Pensiwn	1.582	1.582	0
Wedi'i glustnodi (yn ôl targedau Uplift)	1.731	1.03	-0.701
Grant Cyfalaf	0.123	0.123	0
Cyfanswm	82.150	86.412	4.262

- 3.2 Mae arbedion o £2.902m wedi'u dynodi yn rhan o'r broses cynllunio. Cytunodd y Comisiynydd ar gynnydd o 5.14% yn Nhreth y Cyngor, a arweiniodd at gynnydd yn y gyllideb o 5.90%, yn cynnwys costau Ymgyrch Uplift. Roedd y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn caniatáu i £2.642m gael ei ail-fuddsoddi yn y gwasanaeth. Roedd 62 o Swyddogion ychwanegol o Ymgyrch Uplift wedi cael eu dyrannu i swyddi penodol fel rhan o'r broses gynllunio. Roedd yr ail-fuddsoddiad yn gyfuniad o gostau ynghlwm â staff ac fel arall, dan benawdau strategol Atal a Rhagweithiol (£0.621m), Digidol a Rheoli Galw (£1.825m) a Lles (£0.196m).
- 3.3 Mae recriwtio swyddogion heddlu Ymgyrch Uplift yn digwydd mewn dau gam sy'n gorgyffwrdd. Y cam cyntaf yw recriwtio swyddogion heddlu ychwanegol er mwyn cynyddu'r cyfanswm; roedd hyn eisoes ar fynd cyn cychwyn blwyddyn ariannol 2021-22. Penodwyd 40 o swyddogion ychwanegol yn Ebrill/Mai 2021, oedd yn golygu bod y targed Uplift wedi'i gyrraedd yn gynnar yn y flwyddyn ariannol. Roedd recriwtio mwy drwy'r flwyddyn wedi cadw'r niferoedd uwchben targed Uplift. Erbyn mis Mawrth 2022, disgwylir y bydd 137 o Swyddogion Heddlu ychwanegol wedi'u recriwtio gydag 80 yn gadael, sy'n gynnydd net o 57. Bydd hyn yn golygu bod 37 o swyddogion wedi'u recriwtio'n barod erbyn diwedd 2021-22 a fydd yn cyfrif tuag at darged 2022-23.
- 3.4 Dyrannwyd y 62 o swyddogion fel a ganlyn: Atal a Rhagweithiol 43, Digidol a Rheoli Galw 14, a Lles 5. Wrth i Swyddogion ar Brawf gael eu penodi i'w swyddi cyntaf mewn Timau Ymateb, mae Swyddogion mwy profiadol yn cael eu rhyddhau i'r swyddi newydd sy'n cael eu creu. Disgwylir y bydd yr holl swyddi newydd wedi'u llenwi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- 3.5 I gefnogi'r twf Uplift ac ateb heriau o ran galw, gwnaed buddsoddiadau ynghlwm â staff ac fel arall: £0.621m ar Atal, £1.825m ar Ddigidol a Rheoli Galw, a £0.195m ar Les. Roedd 68 o swyddi staff angen gweithredu arnynt (penodiad parhaol neu dros dro, ail-ddyraniad). Mae 82% o'r rhain wedi'u cwblhau ac mae 13 ar fynd ar hyn o bryd a byddant yn eu lle erbyn diwedd Mawrth 2022. Mae'r farchnad recriwtio staff wedi bod

yn heriol yn ystod 2021. Mae llawer o'r meysydd mwy heb dwf staff wedi mynd trwy broses brynu ac maent bellach yn dwyn ffrwyth.

- 3.6 Mae'r pandemig COVID a'r lefelau amrywiol o gyfyngiadau sydd wedi bod mewn grym wedi cael effaith sylweddol ar sut mae plismona a chymorth ar gyfer swyddogion y rheng flaen yn cael ei ddarparu. Mae oddeutu 800 o staff wedi bod yn gweithio o gartref yn bennaf ers Ebrill 2020, ac mae Swyddogion Gweithredol wedi gorfod cadw at ofynion newydd, fel Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), nad oedd eu hangen o'r blaen. Mae hyn wedi cael effaith arwyddocaol ar batrymau gwario. Pan fydd y pandemig ar ben, bydd staff yn parhau i weithio gartref yn rhan o sefydlu trefn o weithio'n hyblyg. Mae arbedion wedi'u gwneud lle mae rhai i'w gweld. Mae costau staff wedi bod yn gyson â'r gyllideb a'r flwyddyn flaenorol, a bu ymdrech fawr i sicrhau ein bod yn parhau i recriwtio swyddogion a staff heb oedi. Roedd asesiadau o'r newidiadau i batrymau gwario wedi'u cynnwys yn y broses gynllunio er mwyn gwneud gostyngiadau parhaol lle mae arbedion i'w gweld yn gyson, i ddod o hyd i oedi ar wariant, a defnyddio'r gostyngiadau hyn i ariannu cynnydd mewn mannau eraill yn y gyllideb.
- 3.7 Ar y dechrau, roedd yn aneglur a fyddai cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer costau yn ymwneud â COVID a chafodd cynlluniau eu rhoi yn eu lle er mwyn cyllido'r rhain o'r arian wrth gefn os oedd angen. Cadarnhawyd cyllid am PPE o safon feddygol (ac wedyn yr holl PPE) tua diwedd 2020-21. Sefydlwyd cronfa wrth gefn o £0.6m i ariannu costau ychwanegol ynghlwm â COVID ddiwedd 2020-21. Ar 31 Rhagfyr 2021, roedd hanner y gronfa wrth gefn wedi'i hymrwymo, ac roedd disgwyl gofynion ychwanegol, oherwydd effaith bosib' yr amrywiolyn Omicron ym mis Ionawr/Chwefror 2022 ar lefelau staffio.
- 3.8 Mae Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) fel arfer yn cynnal adolygiad blynyddol o: sefyllfa ariannol yr Heddlu; y broses gynllunio; arbedion a wnaed eisoes; ac arbedion sydd eto i'w gwneud. Mae angen i'r Heddlu lunio Datganiad Rheoli'r Heddlu, ac fe gwblhawyd y trydydd Datganiad ym Mai 2021. Mae'r Datganiad yn disgrifio'r galw a ddisgwylir yn y dyfodol ac yn nodi bylchau posib'. Mae wedi'i ddefnyddio'n rhan o'r broses gynllunio.
- 3.9 Mae adolygiadau '*Valuing the Police*' AHGTAEM wedi eu hymgorffori yn eu rhaglen adolygu newydd, sef adolygiadau *PEEL* (Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu). Y cwestiwn cyffredinol gan yr AHEM am effeithlonrwydd yw 'Pa mor effeithlon yw'r heddlu am gadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddau?' a diffiniad 'effeithlonrwydd' yw: '*bydd heddlu effeithlon yn sicrhau'r deilliannau gorau posib' gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo.*' Cafodd yr Heddlu ei asesu fel 'Da' yn nhermau Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb.
- 3.10 Mae'r archwiliadau wedi'u gohirio oherwydd y pandemig. Mae disgwyl yr archwiliad llawn nesaf rhwng mis Mawrth a Mai 2022. Mae'r sylwadau diwethaf a gyhoeddwyd gan Wendy Williams, Arolygydd Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, wedi'u nodi isod;

Rwy'n falch iawn o berfformiad Heddlu Gogledd Cymru i gadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd. Rwy'n sylwi'n benodol ar y gwelliannau mae'r heddlu wedi'u gwneud ers 2017 o ran effeithlonrwydd.

Mae'r heddlu'n dda am atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hefyd yn dda am ymchwilio i droseddau a mynd i'r afael â throsedd difrifol a threfnedig. Mae cadw pobl ddiarffyn yn ddiogel yn flaenoriaeth ar gyfer yr heddlu ac mae'n gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill i'w canfod a'u diogelu.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn deall cymhlethdod a graddfa'r galw cyfredol am ei wasanaethau. Rŵan mae angen cael gwell dealltwriaeth o'r sgiliau sydd gan y gweithlu presennol a'r sgiliau maent yn debygol o fod angen. Bydd hyn yn ei alluogi i ddatblygu cynlluniau gweithlu ac ariannol cryf a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae'r heddlu yn parhau i gynnal diwylliant moesegol a hyrwyddo'r safonau o ymddygiad proffesiynol mae'n eu disgwyl. Fodd bynnag, dylai sicrhau bod y systemau angenrheidiol yn eu lle i sicrhau'r cyhoedd ei fod yn defnyddio pwerau, fel stopio a chwilio a defnyddio grym, yn gyfreithlon.

Ar y cyfan, rwy'n canmol Heddlu Gogledd Cymru am y cynnydd mae wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn darparu sylfaen gref i barhau i wella yn y flwyddyn i ddod.

Mae'r asesiad llawn i'w weld ar

<https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/peel-assessments/peel-2018/north-wales/>

- 3.11 Fe wnaeth Archwilio Cymru'r sylwadau canlynol ar eu hasesiad gwerth am arian yn eu llythyr archwilio blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021;

'Mae'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cyflwyno darlun gwir a theg o'u sefyllfa ariannol a'u trafodion.

'Rwyf yn fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.'

Mae'r llythyr archwilio blynyddol i'w weld ar: [Llythyr Archwilio Blynyddol 2021 \(northwales-pcc.gov.uk\)](http://northwales-pcc.gov.uk)

- 3.12 Mae'r ddau asesiad yn dangos bod y cyllidebau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod yr Heddlu'n perfformio'n dda o ran sicrhau'r deilliannau gorau posib' gyda'r adnoddau sydd ar gael, sydd hefyd yn cael ei adlewyrchu ym marn yr Adain Archwilio Mewnol.


4 Dyraniadau Cyllid a rhagdybiaethau

- 4.1 Ni roddodd y Llywodraeth Ddyraniadau Cyllid Dros Dro ar gyfer 2022-23 fel rhan o setliad 2021-22. Gwnaed cyhoeddiadau yn ystod 2021-22 i gadarnhau ymrwymiad y Llywodraeth i Ymgyrch Uplift a chynyddu niferoedd Swyddogion Heddlu o 20,000 ar draws y DU. Fodd bynnag, nid oedd y niferoedd a ddyrannwyd i'r Heddluoedd na'r cyllid cysylltiedig yn hysbys tan y cyhoeddiad cyllid ym mis Rhagfyr 2021.

- 4.2 Ar 26 Hydref 2021, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys, Rishi Sunak AS, ganlyniad adolygiad cynhwysfawr o wariant 2021. Mae adolygiad 2021, sydd weithiau yn cael ei alw'n 'Rownd Wariant', yn pennu cyfansymiau gwariant cyhoeddus ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 i 2024-25. Roedd y cyhoeddiad yn datgan cyfansymiau gwariant Adrannol y Llywodraeth, ond ni chyhoeddwyd dyraniadau i Heddluoedd. Yn Natganiad yr Hydref, cyhoeddwyd hefyd y byddai cynnydd cyflog blynyddol yn ôl chwyddiant ar gyfer Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu yn ailgychwyn yn 2022-23. Roedd y cyhoeddiad yn ymrwymo eto i'r cynnydd i nifer Swyddogion Uplift, gyda'r cyllid ychwanegol cysylltiedig (ddim ar lefel Heddluoedd) ac roedd hefyd yn dangos cynnydd bach yng nghyllid y Swyddfa Gartref yn 2023-24 a 2024-25. Cafodd y wybodaeth o'r cyhoeddiad ei bwydo i mewn i gamau terfynol y rhaglen gynllunio gydag amcangyfrif ymarferol o 62 o Swyddogion Uplift a £4.125m o gyllid ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.
- 4.3 Cyhoeddwyd Setliad Dros Dro 2021-22 ar 16 Rhagfyr mewn datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Plismona, Kit Malthouse. Cyn cyhoeddi'r setliad, roedd y sector yn disgwyl parhad o gyllid Uplift ychwanegol i recriwtio 8,000 o swyddogion (tuag at y cyfanswm o 20,000). Mewn cyfarfod dilynol, cadarnhaodd Kit Malthouse y byddai plismona'n derbyn £550m yn ychwanegol yn 2022-23, £650m yn 2023-24 ac £800m erbyn 2024-25. Ar adeg y Rownd Wariant, nid oedd yn hysbys sut y byddai'r arian hwn yn cael ei rannu, ond awgrymwyd y byddai, yn ogystal â chyllid Uplift, hefyd yn rhoi digon o adnoddau i heddluoedd i ariannu cynnydd cyflog, yn unol â dadrewi cyflogau'r sector cyhoeddus, yn ogystal â chostau ychwanegol yr Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd (£1m+ i HGC).
- 4.4 Roedd cyfran o'r cyllid Uplift yn cael ei chadw fel grant penodol i'w dalu wrth recriwtio swyddogion ychwanegol. Nodai Datganiad y Gweinidog y gallai Comisiynwyr godi cyfanswm o £774m yn ychwanegol, o gymryd bod yr hyblygrwydd mwyaf â'r praesept yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhawyd mai terfyn refferendwm treth y cyngor fydd £10 fesul Comisiynydd yn Lloegr. Mae rheolau Cymru'n wahanol ac nid oes unrhyw derfyn capio. Mae'r Grant Pensiwn penodol yn parhau am flwyddyn arall fel grant penodol.
- 4.5 Mae'r pwyntiau isod yn crynhoi'r cyhoeddiad terfynol ac yn dangos gwahaniaethau rhwng hwn a'n rhagdybiaethau ni ar ôl Datganiad yr Hydref. Roedd y setliad yn mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau gan fod dyraniad Ymgyrch Uplift yn fwy na'r disgwyl (oherwydd dyraniadau is na'r disgwyl ledled y DU) ac roedd cyllid yn 2022-23 yn uwch. Fodd bynnag, mae costau ychwanegol i'r swyddogion ychwanegol, a bydd y rhain yn cynyddu dros y blynyddoedd, wrth i gyflog swyddogion gynyddu o ganlyniad i gynyddrannau a dyfarniadau cyflog blynyddol. Bwriedir i'r cyllid sy'n cael ei ddarparu dalu'r holl gostau, gan gynnwys yr Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol, costau sefydlu Uplift a'i gostau yn y dyfodol a chostau chwyddiant cyflogau a chwyddiant fel arall; rhaid i unrhyw fylchau gael eu talu drwy ddefnyddio cynilon neu gynyddu'r praesept.
- Cyllid craidd gan gynnwys Uplift wedi cynyddu £5.092m (+5.9%) (o gymharu â'r amcangyfrif o £4.125m)
 - Cyllid Grant Prentisiaethau ychwanegol o £0.287m
 - Niferoedd Uplift wedi cynyddu o amcangyfrif o 54 i HGC + 8 i'r Uned Ranbarthol (62 i gyd) i 78 i HGC + 4 i'r Uned Ranbarthol (82 i gyd) – sy'n arwain at gost ychwanegol

- Cyllid ar gyfer yr Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol (£1m) wedi'i gynnwys yn y cyllid craidd
 - Dim Grant Cyfalaf wedi'i gynnwys, amcangyfrif o £0.123m ar sail 21-22, angen cynyddu'r cyfraniad refeniw i gau'r bwlch
 - Dyfarniadau cyflog i ailgychwyn yn 2022-23
 - Ar sail y ffigyrau tybiedig, sef 1.1% (£1m) 23-24 ac 1.6% (£1.5m) 24-25 o gynnydd grant, nid yw hyn yn talu am chwyddiant a chynyddrannau
- 4.6 Cynyddodd dyraniadau canolog (brigdorri) – hynny yw, y swm mae'r Swyddfa Gartref yn ei gadw ar gyfer gwariant canolog ynghlwm â'r Heddlu yn hytrach na'i rannu i'r Heddluoedd, o £1,034m yn 2021-22 i £1,374m yn 2022-23 – cynnydd o £0.340m. Mae'r cynnydd yn Rhaglenni Technoleg yr Heddlu a rhaglenni newydd sy'n cynnwys Perfformiad yr Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol, Rhaglen Gostwng Troseddu, Galluogrwydd Gostwng Troseddu, Adolygiad Treisio, Cyffuriau/Llinellau Sirol, Ail-dyraniadau Cyfalaf a Thwyll. Pe bai hyn i gyd yn cael ei ddyrannu i HGC ar sail y fformiwla gyllid, byddai gyfwerth â £13.75m yn ychwanegol.
- 4.7 Bydd y cynnydd i'r dyraniad o swyddogion Uplift yn golygu y bydd cyfanswm o 206 i HGC (gan gynnwys rhai rhanbarthol) dros 3 blynedd. Mae'r cynnydd i gyllid a ddarparwyd dros gyfnod 2020-21 i 2022-23 yn ddigon i dalu cost gyfredol y swyddogion ychwanegol gyda chyfraniad sylweddol tuag at gostau cynnal. Gall cyllid sydd wedi'i neilltuo ym mlynnyddoedd 1 a 2 hefyd ariannu costau sefydlu. Fodd bynnag, mae cost pob swyddog yn cynyddu £23,000 dros 6 blynedd ac mae'n rhaid cynnwys hynny wrth gyfrifo costau yn y dyfodol. Wrth benderfynu sut i ddefnyddio'r cyllid sydd wedi'i dderbyn, mae angen cael cydbwysedd rhwng beth mae modd ei wario rwan i ddarparu ar gyfer cynnydd costau ynghlwm â staff ac fel arall ar gyfer y swyddogion ychwanegol, a faint mae'n rhaid ei gadw at gostau yn y dyfodol.
- 4.8 Mae'r graff isod yn dangos y cynnydd blyneddol yng nghostau cyflogau swyddogion Uplift o ganlyniad i'r cynyddrannau. Cyfanswm y cynnydd yw £2.8m, sy'n gyfran sylweddol o'r cynilon sydd eu hangen yn 2025-26 a 2026-27.

Year on Year Increment Effect of Uplift Officers



4.9 Mae'r amcangyfrif o'r cynnydd mewn cyllid gan y Swyddfa Gartref o 1.1% (£1m) yn 2023-24 ac 1.6% (£1.5m) yn 2024-25 yn well na'r amcangyfrif blaenorol o ddim cynnydd, ond mewn termau real, bydd yn golygu toriadau termau real, gan fod disgwyl i chwyddiant cyflogau fod tua 3% a chwyddiant cyffredinol fod yn uwch na tharged sylfaen Banc Lloegr o 2%.

4.10 Nid oes unrhyw sôn penodol am yr adolygiad o Fformiwla Ddyrannu'r Heddlu yn y cyhoeddiad, ond mae'r Swyddfa Gartref wedi sefydlu grwpiau i adolygu'r fformiwla. Y grant gwaelodol ar hyn o bryd yw £22m. Hynny yw, pe bai'r fformiwla gyfredol yn cael ei gweithredu'n llawn, byddai £22m yn llai o gyllid i HGC. Nid yw'r fformiwla gyfredol erioed wedi cael ei gweithredu'n llawn a byddai'r adolygiad yn cyflwyno fformiwla newydd. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu gan y gallai gael effaith fawr ar Heddlu Gogledd Cymru.

5. Treth y Cyngor a'r Praesept

5.1 Mae dwy brif elfen i gyfanswm net Cyllideb yr Heddlu, sef cyfanswm Grantiau'r Heddlu a'r Praesept. Mae cynnig y gyllideb yn cynnwys cynnydd o 3.68% yn Nhreth y Cyngor, neu £11.25 ar Dreth y Cyngor Band D. Mae'r Sylfaen Drethu ar gyfer ardal gyfan Gogledd Cymru wedi codi 0.94%, sy'n golygu cynnydd cyffredinol o 4.65% yn y Praesept a chyfanswm cyllideb net o £182.268m i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd – gweler isod:

	2022-23	
	£m	%
Cyfanswm Grantiau'r Llywodraeth	88.407	48.50%
Cyfanswm y Praesept	93.861	51.50%
Cyfanswm Angenrheidiol ar gyfer y Gyllideb	182.268	

- 5.2 Cyfrifir Treth y Cyngor drwy rannu'r cyfanswm sy'n angenrheidiol o'r praesept gyda'r sylfaen drethu – y sylfaen drethu yw nifer y cartrefi cyfwerth â Band D sydd yn ardal pob Heddlu. Darperir y Sylfaen Drethu gan chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru. Mae'r sylfaen drethu ar gyfer 2021-22 wedi codi 0.94%. Mae hyn yn uwch na'r 0.25% a gafodd ei amcangyfrif, yn bennaf gan fod dau awdurdod, Gwynedd ac Ynys Môn, wedi cynyddu'r premiwm ar gartrefi gwag ac ail gartrefi. Mae hyn yn golygu bod y cynnydd canrannol yn y praesept yn bosib' gyda chynnydd canrannol is yn Nhreth y Cyngor. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn aelwydydd yng Ngogledd Cymru.
- 5.3 Mae'r rheolau Cymru ar gyfyngu ar y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, neu 'reolau capio', yn wahanol i rai Lloegr. Ar ben hynny, mae grantiau ar wahân wedi parhau i fod ar gael i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn Lloegr os oeddent yn cytuno i gyfyngu ar gynnydd yn Nhreth y Cyngor yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd y rhain yn arfer cael eu talu gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ond fe gawsant eu cynnwys yng Ngrant y Swyddfa Gartref ac roeddent werth cyfanswm o £507m yn 2022-23. Treth y Cyngor yng Ngogledd Cymru yw'r uchaf yng Nghymru a Lloegr ond pe bai'r Grantiau Treth y Cyngor hyn yn cael eu cyfrif, byddai Gogledd Cymru yn y 4^{ydd} safle uchaf (gan gymryd bod pob Heddlu'n cynyddu eu Treth y Cyngor £10 yn 2022-23).
- 5.4 Nid oes unrhyw reolau capio na chynnydd rhagdybiedig wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cyd-fynd â'r blynyddoedd diwethaf.

6. Cyllideb 2022-23 a Chyllideb Gynlluniedig 2023-24 i 2026-27

6.1 Mae manylion y Gyllideb a'r newidiadau ar gyfer 2022-23 a'r blynyddoedd i ddod i'w gweld yn Atodiad B.

6.2 Dyma'r prif ragdybiaethau:

- Chwyddiant cyflog blynyddol o 3% o fis Medi 2022 tan Awst 2023, 2.5% o gynnydd y flwyddyn o fis Medi 2023 ymlaen
- Chwyddiant cyffredinol o 2%, chwyddiant penodol lle bo angen. Ar gyfer 2022-23, mae hyn yn cynnwys Ynni, Tanwydd, Yswiriant a thaliadau Pensiwn uniongyrchol
- Cynnydd yn Nhrefn y Cyngor o 3.68% yn 2022-23 (£11.25) a £12 y flwyddyn yn y blynyddoedd dilynol sydd gyfwerth â 3.79% yn 2023-24, 3.65% yn 2024-25, 3.52% yn 2025-26 a 3.40% yn 2026-27
- Cynnydd i grantiau cyffredinol gan y Llywodraeth o 5.65% yn 2022-23, 1.13% yn 2023-24, 1.68% yn 2024-25 ac 1% ar gyfer y ddwy flynedd wedyn
- Bod y grant sylfaenol yn cyfrannu tuag at Uplift a phob cynnydd arall (hynny yw, na fydd unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer yr ardoll lechyd a Gofal Cymdeithasol na chwyddiant cyflogau)
- Bod y Grant Cyfalaf (£0.123m yn 2021-22) wedi'i ddiddymu, mae'r diffyg yn y cyllid cyfalaf wedi'i ariannu o'r grant cyffredinol
- Cynnydd o 0.25% yn y sail drethu o 2023-24 ymlaen
- Cost flynyddol o £1.329m wedi'i chynnwys ar gyfer y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys o 2023-24 gyda chronfa wrth gefn wedi'i hadeiladu yn y blynyddoedd blaenorol. Ar sail amcangyfrifon cyfredol a dyddiadau gweithredu, mae hon bellach yn cael ei hariannu o fewn y cynllun.
- Cyfraniadau i'r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol i sicrhau nad yw'r balans yn disgyn yn is na'r isafswm o 3% o werth y Gyllideb Refeniw Net.
- Mae grantiau penodol ychwanegol wedi'u cynnwys ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona a chostau ynghlwm â diogelwch gwladol

Felly, y sefyllfa gyffredinol yw:

	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb
	Flynyddol	Flynyddol	Flynyddol	Flynyddol	Flynyddol
	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwaelodlin	173,365	182,268	187,067	192,384	198,500
Chwyddiant	1,475	4,432	4,732	5,010	5,045
Strwythurol sefydlog	2,315	126	133	140	146
Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1,075	27	28	29	29
Uplift	4,076	214	424	937	1,062
Twf	1,660	0	0	0	0
Arbedion Effeithlonrwydd	-755	0	0	0	0
Cyllid ychwanegol grantiau penodol	-1,314	0	0	0	0
Twf Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol	371	0	0	0	0
Yn angenrheidiol ar gyfer y Gyllideb	182,268	187,067	192,384	198,500	204,782
Cyfanswm Grant	-88,407	-89,407	-90,907	-91,816	-92,735
Praesept o Dreth y Cyngor	-93,861	-97,660	-101,477	-105,313	-109,168
Cyfanswm	-182,268	-187,067	-192,384	-197,129	-201,903
Balans Blynyddol	0	0	0	1,371	1,508
Balans cronrus	0	0	0	1,371	2,879
% y cynnydd yn Nhreth y Cyngor	3.68%	3.79%	3.65%	3.52%	3.40%
£ o gynnydd yn Nhreth y Cyngor	11.25	12	12	12	12

6.3 Roedd y gylchred gynllunio'n canolbwyntio ar alinio adnoddau a blaenoriaethau wrth osod cyllideb gytbwys a darparu gwerth am arian i drethdalwyr lleol dros y tymor canolig fel y nodwyd yn y Strategaeth Ariannol. Ar sail y rhagdybiaethau sydd wedi'u nodi, yr allbynnau a'r materion penodol y deliwyd â nhw fel rhan o'r gylchred oedd

- Chwyddiant a chynnydd strwythurol sefydlog anochel 2022-23 ac amcangyfrifon at y dyfodol
- Cynnwys yr Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Dyraniad o 82 o Swyddogion Uplift ar gyfer 2022-23 ac amcangyfrif o gostau yn y dyfodol
- Arbedion ac effeithlonrwydd ar gael yn 2022-23
- Meysydd blaenoriaeth sydd angen buddsoddiad yn 2022-23
- Amcangyfrif o gyllid a chostau yn y dyfodol
- Amcangyfrif o ofynion cyfalaf yn y dyfodol, gan gynnwys y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys
- Amcangyfrif a gwneud y defnydd gorau o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r CATC

6.4 Mae llawer o gostau chwyddiant a chostau anochel eraill wedi bod (sydd yn eu hanfod yn gostau chwyddiant) a deliwyd â'r rheiny yn rhan o'r broses gynllunio. Mae

amcangyfrif o 3% o ddyfarniad cyflog wedi'i gynnwys o fis Medi 2023 ymlaen, sy'n unol â'r trafodaethau diweddaraf ledled y DU. Mae chwyddiant cyffredinol o 2% wedi'i gynnwys ond fe adolygwyd pob maes i asesu a oedd hyn yn ddigon. Mae symiau ychwanegol wedi'u cynnwys ar gyfer costau ystadau ac ynni, tanwydd, yswiriant a phensiynau anafiadau, gan ystyried sefyllfa'r gyllideb eleni. Mae costau TG yn cynyddu'n uwch na'r sylfaen chwyddiant o 2%. Mae hefyd angen mwy o drwyddedau ar gyfer meddalwedd gyffredinol ac mae costau storio uwch oherwydd mwy o ddefnydd. Roedd cost ychwanegol Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys wedi'i gynnwys y llynedd ac mae'n rhan o'r sylfaen. Mae diddymu'r Grant Cyfalaf wedi'i unioni trwy gynyddu'r cyfraniad refeniw. Yn olaf, mae'r ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dreth ychwanegol ar gyflogwyr. Mae dadansoddiad isod:

Costau Strwythurol Sefydlog	£'000	Eglurhad
Chwyddiant	1,475	Chwyddiant sylfaenol cyflogau ac fel arall yn seiliedig ar 3% ar gyfer cyflogau o fis Medi 2023 ymlaen a 2% o chwyddiant cyffredinol
Chwyddiant penodol ychwanegol ar gyfer ystadau/ynni, tanwydd, yswiriant a phensiynau anafiadau	440	Cynnydd chwyddiant a ddisgwyllir yn 2022-23 uwchben y sylfaen, a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses gynllunio
Cynnydd TGCh	787	Yn adlewyrchu ffigyrau chwyddiant sy'n uwch na'r sylfaen a mwy o ddefnydd oherwydd Uplift a thwf fel arall dros y 3 blynedd ddiwethaf
Cydweithio'n Genedlaethol a Rhanbarthol	251	Costau newydd a chynnydd mewn costau o gydweithio
Rhwydwaith Gwasanaethau Brys	714	Wedi'u cynnwys yn rhan o CATC y llynedd ac wedi'u cyfuno yn y gyllideb
Cyfraniad cyfalaf i dalu am ostyngiad y grant cyfalaf	123	Grant cyfalaf wedi'i ddiddymu. Pe na bai'r cyfraniad refeniw wedi'i gynyddu, byddai wedi cwtdogi'r cyllid ar gyfer y rhaglen 5 mlynedd o 5 x £123,000 = £615,000
Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1,075	Cyflwynodd y Canghellor dreth ychwanegol ar gyflogwyr yn rhan o Ddatganiad yr Hydref a dyma'r gost i HGC
Cyfanswm y gost sefydlog	4,865	

- 6.5 Ar sail cyhoeddiadau hyd yma, roedd Heddlu Gogledd Cymru'n disgwyl i gyfanswm o 186 o swyddogion ychwanegol gael eu dyrannu iddo drwy Ymgyrch Uplift. Dyrannwyd 124 o'r rhain yn y ddwy broses gynllunio flaenorol ac roedd disgwyl 62 arall yn 2022-23. Roedd hi bob amser yn bosib y byddai'r ffigwr yn uwch, gan ddibynnu faint oedd yn cael eu dyrannu'n uniongyrchol i unedau cenedlaethol neu ranbarthol.
- 6.6 Roedd y cynllun recriwtio wedi'i baratoi gan ddefnyddio ffigwr uwch o 78 gan y byddai'n haws addasu i lai na mwy. Roedd y cyhoeddiad ym mis Rhagfyr 2021 yn dyrannu 78 i HGC, a 4 hefyd fel cyfraniad HGC at unedau ranbarthol. Bydd recriwtio'n her ond mae disgwyl y bydd targed Uplift wedi'i gyrraedd erbyn Ionawr 2023 ac mae

rownd recriwtio arall wedi'i chynllunio ar gyfer Mawrth 2023. Mae bwlch amser rhwng recriwtio swyddogion newydd a'r adeg maent ar gael i ddod yn lle swyddogion profiadol sy'n cael eu penodi i'r swyddi newydd. Mae'n cael ei leihau gymaint â bo modd, ond nid oes posib' cael gwared ag o'n llwyr. Mae pwysau hefyd ar yr unedau tiwtora gan fod mwy nag erioed o swyddogion yn cael eu tiwtora ac mae adnoddau ychwanegol yn cael eu cynnwys i ategu hyn. Pan fydd nifer y rhai ar brawf ym mlwyddyn 1 yn dychwelyd i'r lefel arferol (54 ar unrhyw adeg, yn hytrach na'r nifer presennol o tua 100), bydd modd ailddyrrannu'r 17 o swyddi dros dro a ddyrrannwyd i ymateb yn rhan o broses gynllunio'r flwyddyn nesaf. Yn y cyfamser, bydd yr holl rai ychwanegol ar brawf a thiworiaid ar strydoedd Gogledd Cymru'n cefnogi'r Swyddogion Ymateb. Mae crynodeb o'r dyraniadau isod:

Maes Gwasanaeth	Dyraniad	Eglurhad
Gwasanaeth Plismona Lleol	57	28 Ymateb Rheng Flaen 11 Tiwtor 1 Ditectif Arolygydd Gorllewinol 17 Ymateb Dros Dro i gefnogi gwaith recriwtio a hyfforddi i'w hailddyrrannu ar ôl i ddigon o niferoedd gwblhau hyfforddiant y flwyddyn 1 ^{af}
Gwasanaethau Trosedd	16	10 Uned Diogelu Pobl Diamddiffyn 6 Unedau Ymchwilio Arbenigol
Cymorth Gweithredol	2	2 Gwnstabl Droniau
Gwasanaeth Corfforaethol	1	Cymorth Arolygu AHGTAEM
Safonau Proffesiynol	2	I hyrwyddo a rheoli safonau
Cyfraniad Rhanbarthol	4	Cyfraniad HGC at ymchwiliadau trawsffiniol rhanbarthol
Cyfanswm	82	

6.7 Mae cronfa wrth gefn Uplift wedi'i sefydlu dros y ddwy flynedd ddiwethaf wrth ddisgwyl am gadarnhad terfynol ynglŷn â chyllid. Disgwylir y bydd tua £3m o hon yn dal i fod ar gael ddiwedd y flwyddyn nesaf. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i fynd y tu hwnt i darged Uplift i lenwi'r swyddi sydd wedi'u cynllunio'n gynt; bydd hefyd yn caniatáu ar gyfer gostyngiad annisgwyl yn y niferoedd sy'n cael eu recriwtio, neu rai ychwanegol yn gadael.

6.8 I gefnogi cyflwyno'r Swyddogion Uplift ychwanegol ac ateb y galw, mae 41 o swyddi newydd wedi'u cytuno. Cyfanswm y gost ynghlwm â staff ac fel arall yw £1.660m. Mae

hyn hefyd yn cynnwys £20,000 yn ychwanegol ar gyfer pecynnau profi am gyffuriau ar ochr y ffordd a £56,000 ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (yn bennaf tuag at y cyfraniadau cenedlaethol). Mae'r swyddi ychwanegol wedi'u crynhoi isod:

Maes Gwasanaeth	Dyraniad	Eglurhad
Gwasanaethau Trosedd	9	Uned Diogelu Pobl Diamddiffyn a chefnogi swyddi arbenigol
Cymorth Gweithredol	21	10 Desg Ddigidol 10 Gwasanaethau Cyfiawnder 1 Ymchwilydd Plismona'r Ffyrdd
Gwasanaeth Corfforaethol	9	4 Gwybodaeth Fusnes 4 Hyfforddi a Recriwtio 1 Swyddog Cefnogi
Safonau Proffesiynol	1	Swyddog Dysgu ac Atal
Cyllid ac Adnoddau	1	Cymorth Cyllid
Cyfanswm	41	

- 6.9 Aseswyd arbedion effeithlonrwydd yn rhan o'r broses. Ar ôl gwneud a chyflawni £2.9m o arbedion yn 2021-22, a £35.4m yn y 10 mlynedd flaenorol, disgwylid y byddai'n anodd gwneud rhagor o arbedion effeithlonrwydd ac y byddai angen barnu i asesu a fyddent yn dirywio'r gwasanaeth a ddarperir ac yn erbyn yr ail-fuddsoddiadau arfaethedig. Gofynnwyd i bob maes gyflwyno cynigion i greu cyfanswm o £1.7m i'w ail-fuddsoddi ac £1.7m arall wrth gefn ar gyfer unrhyw ostyngiad annisgwyl i gyllid. Derbyniwyd a chraffwyd ar gynigion a oedd yn creu'r cyfansymiau hyn. Roedd angen defnyddio'r arbedion wrth gefn eleni. Aseswyd yr arbedion ail-fuddsoddi ac aseswyd £0.755m fel arbedion effeithlonrwydd gwirioneddol a rhai ymarferol i'w cyflawni o fewn y flwyddyn. Mae'r rhain wedi'u manylu isod: Mae rhai o'r cynlluniau na ddatblygwyd ar gyfer 2022-23 yn rhai mwy hirdymor a byddant yn cael eu datblygu dros y flwyddyn nesaf.

Categori	Arbedion a Ganfuwyd
	£'000
Arbedion canolog o brosiectau	483
Swyddi staff (gwag a ddim i'w llenwi)	80
Meysydd gwasanaeth ag arbedion ar wahân i rai staff	192
Cyfanswm	755

6.10 Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol tuag at 20 Swyddog Cymorth Cymunedol sy'n cael eu recriwtio yn ystod 2021-22. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y ffigyrau sylfaenol. Wrth drafod â'r Prif Gwnstabl, penderfynodd y Comisiynydd ariannu 10 Swyddog Cymorth Cymunedol arall o Dreth y Cyngor ychwanegol, fel y bydd cynnydd o 30, sy'n unioni rhywfaint o'r gostyngiad yn y cyfnod o gyni ariannol. Byddai hyn yn gynydd ychwanegol o £1.25 ar Dreth y Cyngor.

6.11 Mae'r cynllun sydd wedi'i grynhoi uchod yn gosod y sylfaen ar gyfer y dyfodol a chyflwyno'r swyddogion Uplift yn llawn a'r cymorth sydd ei angen i gefnogi 200 a mwy o swyddogion ychwanegol, yn ogystal â buddsoddiadau digidol a rhai heb fod ynghlwm â staff. Mae gosod cyllidebau darbodus a chyflawni arbedion yn y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at osod cyllideb gytbwys am y 3 blynedd nesaf, gydag arbedion o £2.879m angen eu gwneud, sy'n 1.6% o gyllideb net 2022-23 yn y 2 flynedd ddiwethaf. Bydd arbedion effeithlonrwydd yn cael eu datblygu i'w hail-fuddsoddi dros y gylchred gynllunio nesaf. Mae'r siartiau isod yn dangos y buddsoddiad sydd i'w wneud sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiynydd.



Supporting Victims & Communities



Tackling Serious Offenders

- 3 x Constables to manage sexual and violent offenders in PVPU.
- Civilian Investigators aligned to CID shift pattern to bolster local investigative resources.



Tackling Cyber Crime

- 3 x Officers into Economic Crime Unit to manage increasing fraud and online demand.
- 2 x Modern Apprenticeship roles to bolster Financial Abuse Safeguarding and cyber device examination.



Meeting the highest standards for victims and communities

- Deputy Quality Manager in Scientific support to ensure highest forensic standards are met.
- Crime Data Integrity Supervisor to ensure crimes are correctly recorded and resourced.

Fair and Effective Criminal Justice System



Achieving best Criminal Justice outcomes

- Case File Support & Evidence Assessor staff to support Director General Guidance to improve quality and timeliness for CJ processes.
- PSD Organisational Learning post to support a Prevention first approach to internal discipline and culture.



Partnership Safeguarding

- 2 x Sergeants in Central Referral Unit to ensure safeguarding referrals are assessed and shared with partners swiftly.
- 2 x Constables into Child Abuse Investigation Team due to escalating safeguarding demand.

7. Risgiau

- 7.1 Nid yw cyllid ar gyfer 2023-24 ymlaen wedi'i gyhoeddi ar lefel Heddluoedd eto ac efallai na fydd yn ddigon i ariannu'r Cynllun, yn dibynnu ar agweddau amrywiol eraill. Yr awgrym yw y bydd 1% i 1.5% o gynnydd yn y grant, sy'n debygol o fod yn ostyngiad mewn termau real. Os bydd y sefyllfa economaidd gyffredinol yn gwaethygu, efallai y bydd angen adolygu'r trefniadau ariannu arfaethedig.
- 7.2 Mae ansicrwydd effaith y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r canlyniadau economaidd yn creu rhagor o risg. Mae'r effeithiau uniongyrchol ar brisio ac unrhyw dollau posib' sy'n effeithio ar y gadwyn gyflenwi hefyd yn parhau i fod yn aneglur.
- 7.3 Un o'r risgiau mwyaf dros y blynyddoedd nesaf yw'r fformiwla ariannu oherwydd sensitifrwydd y fformiwla newydd a diffyg gwybodaeth amdani ar hyn o bryd. Roedd y ffigyrau a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref yn adolygiad 2015-16 yn dangos bod dyraniad Gogledd Cymru yn cynyddu o 1.03% i 1.06% o'r cyfanswm. Roedd hyn gyfwerth â £2 filiwn o gyllid ychwanegol; roedd amcangyfrifon diweddarach gan Ddyfnaint a Chernyw yn dangos bod dyraniad Gogledd Cymru yn lleihau £14.5m, sy'n dangos sensitifrwydd newidiadau o'r fath. Ar hyn o bryd, tua £22m yw'r cyllid gwaelodol, sy'n dangos faint y gallai'r grant newid o ganlyniad i newidiadau i'r fformiwla. Mae'r Swyddfa Gartref wedi sefydlu grwpiau i edrych ar opsiynau, ond nid oes unrhyw amserlenni cyflwyno penodol na ffigyrau wedi'u darparu hyd yma.
- 7.4 Mae'r gyllideb yn mynd i'r afael â risgiau cenedlaethol a lleol newydd a rhai'n dod i'r amlwg, y mae angen adnoddau ar eu cyfer, fel Llinellau Sirol, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Seiberdrosedd. Fodd bynnag, mae risgiau newydd yn datblygu'n o hyd ac mae'r cynnydd yn nifer a chymhlethdod troseddau'n risg.
- 7.5 Mae datblygiadau ledled y DU fel Ymgyrch Uplift, Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona a Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys fel y sonnir uchod yn creu risgiau ariannol a gweithredol. Bwriad system gyfathrebu newydd yr Heddlu (Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys) oedd creu arbedion, ond nid yw hyn wedi digwydd. Mae'r amcangyfrif o gost gweithredu'r Rhwydwaith yn sylweddol ac mae camau yn y cynllun i roi sylw i hyn, ond mae ansicrwydd o hyd am y costau terfynol. Mae cost ychwanegol darparu'r TG ddiweddaraf, p'un a yw'r rhain yn systemau gorfodol ledled y DU ai peidio, a newid y model darparu o brynu i danysgrifio, yn risg ychwanegol.
- 7.6 Nid yw arbedion a gynlluniwyd at 2022-23 wedi'u gwneud eto. Mae'r cynlluniau'n aeddfed a disgwylir i'r arbedion gael eu gwneud. Mae cynlluniau y tu hwnt i 2023-24 yn cael eu datblygu. Bydd arbedion effeithlonrwydd yn mynd yn anoddach i'w gwneud gyda gofynion Ymgyrch Uplift, sy'n golygu bod rhaid cynnal niferoedd swyddogion.
- 7.7 Mae'r cyllidebau a amcangyfrifir sydd wedi'u nodi yn seiliedig ar gytuno ar y rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer cynnydd yn Nhreth y Cyngor. Pe bai'n cael ei ostwng, byddai pob gostyngiad o 1% yn doriad ychwanegol o £0.939m i gyllidebau.
- 7.8 Mae'r Swyddfa Gartref wedi brigdorri'r symiau mae'n eu dyrannu i ardaloedd yr Heddlu yn y blynyddoedd diweddar i ariannu unedau a mentrau i'r DU gyfan. Cafodd

70% yn fwy ei frigidorri dros gyfnod 2017-18 i 2022-23 – cyfanswm o £1,374m. Gallai unrhyw fentrau newydd arwain at frigidorri rhagor.

- 7.9 Gallai grantiau gael eu cwtogi yn y dyfodol pe bai'r sefyllfa economaidd yn gwaethygu. Mae pob toriad ychwanegol o 1% i'r Cyllid Grant Cyffredinol yn ostyngiad o £0.884m.
- 7.10 Gan fod 80% o'r gyllideb net yn cael ei wario ar gyflogau, gall unrhyw gynnydd bach i gyflogau, cyfraniadau pensiwn neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol, Ardoll Prentisiaethau, neu unrhyw wariant arall sy'n gysylltiedig â thâl, gael effaith anghymesur ar y gyllideb. Mae pob 1% o gynnydd i gyflogau'n golygu cynnydd o £1.414m o gostau mewn blwyddyn gyfan. Os nad yw grantiau'n cynyddu'n unol â chostau chwyddiant, mae cost chwyddiant cyflogau naill ai'n disgyn ar Dreth y Cyngor neu mae'n rhaid ei hariannu â thoriadau. Mae risg sylweddol na fydd chwyddiant yn cael ei gydnabod fel rhan o setliad y Llywodraeth. Cafodd hyn ei liniaru yn 2021-22 wrth gyhoeddi y byddai cyflogau'n cael eu rhewi, ond mae hyn wedi arwain at bwysau am gynnydd uwch dros y blynyddoedd dilynol.
- 7.11 Bu cynnydd yng nghostau cyfraniadau pensiwn fel cyflogwr yn 2019-20, a gafodd effaith sylweddol ar gyllidebau. Mae nifer o achosion o wahaniaethu wedi'u hagor yn erbyn Pensiynau'r Heddlu a chynlluniau eraill, a'r un pennaf yw Achos McCloud, a fydd yn arwain at daliadau pensiwn ychwanegol yn cael eu hariannu'n ganolog i'r rhai sydd eisoes wedi ymddeol, yn ogystal â rhwymedigaeth gynyddol yn y dyfodol ar y cynlluniau pensiwn, a allai arwain at gynnydd mewn cyfraniadau fel cyflogwr. Byddai cynnydd o 1% yng nghynllun Swyddogion yr Heddlu'n gynnydd o £0.688m a byddai cynnydd o 1% yng nghynllun y Staff yn gynnydd o £0.408m. Y cynnydd yng Nghynllun Swyddogion yr Heddlu yn 2019-20 oedd 7%. Mae'r amcangyfrif o effaith Achos McCloud ar gyfraddau cyfraniadau'n amrywio hyd at 10% yn ychwanegol o 2023-24. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal i bennu a fydd y gost yn cael ei hariannu'n ganolog.
- 7.12 Mae'r CATC yn adlewyrchu cost hanesyddol Gwasanaethau Awyr Cenedlaethol yr Heddlu. Fodd bynnag, mae'r model gweithredu wedi bod yn destun adolygiad ers peth amser, ac mae'r sefyllfa derfynol yn parhau i fod yn aneglur ar adeg cyhoeddi'r CATC hwn. Mae disgwyl i ddarlun ariannol 2022-23 a thu hwnt ddod yn fwy eglur dros y misoedd nesaf, ond am y rheswm hwnnw, mae'n werth tynnu sylw ato fel risg o gostau cynyddol yn y CATC hwn.
- 7.13 Mae chwyddiant wedi bod yn isel yn y blynyddoedd diweddar ac mae rhagdybiaethau'r gyllideb yn adlewyrchu hynny, ond mae wedi newid dros y misoedd diwethaf, yn enwedig ar danwydd ac ynni lle gall prisiau fod yn gyfnewidiol iawn.
- 7.14 Mae'n mynd yn anodd llenwi rhai swyddi arbenigol. Gallai hyn arwain at orfod talu costau cyflogau uwch, yn ogystal â chostau uwch heb fod yn gysylltiedig â staff mewn meysydd fel Technoleg Gwybodaeth ac Ystadau wrth i'n cyflenwyr wynebu'r un problemau galw a chyflenwad.
- 7.15 Mae'r tabl isod yn amlygu sensitifrwydd y prif ragdybiaethau:

Sensitifrwydd y prif newidynnau	£m
Newid o 1% yn Nhreth y Cyngor	0.939
Newid o 1% yn y grant	0.884
Newid o 1% yn y cyflogau	1.492
Newid o 1% i Gyfraniadau Pensiwn fel Cyflogwr	1.096
Newid o 1% mewn chwyddiant cyffredinol	0.542

8. Cyfalaf

8.1 Mae angen buddsoddi'n barhaus yn asedau ac isadeiledd y Comisiynydd er mwyn sicrhau amgylchedd gwaith effeithlon a modern. Datblygwyd strategaethau ar gyfer Ystadau, TG a'r Fflyd yn 2019-20, a chytunwyd ar Raglen Gyfalaf newydd yn 2020-21. Mae gweithredu Ymgyrch Uplift; adolygu'r gofynion fel rhan o'r cylch cynllunio; a chynllun adfer COVID, wedi arwain at newidiadau i'r Rhaglen a gynlluniwyd. Mae COVID wedi arwain at rywfaint o ad-drefnu'r Rhaglen o ganlyniad i oedi. Mae prosiectau mawr fel Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys ac uwchraddio'r System Gorchymyn a Rheoli hefyd wedi bod yn destun adolygiad. Mae Rhaglen Gyfalaf ddrafft 2021-22 i 2026-27 yn ddiweddiariad ar Raglen y llynedd sy'n adlewyrchu'r newidiadau mewn amser a/neu gostau.

8.2 **Ystadau** – Mae Gorsaf Heddlu Pwllheli wedi'i hadnewyddu a bydd gwaith uwchraddio'r Ganolfan Arfau Tanio'n cael ei gwblhau yn 2021-22. Mae costau adeiladu yn gyffredinol wedi cynyddu ers paratoi'r amcangyfrifon gwreiddiol ac mae'r sefyllfa wedi gwaethygu yn 2021-22, sy'n golygu bod angen adolygu prosiectau heddiw a'r dyfodol o ran cost. Bydd y rhain i gyd yn destunau Achosion Busnes terfynol, proses dendro, ac ati, cyn eu gweithredu. Mae'r newidiadau i'r Rhaglen wedi'u crynhoi isod:


- Cynyddodd costau'r Ganolfan Comisiynu Cerbydau £0.236m, wedi'u hariannu drwy dderbyniadau cyfalaf
- Adolygiad Ystadau: prosiectau yng Nghaergybi a Dolgellau wedi cynyddu 10% +£0.534m
- Mae prosiectau Sir y Fflint bellach yn cael eu dangos fel dwy linell ac mae cynnydd o £1.1m
- £2m wedi'i gynnwys ar gyfer gwaith ychwanegol yn 2025-26
- £2m wedi'i amcangyfrif i adnewyddu'r Ganolfan Arfau Tanio yn ddibynnol ar waith cwmpasu ac Achos Busnes

8.3 **Y Fflyd** – Cynhaliwyd adolygiad manwl o ofynion y Fflyd gan ddefnyddio data gwybodaeth reoli telemateg, a arweiniodd at ostyngiad o £0.341m i'r gost flynyddol yn CATC y llynedd (gostyngiad yn nifer y cerbydau). Ers hynny, mae llawer o faterion wedi codi sy'n effeithio ar gost a chyflenwi cerbydau. Yn gyffredinol, mae'r rhesymau am broblemau cyflenwad, gan gynnwys prinder microsglodion, COVID a Brexit. Cynhaliwyd proses dendro genedlaethol gan Blue Light Commercial ac nid oedd y

ffigyrâu terfynol ar gael tan Awst/Medi 2021. Arweiniodd hyn at gynnydd o £4,000 i £6,000 yng nghost pob cerbyd. Mae Adran y Fflyd wedi ailbroffilio ac ailgyfrif costau'r rhaglen adnewyddu, sydd wedi arwain at gynnydd o £0.953m dros 5 mlynedd (sy'n gostwng yr arbediad blaenorol dros yr un cyfnod o £1.7m i £0.77m).

8.4 **TG a Chyfathrebu** – Mae buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud mewn TG. Mae'n cael ei gyfarwyddo gan Fwrdd y Rhaglen Trawsnewid Digidol. Bydd rhoi dyfeisiau personol sydd â mynediad i'r rhyngwryd i swyddogion gweithredol a staff yn galluogi gweithio'n hyblyg. Datblygwyd y prosiect ynghynt o ganlyniad i COVID a bydd pob dyfais yn gallu defnyddio'r Rhaglen Alluogi Genedlaethol (o ran y feddalwedd ddiweddaraf sydd ar gael) erbyn diwedd 2021-22. Mae uwchraddiad sylweddol i'r system Gorchymyn a Rheoli ar y gweill. Mae Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys wedi'i gynnwys ond mae wedi'i ohirio am eleni. Mae hyn yn cynorthwyo o ran cyllid gan y bydd blwyddyn arall o gyfraniadau yn y gronfa. Bydd ffonau symudol yn cael eu hadnewyddu ym mis Mawrth/Ebrill 2022 a bydd yr ap ffôn symudol yn cael ei chyflwyno yn gynnar yn 2022-23. Mae adnewyddu cyfarpar TG wedi'i gynnwys ar gyfer y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys blwyddyn ychwanegol 2026-27.

8.5 Y brif broblem sydd wedi bod â'r Rhaglen yw ei chyflawni mewn camau. Edrychwyd ar hyn sawl gwaith yn ystod 2021-22. Yn anffodus, oherwydd ansicrwydd am sawl mater y tu hwnt i reolaeth y rheolwyr prosiect, mae nifer o brosiectau wedi'u gohirio er yr awydd i'w datblygu ynghynt. Mae'r sefyllfa Gwariant Cyfalaf yn parhau i fod yn heriol, gyda mwy o amrywioldeb mewn costau (sy'n arwain at oedi oherwydd prosesau llywodraethu a chraffu priodol ar gyfer cynnydd) yn ogystal ag adnoddau mewnol ac allanol i gyflawni'r prosiectau. Mae'r Rhaglen yn parhau i fod â gogwydd tuag at y blynyddoedd cynnar fel y gwelir isod a bydd y camau a'r gwaith cyflawni'n cael ei fonitro'n rheolaidd ar lefel prosiectau a'r rhaglen.



8.6 Mae aildrefnu'r camau wedi cynorthwyo â chyllid. Gan fod gohiriad ar fenthycya, mae modd defnyddio'r gyllideb a neilltuwyd i ad-dalu benthyciadau (Darpariaeth Refeniw) i dalu am gyfalaf yn uniongyrchol, sydd felly am leihau unrhyw fenthyciadau yn y dyfodol neu greu lle ar gyfer costau uwch. Mae'r Rhaglen yn fforddiadwy ar sail amcangyfrifon presennol a'r cyllid sydd ar gael. Mae'r ffigyrau cyfalaf i'w gweld yn Atodiad C; bydd y cynllun manwl terfynol yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Comisiynydd yn rhan o'r Strategaeth Gyfalaf erbyn diwedd Mawrth 2022. Mae hyn yn statudol ofynnol ac mae'n cynnwys Strategaethau Rheoli'r Trysorlys a'r Cod Darbodus. Mae crynodeb o'r Rhaglen a'r cyllid i'w weld isod.

8.7 Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2021-22 i 2026-27

Disgrifiad	Amcangyfrif Diwygiedig 2021-22	Amcan. 2022-23	Amcan. 2023-24	Amcan. 2024-25	Amcan. 2025-26	Amcan. 2026-27
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cyfanswm Gwaith Adeiladu	2,700	4,872	5,684	5,168	2,100	2,100
Cyfanswm Cerbydau ac Offer Eraill	1,635	2,480	1,667	2,441	1,797	1,341
Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	3,900	4,858	7,823	1,794	1,444	2,185
Cyfanswm Gwariant Cyfalaf	8,235	12,210	15,174	9,403	5,341	5,626

Disgrifiad	Amcangyfrif Diwygiedig 2021-22	Amcan. 2022-23	Amcan. 2023-24	Amcan. 2024-25	Amcan. 2025-26	Amcan. 2026-27
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Grant y Swyddfa Gartref	171	0	0	0	0	0
Cyfraniad Refeniw	2,208	2,177	3,353	2,411	2,097	2,731
Cronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi	2,959	2,352	1,384	0	0	0
Derbyniadau Cyfalaf	271	336	370	750	100	100
Benthycya ar gyfer Ystadau	2,071	4,503	5,584	4,418	2,000	2,000
Benthycya ar gyfer y rhaglen adnewyddu	555	2,842	4,483	1,824	1,144	795
Cyfanswm Cyllid	8,235	12,210	15,174	9,403	5,341	5,626
Adnoddau Allanol	171	0	0	0	0	0
Ein hadnoddau ein hunain	5,438	4,864	5,107	3,161	2,197	2,831
Dyled	2,626	7,345	10,067	6,242	3,144	2,795
CYFANSWM	8,235	12,210	15,174	9,403	5,341	5,626

9. Cronfeydd wrth Gefn

- 9.1 Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynydd i sicrhau bod ganddo gronfeydd wrth gefn digonol i reoli risgiau. Yn ogystal â'r risgiau i gyllid a ffurfio rhagdybiaethau uchod, mae'n rhaid i'r Comisiynydd baratoi ar gyfer risg gwariant (gwario mwy na'r gyllideb), yn ogystal â digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld, fel digwyddiadau mawr costus, trychinebau naturiol neu ddigwyddiadau eraill annisgwyl. Mae elfen o'r risg hon yn cael ei rheoli yn y cyllidebau yn ystod y flwyddyn drwy'r cyllidebau arian at raid. Fodd bynnag, mae'r cyllidebau arian at raid wedi'u lleihau ac mae cyfran uwch o'r risg honno wedi'i throsglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn.
- 9.2 Adolygir y cronfeydd wrth gefn yn rhan o broses y gyllideb ac eto wrth lunio Datganiad Cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, pan fydd y sefyllfa derfynol yn hysbys.
- 9.3 Y bwriad yw lleihau'r cronfeydd wrth gefn o £32.931m i £20.899m dros y 10 mlynedd nesaf. Mae disgrifiad o bob cronfa wrth gefn wedi'i roi ym mharagraff 9.6.
- 9.4 Mae'n cael ei ystyried yn ddoeth cynnal Cronfa wrth Gefn Gyffredinol o rhwng 3% a 5% o wariant refeniw net. Gan fod cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i liniaru risg, mae'r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol wedi'i chynnal fymryn uwchben 3%. Fodd bynnag, wrth i wariant refeniw net gynyddu, mae angen cynyddu'r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol i gynnal balans o 3%. Mae hyn wedi'i gynnwys yng nghynlluniau'r dyfodol ac wedi'i adlewyrchu yn y crynodeb isod.

<u>Sefyllfa Cronfeydd wrth Gefn</u>										
<i>Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio</i>	Balans 31.3.21 Balans £m	Balans 31.3.22 Balans £m	Balans 31.3.23 Balans £m	Balans 31.3.24 Balans £m	Balans 31.3.25 Balans £m	Balans 31.3.26 Balans £m	Balans 31.3.27 Balans £m	Balans 31.3.28 Balans £m	Balans 31.3.29 Balans £m	Balans 31.3.30 Balans £m
Balans y Gronfa Gyffredinol	5.417	5.531	5.645	5.759	5.873	5.987	6.105	6.225	6.347	6.469
Cronfa Gyffredinol wrth Gefn wedi'i Chlustnodi	25.461	24.488	18.376	15.641	14.238	13.190	12.667	12.163	11.620	11.620
Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	2.084	3.423	3.607	3.737	3.362	3.262	3.162	3.062	2.962	2.862
Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu defnyddio	32.961	33.442	27.628	25.137	23.473	22.439	21.934	21.450	20.929	20.951

- 9.5 Bydd defnyddio'r cronfeydd wrth gefn yn dibynnu ar y penderfyniadau terfynol ar wariant cyfalaf a sefyllfa refeniw derfynol 2021-22, felly mae'r tabl isod yn dangos yr amcangyfrif presennol o'r ffordd orau o ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, i gefnogi gwasanaethau a lleihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw. Os nad yw'r defnydd o'r Gronfa wrth Gefn yn hysbys (fel Cronfa wrth Gefn Digwyddiadau Mawr) ni ddangosir unrhyw newid. Mae manylion y sefyllfa a ragwelir mewn perthynas â Chronfeydd wrth Gefn ar ddiwedd bob blwyddyn wedi'u nodi yn y tabl, ac mae disgrifiad o bob cronfa wrth gefn a'i phwrpas yn y tabl isod.

Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol wedi'u Clustnodi

Disgrifiad	31.3.21	31.3.22	31.3.23 Balans	31.3.24 Balans	31.3.25 Balans	31.3.26 Balans	31.3.27 Balans	31.3.28 Balans	31.3.29 Balans	31.3.30 Balans
	£m	£m	£m	£m	£m					
Buddsoddi Cyfalaf	3.001	1.726	1.701	0.351	0.351	0.351	0.351	0.351	0.351	0.351
Digwyddiadau Mawr	2.435	2.435	2.435	2.435	2.435	2.435	2.435	2.435	2.435	2.435
Cronfa wrth Gefn Pensiwn Salwch	0.975	0.975	0.975	0.975	0.975	0.975	0.975	0.975	0.975	0.975
Cronfa wrth Gefn Yswiriant	1.173	1.173	1.173	1.173	1.173	1.173	1.173	1.173	1.173	1.173
Cronfa wrth Gefn Hyfforddiant	0.600	0.500	0.250	0.250	0.250	0.250	0.250	0.250	0.250	0.250
Cronfa wrth Gefn PFI	3.106	2.918	2.678	2.385	2.040	1.642	1.192	0.688	0.145	0.145
Cronfa wrth Gefn Uplift	1.577	4.403	2.703	2.003	1.303	0.953	0.953	0.953	0.953	0.953
Cronfa wrth Gefn Tanwydd	0.200	0.200	0.200	0.200	0.200	0.200	0.200	0.200	0.200	0.200
Diogelwch a Chynnal a Chadw Ystadau	1.892	1.273	0.973	0.673	0.373	0.073	0.000	0.000	0.000	0.000
Rheoli Newid	6.778	5.161	1.824	1.732	1.674	1.674	1.674	1.674	1.674	1.674
Cronfa wrth Gefn Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys	0.158	0.158	0.158	0.158	0.158	0.158	0.158	0.158	0.158	0.158
Cronfa wrth Gefn COVID	0.597	0.597	0.337	0.337	0.337	0.337	0.337	0.337	0.337	0.337
Cronfa wrth Gefn Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona	0.325	0.325	0.325	0.325	0.325	0.325	0.325	0.325	0.325	0.325
Cronfa wrth Gefn FCIN	1.080	1.080	1.080	1.080	1.080	1.080	1.080	1.080	1.080	1.080
Cronfa wrth Gefn Partneriaethau	0.733	0.733	0.733	0.733	0.733	0.733	0.733	0.733	0.733	0.733
Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd	0.547	0.547	0.547	0.547	0.547	0.547	0.547	0.547	0.547	0.547
Cronfa Gyfreithiol Swyddfa'r Comisiynydd	0.106	0.106	0.106	0.106	0.106	0.106	0.106	0.106	0.106	0.106
Cyllideb Gyfranogol Swyddfa'r Comisiynydd	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000
Cronfa wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd	0.178	0.178	0.178	0.178	0.178	0.178	0.178	0.178	0.178	0.178
Cyfanswm	25.461	24.488	18.376	15.641	14.238	13.190	12.667	12.163	11.620	11.620

9.6 Crynodeb o Gronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi

Cronfa Buddsoddi Cyfalaf (Cyfalaf) – I'w defnyddio i fuddsoddi yn asedau ac isadeiledd yr Heddlu i wella gwasanaethau a lleihau gwariant refeniw. Bydd cyllid ychwanegol o £2.1m yn cael ei gyfrannu at y gronfa hon i ariannu Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys, a fydd wedyn yn cael ei ddefnyddio erbyn 23-24.

Cronfa Digwyddiadau Mawr (Risg) – I'w defnyddio pan fo digwyddiad mawr yn gofyn am adnoddau'n ychwanegol i'r rheiny yn y gyllideb flynyddol. Mae'r gronfa hon wedi galluogi lleihau Cyllideb at Raid Digwyddiadau Mawr.

Cronfa wrth Gefn Pensiwn Salwch (Risg) – Mae'n rhaid i'r Heddlu dalu swm untro sydd gyfwerth â dwywaith cyflog blynyddol swyddog ar bob Ymddeoliad ar Sail Salwch. Mae cadw'r

gronfa hon yn mynd i'r afael ag amrywioldeb o'r naill flwyddyn i'r llall o ran yr achosion nifer isel, cost uchel hyn.

Yswiriant (Risg) – Mae hyn yn ymwneud â 'Scheme of Arrangement' Municipal Mutual Insurance Limited a all arwain at daliad terfynol o oddeutu £0.432m; mae'r balans wedi'i glustnodi ar gyfer hawliadau sy'n dod i'r amlwg a hawliadau anhysbys yn y dyfodol, sydd wedi'u nodi gan y brocer yswiriant.

Cronfa wrth Gefn Hyfforddiant – Sefydlwyd y gronfa newydd hon ddiwedd 2019-20 i reoli cyfnodau brig a thawel o fewn y gyllideb Hyfforddi. Mae'r pandemig COVID wedi arwain at ohirio hyfforddiant allanol. Mae'r tanwariant hwn wedi cael ei ychwanegu at y gronfa wrth gefn a'i ddefnyddio i ddal i fyny â'r gofynion hyfforddi.

Cronfa wrth Gefn PFI (Refeniw wedi'i Glustnodi) – Mae angen y gronfa hon gan fod y cyllid ar gyfer PFI gan y Llywodraeth yn lleihau pob blwyddyn. Bydd y gronfa yn lleihau yn ystod cyfnod y contract PFI.

Cronfa wrth Gefn Uplift – Mae hon yn gronfa newydd o 2020-21. Mae'r Llywodraeth wedi darparu cyllid yn ystod y flwyddyn ar gyfer Ymgyrch Uplift, sydd hefyd wedi'i fwriadu i ariannu costau gweithredu ac isadeiledd dros y 2 i 3 blynedd nesaf. Bwriedir i £0.675m i £1m gael ei ddefnyddio i ariannu uwchraddio arfwisgoedd. Gall y balans wedyn gael ei ddefnyddio i ariannu swyddogion ychwanegol yn lle tiwtoriaid cwnstabiliaid ychwanegol a darparu ar gyfer Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona o 2023-24. Bydd y rhain yn lleihau'n yn raddol wrth i'r Swyddogion Uplift barhau drwy eu 2^{il} a'u 3^{edd} flwyddyn brawf.

Cronfa wrth Gefn Tanwydd – Mae hon yn gronfa newydd o 2020-21. Mae costau tanwydd wedi gostwng yn ystod 2020-21. Mae'r gostyngiad hwn wedi'i adlewyrchu yn y cynlluniau o 2021-22 ymlaen, ond oherwydd amrywioldeb cost tanwydd, mae swm o £0.2m wedi'i neilltuo i reoli'r risg y bydd prisiau'n cynyddu'n sydyn.

Diogelwch a Chynnal a Chadw Ystadau (Refeniw wedi'i Glustnodi) – I ariannu gwaith cynnal a chadw a diogelwch sydd wedi hel yn yr Arolwg Cyflwr a gynhaliwyd yn 2018 a diogelwch ychwanegol sydd heb ei gynnwys yn y cyllidebau refeniw na chyfalaf.

Rheoli Newid (Refeniw wedi'i Glustnodi) – Buddsoddiad sydd ei angen i hwyluso newid a lleihau costau yn y tymor hir.

Cronfa wrth Gefn COVID – Wedi'i sefydlu ar ddiwedd 2020-21 fel cronfa ychwanegol at raid, yn benodol ar gyfer costau ychwanegol uniongyrchol COVID. Dim ond ymrwymadau hysbys sy'n cael eu dangos fel rhai sy'n ei defnyddio.

Cronfa wrth Gefn Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona – I dalu am gynnydd sydyn yng nghostau hyfforddiant y Fframwaith yn y dyfodol oherwydd amrywioldeb wrth recriwtio.

Cronfa wrth Gefn FCIN – Mae'r Heddlu'n arweinydd cenedlaethol ar gyfer y Rhwydwaith Fforensig Ymchwilio i Wrthdrawiadau (FCIN). Y swm yw'r balans o gyllid a dderbyniwyd

ddiwedd 2020-21. Mae cyllidebau wrthi'n cael eu hailosod. Ar ôl gwneud hyn, bydd modd cynnwys ymrwymadau ar gyfer y dyfodol.

Cronfa wrth Gefn Partneriaethau (Refeniw wedi'i Glustnodi) – Balansau a gedwir ar gyfer partneriaethau penodol a fydd naill ai'n cael eu defnyddio neu eu cadw rhag ofn i gyllid gael ei dynnu'n ôl a bod hynny'n arwain at gostau ychwanegol.

Cronfa Diogelwch Cymunedol (Refeniw wedi'i Glustnodi) – I ddarparu adnoddau ychwanegol i'r Gronfa Diogelwch Cymunedol.

Cronfeydd wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd (Refeniw wedi'i Glustnodi) – Cronfa wrth gefn y swyddfa, cronfa gyfreithiol a chyllideb gyfranogol.

9.7 Mae Cronfeydd wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf yn dal yr elw sy'n dod o werthu asedau. Gellir ond defnyddio'r rhain i ariannu gwariant cyfalaf. Mae rhagamcaniadau'n cael eu gwneud ar sail faint o dderbynebau a ddisgwylir, ond nid yw'r rhain wedi'u hymrwymo hyd nes y derbynnir y cyllid. Mae disgwyl derbyniadau ychwanegol yn 2021-22. Bydd y balans ar gael ar gyfer prosiectau'r dyfodol ond gan fod llawer o amrywioldeb mewn costau cyfalaf ar hyn o bryd, yn y tymor byr, gall y gronfa hon liniaru'r risg o gostau uwch mewn prosiectau cyfredol sydd wedi'u cynllunio.

9.8 Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ganllawiau newydd ar dryloywder cronfeydd yn ystod 2018-20. Mae'r tablau isod yn dangos y cronfeydd fel maent wedi'u categorio gan y canllawiau.

Penawdau'r Swyddfa Gartref

	31.3.21	31.3.22	31.3.23	31.3.24	31.3.25	31.3.26	31.3.27	31.3.28	31.3.29	31.3.30
Cronfeydd ar Ddiwedd y Flwyddyn	30.878	30.019	24.021	21.400	20.111	19.177	18.772	18.388	17.967	18.089
Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol	5.417	5.531	5.645	5.759	5.873	5.987	6.105	6.225	6.347	6.469
Cronfeydd Refeniw wrth Gefn wedi'u Clustnodi										
a gedwir i ddiogelu yn erbyn risgiau cyllidebol	6.747	6.647	6.137	6.137	6.137	6.137	6.137	6.137	6.137	6.137
a gedwir i gefnogi'r gyllideb tymor canolig	2.124	4.950	3.250	2.550	1.850	1.500	1.500	1.500	1.500	1.500
a gedwir i hwyluso rhaglenni newid	8.670	6.434	2.797	2.405	2.047	1.747	1.674	1.674	1.674	1.674
a gedwir hyd nes bydd diffyg yn y dyfodol ar gontractau PFI sydd wedi'u hymrwymo i raglenni cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod	3.106	2.918	2.678	2.385	2.040	1.642	1.192	0.688	0.145	0.145
sy'n Gronfeydd wrth Gefn eraill wedi'u Clustnodi										
sy'n Gronfeydd a gedwir ar ran sefydliadau eraill	1.813	1.813	1.813	1.813	1.813	1.813	1.813	1.813	1.813	1.813
Cyfanswm y Cronfeydd Refeniw wrth Gefn	30.878	30.019	24.021	21.400	20.111	19.177	18.772	18.388	17.967	18.089
Grantiau a Chronfeydd wrth Gefn Cyfalaf										
sy'n gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn	2.084	3.423	3.607	3.737	3.362	3.262	3.162	3.062	2.962	2.862
CYFANSWM y Cronfeydd wrth Gefn	32.961	33.442	27.628	25.137	23.473	22.439	21.934	21.450	20.929	20.951

10 Crynodeb

- 10.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi cynlluniau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer y cyllidebau refeniw a chyfalaf dros y 5 mlynedd nesaf, a'r defnydd o'r cronfeydd wrth gefn dros y 10 mlynedd nesaf.
- 10.2 Mae Ymgyrch Uplift wedi rhoi cyfleoedd ar gyfer twf, ond hefyd pwysau costau a chyfyngiadau ar gyflawni arbedion effeithlonrwydd. Mae cynnydd costau o chwyddiant a gofynion newydd wedi arwain at orfod gwneud penderfyniadau anodd yn ystod y cylch cynllunio hwn. Mae'r costau ychwanegol hyn yn dilyn cyfnod o ddeng mlynedd lle mae £38.3m o arbedion wedi'u gwneud o gyllidebau. Mae'r galw sy'n dod i'r amlwg ar adnoddau gweithredol hefyd yn ychwanegu at y pwysau ariannol. Fodd bynnag, drwy gynllunio costau yn y dyfodol a defnyddio cyllid ychwanegol yn ddarbodus, mae cyllideb gytbwys wedi'i gosod ar gyfer y 3 blynedd nesaf ar sail y rhagdybiaethau presennol.
- 10.3 Mae'r Comisiynydd wedi ystyried yr holl opsiynau gyda'r adnoddau sydd ar gael. Cyflawnwyd gwaith helaeth gan y Broses Cynllunio Sefydliadol er mwyn dod o hyd i arbedion a symud adnoddau o fewn y sefydliad. Fe wnaeth y broses gynllunio hefyd alluogi dyrannu 82 o swyddogion Ymgyrch Uplift, ar sail blaenoriaethau. Mae cynnydd o £11.25 neu 3.68% i dreth y cyngor wedi'i gynnig. Mae hyn yn darparu ar gyfer costau cynnydd sefydlog a 10 Swyddog Cymorth Cymunedol ychwanegol. Mae adnoddau ychwanegol ar gael yn dilyn y cyhoeddiad am swyddogion ychwanegol; ond mae angen y cynnydd i dalu am gostau cyfredol swyddogion, y costau sefydlu a hyfforddi ac yna cynnydd i gostau yn y dyfodol hefyd, wrth i'w cyflogau gynyddu yn ôl y cynyddrannau blynyddol.

Y Strategaeth Ariannol

Amcanion Strategol Ariannol:

- Blaenoriaethu adnoddau i alinio cynlluniau gwario gyda gweledigaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ac amcanion strategol y Prif Gwnstabl fel y nodir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd a Chynllun Cyflawni'r Heddlu
- Cynnal sefyllfa gyllidebol gytbwys a gosod cynllun ariannol tymor canolig sy'n cefnogi'r gwasanaeth drwy'r cyfnod
- Darparu gwerth am arian i drethdalwyr lleol
- Arfer uniondeb, bod yn ddarbodus a sicrhau rheolaeth ariannol gref
- Darparu fframwaith cadarn i gynorthwyo â'r broses gwneud penderfyniadau
- Rheoli risg, gan gynnwys cynnal cronfeydd wrth gefn ar lefel addas a pheidio mynd y tu hwnt i lefel gynaliadwy o ddyled
- Adolygu cyllidebau'n barhaus i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu at amcanion allweddol

Er mwyn cyflawni'r amcanion strategol, caiff gwaith cynllunio ei wneud yn y meysydd canlynol:

Cynllunio Corfforaethol a Chynllunio Busnes

- Integreiddio cynllunio gweithredol a chynllunio ariannol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio i gefnogi'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun yr Heddlu a Throsedd, a pharu adnoddau gydag amcanion corfforaethol drwy'r Broses Cynllunio Sefydliadol
- Llundio cynllun ariannol ar gyfer y 3 i 5 mlynedd nesaf a fydd yn cynnwys prif brosiectau cyfalaf a refferniw'r Comisiynydd a'r heddlu, a'r strategaethau TG ac Ystadau a darparu cyllid gynaliadwy dros y tymor byr a'r tymor canolig
- Cynhyrchu cyllideb referniw a chyfalaf flynyddol fanwl sy'n cefnogi'r dull mwyaf effeithiol o ddefnyddio adnoddau

Rheoli Risg – Cronfeydd wrth Gefn a Darpariaethau

- Cynnal cronfeydd wrth gefn a darpariaethau digonol i sicrhau bod y cynllun tymor canolig yn gynaliadwy a bod modd ei gyflawni
- Ceisio mantoli'r gyllideb referniw dros y tymor canolig heb ddibynnu ar ddefnyddio'r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol
- Cynnal y 3 lefel o gadernid i ddelio â digwyddiadau eithriadol drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a darpariaethau:
 1. Rheoli'r Gyllideb Flynyddol
 2. Cronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi gan gynnwys Cronfa wrth Gefn Digwyddiadau Mawr
 3. Cynnal Cronfa wrth Gefn Gyffredinol o 3% o wariant referniw net

Rheoli Risg – Fframwaith Rheolaeth Ariannol

- Cynnal fframwaith rheolaeth ariannol; mae hyn yn allweddol i gynnal safonau effeithiol o ran gweinyddiaeth a stiwardiaeth ariannol. Caiff hyn ei gyflawni drwy'r canlynol:

Cydymffurfio â:

- Rheolau a Rheoliadau Statudol
- Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref
- Cod Llywodraethu Corfforaethol
- Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA
- Nodiadau Polisiâu a Gweithdrefnau
- Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog
- Strategaeth Gyfalaf gan gynnwys Polisi Rheoli'r Trysorlys a chydymffurfio â'r Cod Darbodus
- Codau Ymddygiad Proffesiynol

A hefyd:

- Gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol
 - Rheoli Risg
- Cynnal a datblygu systemau ariannol digonol i gofnodi a rheoli adnoddau
 - Alinio cyfrifoldeb ariannol ar y lefel weithredol gyda'r rheolaeth neu ddylanwad rheoli priodol
 - Sicrhau bod gwybodaeth ariannol gywir, gyfredol ac amserol ar gael i alluogi defnyddwyr i'w defnyddio'n effeithiol wrth wneud penderfyniadau.

Atodiad B

Cyllideb Refeniw 2021-22 i 2026-27

Cyf Disgrifiad

Cyllideb 2021-22 i 2026-27

	Cyllideb Fly'ddol 2021-22	+Cynn'dd -Gost'iad 2022-23	Cyllideb Fly'ddol 2022-23	Cyllideb Fly'ddol 2023-24	Cyllideb Fly'ddol 2024-25	Cyllideb Fly'ddol 2025-26	Cyllideb Fly'ddol 2026-27
Gwariant	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
1.1 Cyflog Swyddogion Heddlu	90,304	6,051	96,355	98,896	101,922	105,226	108,859
2.1 Cyflog Staff yr Heddlu	42,517	3,096	45,613	46,888	48,068	49,276	50,516
2.2 Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu	6,104	1,130	7,234	7,429	7,615	7,806	8,001
3.1 Goramser Swyddogion Heddlu	2,233	104	2,337	2,395	2,455	2,516	2,579
4 Goramser Staff yr Heddlu	597	45	642	658	675	692	709
5 Lwfansau	1,299	35	1,334	1,333	1,332	1,332	1,332
6 Hyfforddiant	1,407	357	1,764	1,800	1,762	1,797	1,833
7 Gwariant Arall ar Weithwyr	726	72	798	814	830	846	863
8 Taliadau Pensiwn Uniongyrchol	3,281	146	3,427	3,509	3,594	3,680	3,768
9 Costau Ynni	1,467	137	1,604	1,652	1,702	1,753	1,805
10 Costau Rhedeg Adeiladau	6,562	183	6,745	6,880	7,018	7,158	7,301
11 Atgyweirio a Chynnal a Chadw Cerbydau	596	15	611	623	635	648	661
12 Costau Rhedeg Cerbydau	1,853	171	2,024	2,076	2,129	2,184	2,240
13 Lwfansau Ceir a Theithio	463	-49	414	423	431	440	449
14 Uned Awyr	604	-100	504	517	530	543	557
15 Cyfarpar	1,091	120	1,211	1,236	1,260	1,286	1,311
16 Dillad a Gwisgoedd	530	44	574	558	569	580	592
17 Argraffu a Nwyddau Swyddfa	284	4	288	294	300	306	312
18 TG a Chyfathrebu	12,628	1,036	13,664	13,940	14,309	14,689	15,081
19 Cynhaliaeth	266	-12	254	259	264	269	275
20 Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill	2,626	77	2,703	2,756	2,810	2,864	2,920
21 Cydweithio a Phartneriaethau	6,547	931	7,478	7,665	7,856	8,052	8,254
22 Gwasanaethau Fforensig	919	15	934	953	972	991	1,011
23 Ffioedd Dyledion a Chyfraniad Cyfalaf	4,354	153	4,507	5,716	5,670	5,898	5,898
24 Cyllid Sefyllfaoedd Arbennig at Raid	400	0	400	400	400	400	400
25 Chwyddiant a Chyllid Cyffredinol at Raid	3,361	-2,595	766	666	550	550	550
26 Cronfa Diogelwch Cymunedol	3,429	116	3,545	3,615	3,688	3,762	3,837
Gwariant Gros	196,448	11,282	207,730	213,951	219,346	225,544	231,914

	Cyllideb Fly'ddol 2021-22	+Cynn'dd -Gost'iad 2022-23	Cyllideb Fly'ddol 2022-23	Cyllideb Fly'ddol 2023-24	Cyllideb Fly'ddol 2024-25	Cyllideb Fly'ddol 2025-26	Cyllideb Fly'ddol 2026-27
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Incwm							
27 Secondiadau	-6,637	-905	-7,542	-7,729	-7,921	-8,117	-8,319
28 Llog ar Falansau	-100	0	-100	-100	-100	-100	-100
29 Incwm	-2,599	-10	-2,609	-2,609	-2,609	-2,609	-2,609
30 Grantiau Penodol	-14,309	-2,125	-16,434	-16,381	-16,328	-16,276	-16,223
Cyfanswm Incwm	-23,645	-3,040	-26,685	-26,819	-26,958	-27,102	-27,251
31 Cronfa wrth Gefn PFI	-188	-53	-241	-293	-346	-398	-451
32 Cyfraniad at Gronfa wrth Gefn Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys	750	600	1,350	0	0	0	0
33 Cyfraniad at y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol	0	114	114	228	342	456	570
Gwariant Net	173,365	8,903	182,268	187,067	192,384	198,500	204,782
34 Cyfanswm Grantiau	-83,677	-4,730	-88,407	-89,407	-90,907	-91,816	-92,735
35 Praesept	-89,688	-4,173	-93,861	-97,660	-101,477	-105,313	-109,168
Cyllid	-173,365	-8,903	-182,268	-187,067	-192,384	-197,129	-201,903
Twf/arbedion	0	0	0	0	0	0	0
Cyllid Net Diwygiedig gyda thwf	173,365		182,268	187,067	192,384	198,500	204,782
Balans Blynyddol	0	0	0	0	0	1,371	2,879
ACHOS SYLFAENOL – Cronnus	0		0	0	0	1,371	2,879

Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2021-22 i 2026-27

	Amcangyfrif Diwygiedig 2021-22	Amcan. 2022-23	Amcan. 2023-24	Amcan. 2024-25	Amcan. 2025-26	Amcan. 2026-27
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
<u>Rhaglen Ystadau</u>						
Taliadau Cadw, Gwasanaethau Ymgynghorol a QS	26	25				
Gwelliannau Cynaliadwyedd	202	100	100	100	100	100
Amcangyfrif Ystadau o 25-26 ymlaen					2,000	
Gorsaf Pwllheli	246					
Gorsaf Caergybi	200	2,093	1,384			
Ardal Ystadau Caernarfon a Gogledd Gwynedd	210	557				
Canolfan Comisiynu Cerbydau/Gweithdy Cerbydau	1,314	586				
Y Gynghrair Arfog	0	420				
Gorsaf Dolgellau	0			1,200		
Gorsaf Abergele	0	391				
Gorsaf Llanrwst	0			178		
Gorsaf Sir y Fflint – Gogledd	0	0	700	2,300		
Gorsaf Sir y Fflint – De	0	200	3,500	450		
Uwchraddio Ystafell Reoli'r Heddlu	0	100				
Storfa'r Archifdy	0		0	750		
Gorsaf Rhosllannerchrugog	0			190		
Adleoli/cytleoli/gwagio	100	250				
Gwaith yn y Ganolfan Arfau Tanio	354					2,000
CS – Achrediad ISO SARC	48	150				
Cyfanswm Gwaith Adeiladu	2,700	4,872	5,684	5,168	2,100	2,100
<u>Cerbydau ac Offer Eraill</u>						
Rhaglen Ddisodli Prynu Cerbydau	960	2,364	1,626	1,620	1,756	1,300
Cerbydau Uned Gymorth yr Heddlu (rhaglen adnewyddu)	0	0		780		
Cerbydau Trydan	0	41	41	41	41	41
Datblygiad Tranman	0	75				
Intoxilator x 3	30					
Adnewyddu System Adnabod Platau Cofrestrï'n Awtomatig	470					
System Cofnodi Olion Bysedd a'i Gwella	0					
Offer Arolygu Gwrthdrawiadau	175					
Cyfanswm Cerbydau ac Offer Eraill	1,635	2,480	1,667	2,441	1,797	1,341

Disgrifiad	Amcangyfrif Diwygiedig 2021-22	Amcan. 2022-23	Amcan. 2023-24	Amcan. 2024-25	Amcan. 2025-26	Amcan. 2026-27
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
<u>Offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</u>						
Adnewyddu Cyfrifiaduron Pen Desg (Rhaglen Adnewyddu)	437	750	750	750	300	750
Ailadeiladu Dyfeisiau NEP (7 mlynedd)	175	143				
Loceri ar gyfer gwefru a storio	20	142				
Ap ffôn symudol	0	471				
Dyfeisiau data symudol	280	305	0	0	0	585
Systemau Cyfathrebu Symudol Tonnau Awyr (unedau disodli)/Gwasanaethau Brys	0					
Disodli'r Gweinydd	0	700			0	700
Gweinyddion Systemau Busnes (Rhaglen Ddisodli)	0	145			0	150
Disodli Gweinydd yr Uned Fforensig Ddigidol	0		270			
Isadeiledd NEP/Sail Point/Cysylltiadau Rhynggrwyd	163					
Wifi	104	0				
Offer clyweledol digidol i'r gweithle	0	126				
Gwybodaeth ac Ymchwilio Digidol	158	38				
Rheoli Tystiolaeth Ddigidol	20					
Teleffoni	0	250				
Uwchraddiad Nexus	280	100				
Uwchraddiad Gorchymyn a Rheoli – Cam 2	2,095	458				
Gwasanaethau Plismona Lleol – Diogelwch Cymunedol – Atal	30					
Datblygiad Pobl a Sefydliadol – Hyfforddiant Rhithiol 360	53					
Digidol – BIU – Warws Data Gwybodaeth Rheoli	50					
Modiwl newydd CHORUS	35					
Gweithredu Life-X (5 mlynedd EUL)	0	300		800		
Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (5 mlynedd)	0	686	6,560	0	900	
Fideo a wisgir ar y corff (costau disodli) (3 blynedd)	0	243	243	244	244	
Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	3,900	4,858	7,823	1,794	1,444	2,185
Cyfanswm Gwariant Cyfalaf	8,235	12,210	15,174	9,403	5,341	5,626

Disgrifiad	Amcangyfrif Diwygiedig 2021-22	Amcan. 2022-23	Amcan. 2023-24	Amcan. 2024-25	Amcan. 2025-26	Amcan. 2026-27
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Grant y Swyddfa Gartref	171	0	0	0	0	0
Cyfraniad Refeniw	2,208	2,177	3,353	2,411	2,097	2,731
Cronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi	2,959	2,352	1,384	0	0	0
Derbyniadau Cyfalaf	271	336	370	750	100	100
Benthyca ar gyfer Ystadau	2,071	4,503	5,584	4,418	2,000	2,000
Benthyca ar gyfer y rhaglen adnewyddu	555	2,842	4,483	1,824	1,144	795
Cyfanswm Cyllid	8,235	12,210	15,174	9,403	5,341	5,626
Adnoddau Allanol	171	0	0	0	0	0
Ein hadnoddau ein hunain	5,438	4,864	5,107	3,161	2,197	2,831
Dyled	2,626	7,345	10,067	6,242	3,144	2,795
CYFANSWM	8,235	12,210	15,174	9,403	5,341	5,626

EITEM RHAGLEN 10a

Adroddiad o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Teitl: Praesept a Threth y Cyngor 2022/23

Cyfarfod: Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 31 Ionawr 2022

Awdur: Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid

1. Rhagarweiniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw adolygu sefyllfa ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd dros Ogledd Cymru a gwneud argymhellion ynghylch praesept a threth y cyngor ar gyfer 2022/23.

2. Argymhellion

2.1 Cynyddu'r praesept i £93,861,247.

- Bydd hyn yn cynyddu treth y cyngor 3.68% - mae hynny'n gyfystyr â £316.80 y flwyddyn, sef cynnydd o £11.25 y flwyddyn neu 22c yr wythnos ar gyfer eiddo band D.
- Nodi bod y cynnydd hwn yr un fath â chynnydd tybiedig y Swyddfa Gartref o £10.00 yn ogystal â £1.25 i ariannu deg o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol.
- Nodi bod y Sylfaen Drethu wedi cynyddu 0.94%.
- Dyma gynnydd o 4.65% o gymharu â phraesept 2021/22.

2.2 Nodi bod arbedion gwerth £0.755 miliwn wedi'u pennu ar gyfer 2022/23.

2.3 Nodi y bydd cynnydd pellach o 82 o Swyddogion yr Heddlu, y mae 78 ohonynt yn ganlyniad o ddyraniad Heddlu Gogledd Cymru o raglen y Llywodraeth i gynyddu niferoedd swyddogion yr heddlu (Ymgyrch Uplift). Yn ogystal, bydd Ymgyrch *Uplift* yn ariannu pedwar o swyddogion o Ogledd Cymru yn yr Uned Trosedd Cyfundrefnol Ranbarthol yn 2022/23.

2.4 Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y rhagdybiaethau canlynol:

- Bydd Treth y Cyngor yn cynyddu oddeutu 3.68% yn 2022/23, 3.79% yn 2023/24, 3.65% yn 2024/25, 3.52% yn 2025/26 a 3.40% yn 2026/27.
- Amcangyfrifir y bydd grantiau plismona'n cynyddu 1.13% yn 2023/24; 1.68% yn 2024/25 ac 1 % am y ddwy flynedd ganlynol.
- 3% fydd y dyfarniadau tâl blynyddol ym mis Medi 2022 a 2.5% bob mis Medi wedi hynny.
- Nodi y dyfarnwyd cynnydd yn y grant i gefnogi Ymgyrch *Uplift* (costau cylchol a chostau sefydlu) sydd wedi'i glustnodi ar gyfer y dibenion hynny; mae'r ymrwymadau hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb.

3. Crynodeb o Gyllideb 2021/22

	£miliwn	
Cyllideb 2021/22	<u>173.365</u>	
Gofynion chwyddiant	4.865	2.81%
Arbedion a bennwyd	-0.755	-0.44%
Ail-fuddsoddi a Thwf	1.660	0.96%
Costau <i>Uplift</i>	4.076	2.35%
Grantiau Penodol Ychwanegol	-1.314	-0.76%
Deg o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol	0.371	0.21%
Gofynion Cyllideb 2022/23	<u>182.268</u> 5.14%	
Amcangyfrif o gyfanswm cyllid 2022/23		
Grantiau'r Llywodraeth	88.407	5.65%
Treth y Cyngor	£316.80	3.68%
Wedi'i luosi â'r sylfaen drethu	296,279.19	0.94%
Praesept (cyfran cyllid 51.73%)	93.861	4.65%
Cyfanswm y cyllid ar gael	<u>182.268</u> 5.14%	

4. Eitemau Statudol

4.1 Safon y Wybodaeth

4.1.1 Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (Adran 5) mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid ddarparu sylwadau ynglŷn ag addasrwydd y wybodaeth a ddefnyddir yn sail i'r penderfyniadau ynghylch y gyllideb. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn cadarnhau bod y ffigyrau yn yr adroddiadau amrywiol yn deillio o weithdrefnau sy'n dal i gael eu gweithredu i'r safonau proffesiynol uchaf. Archwilir y systemau hyn yn fewnol ac yn allanol, ac nid yw archwiliad allanol erioed wedi arwain at adroddiad archwilio amodol. Felly, ym marn y Prif Swyddog Cyllid mae'r wybodaeth hon yn addas at y diben.

4.1.2 Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i'r Prif Swyddog Cyllid ddarparu sylwadau ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn i'w darparu yn y gyllideb. Ym marn y Prif Swyddog Cyllid mae'r gronfa gyffredinol wrth gefn yn dal yn ddigonol ar gyfer anghenion gweithredu beunyddiol yr Heddlu. Adolygwyd y cronfeydd wrth gefn a darperir rhagor o fanylion yn adran 9. Mae'r cronfeydd, fodd bynnag, bellach yn crebachu i ben isaf yr amrediad sy'n dderbyniol ac er mwyn cadw'r Gronfa Gyffredinol yn 3%, mae symiau ychwanegol cynlluniedig wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig y tro hwn. Er mwyn atal y cronfeydd rhag crebachu'n llai na'r lefelau darbodus, ac er mwyn lleihau effaith benthyciadau mewn blynyddoedd i ddod, mae'r Prif Swyddog Cyllid o'r farn bod yn rhaid cynyddu'r cronfeydd yn awr er mwyn lliniaru ar effaith y

gwariant arwyddocaol hwn yn y dyfodol; esbonnir hyn yn fwy helaeth yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolog.

5. Cefndir

5.1 Mae Rhaglen Caledi'r Llywodraeth, a ddechreuodd yn 2011, wedi arwain at doriadau sylweddol gydol y sector cyhoeddus. Mae cyllid y Llywodraeth wedi lleihau 21.4% mewn termau real (gan roi cyfrif am chwyddiant) erbyn 2022-23. Oherwydd effaith gyffredinol llai o gyllid a phwysau chwyddiant, yn ogystal â gwasgfydd eraill, bu £35.389 miliwn o doriadau mewn cyllidebau dros gyfnod o un mlynedd ar ddeg. Mae hyn yn gyfwerth â gostyngiad o 25.8% o gymharu â'r cyllidebau o £148.035 miliwn a ddyfarnwyd cyn caledi 2010-11. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru enw da am gyflawni arbedion cynlluniedig ac mae ganddo strategaeth ar gyfer craffu'n drylwyr ar arbedion cynlluniedig yn y flwyddyn cyn eu gweithredu. Dangosir y toriadau blynyddol yn y tabl isod:

	2011-16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	Cyfanswm
	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn
Arbedion Arian Parod a Gynlluniwyd	24.101	2.838	2.686	1.479	1.927	2.358	2.902	38.291
Arbedion a Gyflawnwyd	24.101	2.838	2.686	1.479	1.927	2.358	2.902	38.291
% yr arbedion a gyflawnwyd	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%

5.2 Cyn cyhoeddi setliad 2020-21, roedd gan y Llywodraeth bolisi yn ei le i gynyddu niferoedd Swyddogion yr Heddlu gan 20,000 (Ymgyrch *Uplift*) dros gyfnod o dair blynedd. Wrth gyhoeddi'r setliadau yn 2020-21 a 2021-22 neilltuwyd 12,000 o'r swyddogion ychwanegol hynny i Heddluoedd, gan gynnwys 124 i Heddlu Gogledd Cymru. Dyrannwyd yr 8,000 o swyddogion oedd yn weddill yn y setliad a gyhoeddwyd ar gyfer 2022-23 a chafodd Heddlu Gogledd Cymru 82 o swyddogion ychwanegol, gan ddod â'r cyfanswm i 206 (gan gynnwys saith o swyddogion a benodwyd i'r Uned Troseddu Difrifol a Chyfundrefnol Ranbarthol). Yn ogystal â'r rhain, ariannwyd deg ar hugain o swyddogion eraill gan y praesept yn 2020-21, gan olygu y bu cynnydd o 236 dros dair blynedd.

5.3 Wrth ddarparu cyllid ychwanegol ers 2020/21, canolbwyntiwyd ar Ymgyrch *Uplift*. Derbyniwyd grant ychwanegol er mwyn cynyddu nifer y swyddogion, ond mae gwerth y grant sylfaenol mewn arian parod wedi aros fwy neu lai'r un fath (gostyngiad mewn termau real) gan arwain at wasgfydd ar gyllidebau mewn meysydd eraill. Dosraniad terfynol y niferoedd a'r cyllid sy'n sail ar gyfer y cynllun o ran faint o'r gyllideb y mae angen ei neilltuo er mwyn ariannu costau cyflogau'r swyddogion yn y dyfodol, a faint y gellir ei neilltuo ar gyfer costau cynnal.

5.4 Ers dechrau 2020 mae'r Deyrnas Gyfunol wedi bod dan gysgod y pandemig COVID byd-eang. Oherwydd hynny bu'r cyd-destun yn ansicr iawn wrth lunio cynlluniau ariannol ar gyfer 2022-

23 ymlaen. Cyn y pandemig COVID, bu disgwyl adolygiad o wariant tair blynedd yn ogystal â chyhoeddiad cynnar ynglŷn â'r niferoedd i ddod yn y dyfodol drwy Ymgyrch *Uplift*. Penderfynwyd, fodd bynnag, y byddai setliad y llynedd yn un am flwyddyn yn unig, a gwnaed y cyhoeddiadau ynghylch Ymgyrch *Uplift* ar yr un pryd, ac am yr un cyfnod byrrach. Roedd y cyhoeddiad ar gyfer 2022-23 yn cynnwys ffigyrau dangosol ar gyfer tair blynedd yn ogystal â niferoedd a chyllid terfynol *Uplift*. Derbyniwyd y rhain ddiwedd Rhagfyr 2021, ac er y gallent newid, maent o fudd wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Erys ansicrwydd ynghylch nifer o'r tybiaethau ynglŷn â'r dyfodol, yn enwedig felly gyda chodiadau cyflog a chwyddiant. Gwnaed tybiaethau darbodus ar sail y wybodaeth oedd ar gael ym mis Rhagfyr 2021.

6. Y Drefn Gynllunio

- 6.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) ynghlwm yn gosod y cyd-destun cynllunio. Mae'n cynnwys ffigyrau'r blynyddoedd diwethaf, ynghyd â rhagamcanion ar gyfer gwariant ac incwm referniw a chynlluniau ar gyfer cyfalaf a chronfeydd wrth gefn.
- 6.2 Diben pennaf y drefn gynllunio yw blaenoriaethu adnoddau er mwyn cysoni'r cynlluniau gwario â blaenoriaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a gweledigaeth y Prif Gwnstabl fel y'u nodir yn y Strategaeth Ariannol (Atodiad A o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig). Nodir y blaenoriaethau hynny isod a manylir yn eu cylch yng [Nghynllun Heddlu a Throsedd 2021](#).

Blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd

- Darparu cymdogaethau mwy diogel
 - Mynd i'r afael â throseddau cefn gwlad a bywyd gwyllt a'u hatal
 - Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd swyddogion a staff yr heddlu
 - Gwella diogelwch ffyrdd
- Cefnogi dioddefwyr a chymunedau
 - Mynd i'r afael â chamdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol a'u hatal
 - Diogelu pobl ddiameddiffyn, gan gynnwys plant
 - Mynd i'r afael â seiberdroseddu a'i atal
 - Sefydlu panel dioddefwyr
 - Mynd i'r afael â throseddau casineb a'u hatal
- System Cyfiawnder Troseddol deg ac effeithiol
 - Cyflwyno Strategaeth Troseddwyr Benywaidd Gogledd Cymru.
 - Defnyddio mwy o Gyfiawnder Adferol
 - Cefnogi a diogelu plant a phobl ifanc a'u dargyfeirio rhag cael eu tynnu i mewn i'r System Cyfiawnder Troseddol
 - Mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi troseddu a rhoi cefnogaeth i adsefydlu pobl sydd wedi troseddu

Gweledigaeth y Prif Gwnstabl yw

Sicrhau mai gogledd Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn y Deyrnas Gyfunol; trwy Atal Trosedd, Diogelu Cymunedau a Dal troseddwyr.

- 6.3 Adolygwyd y drefn gynllunio ar gyfer 2022-23 gan yr Uned Cynllunio Strategol, Cyllid, Uwch-arweinwyr a'r Prif Swyddogion. Aseswyd nifer o risgiau, gan gynnwys absenoldeb unigolion allweddol oherwydd COVID; effaith COVID ei hun; cynllun y sefydliad ar gyfer adfer wedi COVID; a'r gofyniad i adolygu'r galw a phennu'r gyllideb. Roedd y drefn ar gyfer 2021-22 yn seiliedig ar Gynlluniau Busnes yr holl arweinwyr Gweithrediadau a Gwasanaethau (fel deiliaid cyllideb cyfredol) gydag angen am Achosion Busnes ychwanegol, wedi'u targedu yn ôl y galw a'u cytuno fel meysydd ychwanegol i'w hystyried wrth ddechrau'r broses. Gweithiodd hynny'n dda wrth lunio cyllideb 2021-22 ac felly dilynwyd proses debyg. Arweiniodd y dull Corfforaethol o hwyluso craffu gan gymheiriaid yn gynnar at gynllun â chefnogaeth lwyr a gaiff ei weithredu yn y deuddeg i ddeunaw mis nesaf.
- 6.4 Cyflwynwyd y cynlluniau busnes ar gyfer pob maes ar sail templed â'r penawdau canlynol, gyda phob adran yn cynnwys cyfres o gwestiynau strwythuredig:
- Perfformiad yn ôl amcanion
 - Cyllid yn ôl cyllidebau
 - Y galw a'r galw a ragwelir
 - Capasiti a Galluogrwydd
 - Lles
 - Ymateb Maes Gwasanaeth
 - Galw Gweddilliol
 - Rhyngddibyniaethau
 - Arbedion
- 6.5 Ystyriwyd meysydd penodol eraill fel y nodir isod:
- Cyfleusterau a TG yn cysylltu â gweithio hyblyg
 - Adolygu'r Fflyd
 - Rhaglen Ddigidol
 - Cymysgedd Swyddogion/Staff
 - Adolygu Cyllidebau Corfforaethol
- 6.6 Bu'n rhaid ymdrin â materion ymarferol hefyd wrth gynnal cyfarfodydd, ac roedd angen cynnal y rheiny ar-lein oherwydd Covid-19. Dechreuodd hynny'n gynnar; ym mis Mai 2021. Drwy osod y ffiniau o'r cychwyn a chynnal Cyfarfodydd Cynllunio Sefydliadol gydol y broses (bob wythnos neu bythefnos yn ôl y gofyn) bu modd dilyn yr amserlen a gynlluniwyd a chyflwyno cynigion pendant i'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2021.
- 6.7 Ar yr un pryd cynhaliwyd y drefn arferol ar gyfer datblygu gofynion cyllidebau'r dyfodol, ac mae'r manylion i'w gweld yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Wrth i'r rheolwyr ddatblygu eu cynigion buont yn ystyried y materion canlynol:

- Blaenoriaethau Lleol a Chenedlaethol fel y'u pennwyd yn y Cynllun Heddlu a Throsedd a Gweledigaeth yr Heddlu
- Gwasgfydd newydd a rhai sy'n datblygu
- Y drefn gynllunio strategol
- Datganiad Rheoli'r Heddlu
- Strategaethau eraill yr Heddlu
- Yr hinsawdd economaidd sydd ohoni
- Amcangyfrifon o'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Rhagolygon cyllidebol am y cyfnod, gan gynnwys codiadau cyflog
- Y sefyllfa ariannol sydd ohoni
- Y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf, y Cod Darbodus a'u heffaith ar y Gyllideb Refeniw
- Cronfeydd wrth gefn a Balansau
- Creu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
- Cydweithio
- Cynllun Adfer COVID.

6.8 Cynhaliwyd dau gyfarfod gyda thîm y Prif Swyddog i gadarnhau canlyniad y drefn gynllunio. Ar sail hynny bu bodd neilltuo'r adnoddau hysbys a oedd ar gael i flaenoriaethau, a dyrannu'r Swyddogion ychwanegol yn nhrydydd cam yr Ymgyrch *Uplift*. Trafodwyd y canlyniad drachefn yn y cyfarfod blynyddol i Osod y Gyllideb gydag Arweinwyr Gwasanaethau ac eraill, a chyfunwyd argymhelliad y Grŵp Cynllunio Sefydliadol, gan gynnwys Cynlluniau Arbedion a'r holl elfennau eraill, wrth lunio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn. Hwnnw wedyn oedd sail y cynnig a gyflwynwyd i'r Comisiynydd a'i dîm.

6.9 Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'u cynrychiolwyr ar 7 Rhagfyr 2021 i drafod cynigion y gyllideb. Cynhaliwyd y cyfarfod terfynol ar 21 Rhagfyr at ôl cyhoeddiad y Llywodraeth ynglŷn â'r setliad.

7. Dyraniadau Cyllid

7.1 Ni roes y Llywodraeth Ddyraniadau Cyllid Dros Dro ar gyfer 2022-23 fel rhan o setliad 2021-22. Mewn cyhoeddiadau yn 2021-22 cadarnhaodd y Llywodraeth ei ymrwymiad i Ymgyrch *Uplift* a chynyddu niferoedd Swyddogion Heddlu gan 20,000 yn genedlaethol. Nid oedd y niferoedd a ddyrannwyd i'r Heddluoedd na'r cyllid cysylltiedig, fodd bynnag, yn hysbys nes y cyhoeddiad ym mis Rhagfyr 2021.

7.2 Ar 27 Hydref 2021, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys, Rishi Sunak AS, ganlyniadau'r adolygiad cynhwysfawr o wariant yn 2021 (SR2021). Cyfeirir ato weithiau fel y 'Cylch Gwario', ac mae'n nodi cyfansymiau gwariant cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 hyd 2024-25. Roedd y cyhoeddiad yn cynnwys cyfansymiau gwariant Adrannau'r Llywodraeth ond nid y dyraniadau i Heddluoedd. Yn Natganiad yr Hydref cyhoeddwyd hefyd y byddai'r cynnydd cyflog blynyddol ar sail chwyddiant i Swyddogion a Staff yr Heddlu yn ailddechrau yn 2022-23. Ymrwymodd y Llywodraeth unwaith eto i gynyddu niferoedd swyddogion drwy *Uplift* a darparu cyllid ychwanegol ar gyfer hynny (er na neilltuwyd unrhyw arian i Heddluoedd) a dangoswyd rhywfaint o gynnydd yng nghyllid y Swyddfa Gartref yn 2023-24 a 2024-25.

Defnyddiwyd y wybodaeth yn y cyhoeddiad wrth i'r rhaglen gynllunio ddirwyn ar ei therfyn, ac amcangyfrifwyd ar sail hynny y byddai Heddlu Gogledd Cymru'n cael 62 o Swyddogion *Uplift* a chyllid o £4.125 miliwn.

- 7.3 Cyhoeddwyd y Setliad dros dro ar gyfer 2021-22 ar 16 Rhagfyr mewn datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Plismona, Kit Malthouse. Cyn cyhoeddi'r setliad, roedd y sector yn disgwyl y byddai'r cyllid *Uplift* ychwanegol ar gyfer recriwtio 8,000 o swyddogion (tuag at gyfanswm o 20,000) yn parhau. Mewn cyfarfod yn dilyn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, roedd Kit Malthouse wedi cadarnhau y byddai yno £550 miliwn yn ychwanegol ar gyfer plismona yn 2022-23, £650 miliwn yn 2023-24 ac £800 miliwn erbyn 2024-25. Pan gynhaliwyd yr adolygiad o wariant nid oedd yn hysbys sut dosrennid yr arian dan sylw ond awgrymwyd y byddai hyn, ar ben y cyllid *Uplift* ychwanegol, yn rhoi digon o adnoddau i heddluoedd fedru ariannu codiadau cyflog wrth i'r drefn o rewi cyflogau yn y sector cyhoeddus ddod i ben a thalu costau ychwanegol yr ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd (£1 miliwn a mwy i Heddlu Gogledd Cymru).
- 7.4 Rhoddwyd elfen o'r cyllid *Uplift* o'r neilltu ar ffurf grant penodol yn seiliedig ar recriwtio mwy o swyddogion. Roedd y Datganiad gan y Gweinidog yn nodi y byddai'r Comisiynwyr yn medru elwa ar gyfanswm o £774 miliwn yn ychwanegol gan dybio yr hawlir y praesept yn llawn. Cadarnhawyd y pennid uchafswm o £10 i bob Comisiynydd yn refferenda'r dreth gyngor yn Lloegr, ond mae'r rheolau'n wahanol yng Nghymru ac felly ni phennwyd terfyn o'r fath yma. Mae'r Grant Pensiynau yn parhau am flwyddyn arall fel grant penodol.
- 7.5 Mae'r pwyntiau isod yn crynhoi'r disgwyliadau yn dilyn Datganiad yr Hydref a'r cyhoeddiad terfynol. Roedd y setliad yn well na'r disgwyl, gan gynnwys dyraniad mwy drwy Ymgyrch *Uplift* (oherwydd bod y dyraniadau cenedlaethol yn llai na'r disgwyl) a mwy o gyllid yn 2022-23. Gyda mwy o swyddogion, fodd bynnag, daw costau ychwanegol a fydd yn cynyddu mewn blynyddoedd i ddod wrth i gyflogau swyddogion gynyddu yn ôl cynyddrannau a chodiadau cyflog blynyddol. Bwriedir i'r cyllid a ddarperir dalu'r holl gostau, gan gynnwys yr ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol, costau sefydlu *Uplift* a'i gynnal yn y dyfodol, a chwyddiant yng nghydestun cyflogau yn ogystal â chostau eraill. Mae'n rhaid ariannu unrhyw ddiffyg drwy ddefnyddio arbedion neu gynyddu'r praesept.

Bu cynnydd o £5.092 miliwn (5.9%) yn y cyllid craidd, gan gynnwys *Uplift* (o gymharu â'r amcangyfrif o £4.125 miliwn).

Cyllid ychwanegol o £0.287 miliwn ar gyfer y Grant Prentisiaeth

Newidiodd niferoedd *Uplift* o 54 Heddlu Gogledd Cymru + 8 Uned Trosedd Cyfundrefnol Ranbarthol fel yr amcangyfrifwyd i 78 HGC + 4 UTCR gan roi cyfanswm o 82 ac arwain at gostau ychwanegol.


Mae arian i dalu'r Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol (£1 miliwn) wedi'i gynnwys yn y cyllid craidd.

Nid oes Grant Cyfalaf wedi'i gynnwys, ac amcangyfrifir y byddai hwnnw'n £0.123 miliwn ar sail 21-22, ac felly mae angen cynyddu'r cyfraniad refeniw i ariannu'r diffyg.

Bydd codiadau cyflog yn ailddechrau yn 2022-23.

Ar sail ffigwr tybiedig o 1.1% (£1 miliwn) yn 23-24 ac 1.6% (£1.5 miliwn) o gynnydd yn y grant, ni fydd hynny'n talu am chwyddiant a chynyddrannau.

- 7.6 Cynyddodd y brigdoriant, sef y swm mae'r Swyddfa Gartref yn ei gadw ar gyfer gwariant canolog ar faterion Heddlu yn hytrach na'i ddyrannu i'r Heddluoedd, o £1,034 miliwn yn 2021-22 i £1,374 miliwn yn 2022-23, sef cynnydd o £0.340 miliwn. Mae a wnelo'r cynnydd â Rhaglenni Technoleg yr Heddlu a rhaglenni newydd fel Perfformiad yr Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol, Rhaglenni Gostwng Troseddu, Galluoedd Gostwng Troseddu, Adolygiad o Dreisio, Cyffuriau / Llinellau Cyffuriau, Ailddyrannu Cyfalaf a Thwyll. Pe dyrennid hyn oll i Heddlu Gogledd Cymru ar sail y fformiwla ariannu byddai'n gyfwerth â £13.75 miliwn yn ychwanegol.
- 7.7 Mae'r cynnydd yn nifer y swyddogion a ddyrennir drwy *Uplift* yn golygu y dyrennir cyfanswm o 206 o swyddogion i Heddlu Gogledd Cymru (gan gynnwys yr elfen ranbarthol) dros dair blynedd. Mae'r cynnydd yn y cyllid a ddarperir rhwng 2020-21 a 2022-23 yn ddigonol i dalu costau cyfredol y swyddogion ychwanegol a rhan helaeth o'r costau cynnal. Gellir hefyd defnyddio'r arian a neilltuwyd ym mlynnyddoedd 1 a 2 i dalu costau sefydlu. Mae'r gost fesul swyddog, fodd bynnag, yn cynyddu £23,000 y flwyddyn dros chwe blynedd ac mae'n rhaid rhoi cyfrif am hynny wrth bennu costau'r dyfodol. Wrth benderfynu sut i ddefnyddio'r cyllid a dderbyniwyd mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng yr hyn y gellir ei wario'n awr i gynyddu nifer staff a thalu costau cynnal ar gyfer swyddogion ychwanegol, a pha faint y mae'n rhaid ei roi o'r neilltu i dalu costau yn y dyfodol.
- 7.8 Mae'r graff isod yn dangos y cynnydd blyneddol yng nghostau cyflogau'r swyddogion *Uplift* oherwydd cynyddrannau. Y swm cronnus sy'n deillio o hyn yw £2.8 miliwn, sy'n gyfran arwyddocaol o'r arbedion sydd angen eu cyflawni yn 2025-26 a 2026-27.



8. Cyllideb 2022-23 a Chyllideb Gynlluniedig 2023-24 i 2026-27

8.1 Mae manylion y Gyllideb a'r newidiadau ar gyfer 2022-27 a'r blynyddoedd a ganlyn i'w gweld yn Atodiad A.

8.2 Dyma'r prif ragdybiaethau:

- Chwyddiant cyflogau blynyddol o 3% i'w weithredu rhwng mis Medi 2022 a mis Awst 2023, a chynnydd blynyddol o 2.5% o fis Medi 2023 ymlaen.
- Chwyddiant cyffredinol o 2%, chwyddiant penodol lle bo'n angenrheidiol. Yn 2022-23 mae hynny'n cynnwys Ynni, Tanwydd, Yswiriant a thaliadau Pensiwn uniongyrchol.
- Treth y Cyngor yn cynyddu 3.68% yn 2022-23 (£11.25) a £12 y flwyddyn yn y blynyddoedd dilynol sydd gyfystyr â 3.79% yn 2023-24, 3.65% yn 2024-25, 3.52% yn 2025-26 a 3.40% yn 2026-27.
- Grantiau Cyffredinol y Llywodraeth yn cynyddu 5.65% yn 2022-23, 1.13% yn 2023-24; 1.68% yn 2024-25 ac 1% yn y ddwy flynedd a ganlyn.

- Bod y grant sylfaenol yn cyfrannu at *Uplift* a phob cynnydd arall (hynny yw, na fydd unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer yr ardoll lechyd a Gofal Cymdeithasol neu chwyddiant cyflogau).
- Bod y Grant Cyfalaf (£0.123 miliwn yn 2021-22) wedi'i ddiddymu a bod yn rhaid defnyddio'r grant cyffredinol i ariannu'r diffyg.
- Cynnydd o 0.25% yn y sylfaen drethu o 2023-24 ymlaen.
- Mae cost flynyddol o £1.329 miliwn wedi'i chynnwys ar gyfer Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys o 2023-24 a datblygir cronfa wrth gefn yn y cyfamser. Ar sail yr amcangyfrifon presennol a'r dyddiadau gweithredu, mae'r cynllun bellach yn ariannu'r cyfraniad at Rwydwaith y Gwasanaethau Brys.
- Cyfraniadau i'r Gronfa wrth Gefn Cyffredinol er mwyn sicrhau nad yw'r balans yn gostwng islaw'r lefel ofynnol sef 3% o werth y Gyllideb Net.
- Mae grantiau penodol ychwanegol wedi'u cynnwys ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, y Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona, a chostau sydd a wnelont â diogelwch y wlad.

Mae hyn yn rhoi'r sefyllfa a ganlyn:

	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb
	Flynyddol	Flynyddol	Flynyddol	Flynyddol	Flynyddol
	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwaelodlin	173,365	182,268	187,067	192,384	198,500
Chwyddiant	1,475	4,432	4,732	5,010	5,045
Strwythurol sefydlog	2,315	126	133	140	146
Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1,075	27	28	29	29
<i>Uplift</i>	4,076	214	424	937	1,062
Twf	1,660	0	0	0	0
Arbedion Effeithlonrwydd	-755	0	0	0	0
Arian ychwanegol o grantiau penodol	-1,314	0	0	0	0
Twf ychwanegol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu	371	0	0	0	0
Gofyniad Cyllidebol	182,268	187,067	192,384	198,500	204,782
Cyfanswm grantiau	-88,407	-89,407	-90,907	-91,816	-92,735
Praesept o Dreth y Cyngor	-93,861	-97,660	-101,477	-105,313	-109,168
Cyfanswm	-182,268	-187,067	-192,384	-197,129	-201,903
Balans Blynnyddol	0	0	0	1,371	1,508
Balans cronrus	0	0	0	1,371	2,879
% y cynnydd yn Nhreth y Cyngor	3.68%	3.79%	3.65%	3.52%	3.40%
Cynnydd Treth y Cyngor mewn £	11.25	12	12	12	12

8.3 Roedd y cylch cynllunio'n canolbwyntio ar neilltuo adnoddau i flaenoriaethau wrth osod cyllideb gytbwys a darparu gwerth am arian i drethdalwyr lleol dros y tymor canolig fel y nodwyd yn y Strategaeth Ariannol. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a nodwyd, yr allbynnau a'r materion penodol yr ymdriniwyd â hwy fel rhan o'r gylchred oedd

- Chwyddiant a chynyddiadau anochel 2022-23 a rhagdybiaethau'r dyfodol
- Cynnwys yr Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Dyrannu 82 o Swyddogion *Uplift* ar gyfer 2022-23 ac amcangyfrif o gostau yn y dyfodol
- Arbedion ac arbedion effeithlonrwydd y gellir eu cyflawni yn 2022-23
- Meysydd blaenoriaeth sydd angen buddsoddiad yn 2022-23
- Amcangyfrif cyllid a chostau yn y dyfodol
- Amcangyfrif o'r gofynion cyfalaf yn y dyfodol, gan gynnwys Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys

- Amcangyfrif o'r cronfeydd wrth gefn i gefnogi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gwneud y defnydd gorau ohonynt.

8.4 Cododd llawer o gostau ar sail chwyddiant a chostau anochel eraill (a oedd hefyd i bob pwrpas yn gostau chwyddiant) ac ymdriniwyd â'r rheiny yn ystod y drefn gynllunio. Mae codiad cyflog amcangyfrifedig o 3% wedi'i gynnwys o fis Medi 2023 ymlaen, sy'n gyson â'r trafodaethau cenedlaethol diweddaraf. Nodwyd ffigwr o 2% ar gyfer chwyddiant cyffredinol ond adolygwyd pob maes er mwyn asesu a fyddai hynny'n ddigonol. Nodwyd symiau ychwanegol ar gyfer costau Ystadau ac Ynni, Tanwydd, Yswiriant a Phensiynau Anafiadau, gan ystyried sefyllfa'r gyllideb yn y flwyddyn gyfredol. Mae costau TG yn cynyddu uwchlaw'r sylfaen chwyddiant o 2%, ond hefyd bu cynnydd yn nifer y trwyddedau sydd eu hangen ar gyfer meddalwedd cyffredinol a chostau storio oherwydd swm y data. Cynhwyswyd cost ychwanegol Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys y llynedd ac mae'r gost wedi'i chydgrynhai yn y waelodlin. Gwnaed iawn am diddymu'r Grant Cyfalaf drwy gynyddu'r cyfraniad refeniw. Ac yn olaf, mae'r ardoll lechyd a Gofal Cymdeithasol yn dreth ychwanegol ar y cyflogwr. Gweler y dadansoddiad isod:

Costau Strwythurol Sefydlog	£'000	Eglurhad
Chwyddiant	1,475	Chwyddiant cyflogau a chostau eraill ar sail codiad 3% ym mis Medi 2023 a chwyddiant cyffredinol o 2%.
Chwyddiant penodol ychwanegol ym meysydd Ystadau/Ynni, Tanwydd, Yswiriant a Phensiynau Anafiadau	440	Disgwylir cynnydd uwchlaw lefel chwyddiant yn 2022-23 ar sail yr hyn a ddaeth i'r amlwg yn y drefn gynllunio.
Costau TGCh yn cynyddu	787	Ar sail ffigyrau sy'n uwch na lefel chwyddiant yn ogystal â chynnydd yn y galw oherwydd <i>Uplift</i> a thwf mewn meysydd eraill yn y tair blynedd diwethaf.
Trefniadau Cydweithio Cenedlaethol a Rhanbarthol	251	Costau trefniadau newydd a chynnydd yng nghostau trefniadau presennol.
Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys	714	Wedi'i gynnwys fel rhan o Gynllun Ariannol Tymor Canolig y llynedd a'i gydgrynhai yn y gyllideb.
Cyfraniad Refeniw i wneud iawn am gwtogi ar y Grant Cyfalaf	123	Diddymwyd y Grant Cyfalaf. Pe byddai'r cyfraniad refeniw heb gynyddu byddai'r rhaglen bum mlynedd ar ei cholled o £123,000 x 5 = £615,000.

Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1,075	Cyflwynodd y Canghellor dreth ychwanegol ar gyflogwyr yn Natganiad yr Hydref a dyma'r gost i Heddlu Gogledd Cymru.
Cyfanswm costau sefydlog	4,865	

- 8.5 Ar sail y cyhoeddiadau a wnaed hyd yn hyn, roedd Heddlu Gogledd Cymru yn disgwyl y dyrennid cyfanswm o 186 o Swyddogion ychwanegol trwy Ymgyrch *Uplift*. Dyrannwyd 124 o'r rheiny yn y ddwy drefn gynllunio flaenorol gyda'r disgwyl y dyrennid 62 arall yn 2022-23. Tybiwyd bob amser y gallai'r ffigwr amrywio ar sail nifer y swyddogion a ddyrennid yn uniongyrchol i unedau cenedlaethol neu ranbarthol.
- 8.6 Lluniwyd y cynllun recriwtio ar sail ffigwr uwch o 78 ar gyfer 2022-23 gan y byddai'n haws lleihau graddfa'r cynllun yn hytrach na'i gynyddu. Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 y dyrennid 78 o swyddogion i Heddlu Gogledd Cymru yn ogystal â phedwar o swyddogion eraill fel cyfraniad Heddlu Gogledd Cymru at unedau rhanbarthol. Bydd recriwtio'n her ond disgwylir cyflawni'r targed *Uplift* erbyn mis Ionawr 2023 a bwriedir cynnal cylch recriwtio arall ym mis Mawrth 2023. Mae yno oedi rhwng recriwtio swyddogion newydd a'r adeg pan maent ar gael i'w penodi yn lle swyddogion profiadol. Cedwir yr oediad cyn lleied â phosib ond nid oes modd ei osgoi'n llwyr. Mae pwysau hefyd ar yr unedau tiwtora gan fod mwy o swyddogion nag erioed yn derbyn hyfforddiant a bod angen adnoddau ychwanegol i dalu am hynny. Unwaith y bydd nifer y swyddogion ym mlwyddyn gyntaf eu cyfnodau prawf yn dychwelyd i'r lefel arferol (54 ar unrhyw adeg benodol, yn hytrach na thua 100 fel ar hyn o bryd) gellir ailddyrrannu'r 17 o swyddi ymatebol dros dro fel rhan o'r drefn gynllunio'r flwyddyn nesaf. Yn y cyfamser bydd yr holl swyddogion ar brawf a thiworiaid yn gweithio ar strydoedd gogledd Cymru'n cefnogi'r Swyddogion Ymateb. Dyma grynnodeb o'r dyraniadau:

Maes Gwasanaeth	Dyranïad	Eglurhad
Gwasanaeth Plismona Lleol	57	28 o Ymatebwyr Rheng Flaen 11 o Diwtoriaid 1 Ditectif Arolygydd yn y Gorllewin 17 o Swyddogion Ymateb dros dro i gynorthwyo â recriwtio a hyfforddi, i'w hailddyrannu ar ôl iddynt gwblhau blwyddyn gyntaf eu hyfforddiant.
Gwasanaethau Trosedd	16	10 yn yr Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn 6 mewn Unedau Ymchwilio Arbenigol
Cymorth Gweithredol	2	2 o Gwnstabiliaid Dronau
Gwasanaeth Corfforaethol	1	Hwyluso Archwiliad yr Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub
Safonau Proffesiynol	2	I hyrwyddo a rheoli safonau
Cyfraniad Rhanbarthol	4	Cyfraniad Heddlu Gogledd Cymru at ymchwiliadau rhanbarthol, trawsffiniol
Cyfanswm	82	

8.7 Bu cronfa wrth gefn ar gyfer *Uplift* am y ddwy flynedd diwethaf nes cadarnhawyd y cyllid terfynol. Disgwylir y bydd tua £3 miliwn yn dal ar gael ddiwedd y flwyddyn nesaf. Defnyddir yr arian hwnnw i fynd uwchlaw'r targed *Uplift* a phenodi swyddogion i'r swyddi sydd wedi'u cynllunio; bydd hefyd yn gwneud iawn am unrhyw leihad annisgwyl yn y niferoedd a gaiff eu recriwtio, neu swyddogion ychwanegol yn gadael.

8.8 I hwyluso penodi'r Swyddogion *Uplift* ychwanegol ac er mwyn bodloni'r galw, cytunwyd ar 41 o swyddi staff newydd. Cyfanswm y costau staff a chostau eraill yw £1.660 miliwn, sy'n cynnwys £20,000 yn ychwanegol ar gyfer profion cyffuriau ar ochr y ffordd a £56,000 ar gyfer

Swyddfa'r Comisiynydd (i dalu cyfraniadau cenedlaethol yn bennaf). Manylir ynghylch y swyddi ychwanegol isod:

Maes Gwasanaeth	Dyranriad	Eglurhad
Gwasanaethau Trosedd	9	Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn a chefnogi swyddi arbenigol
Cymorth Gweithredol	21	10 ar y Ddesg Ddigidol 10 yn y Gwasanaethau Cyfiawnder 1 Ymchwilydd Plismona'r Ffyrdd
Gwasanaeth Corfforaethol	9	4 mewn Gwybodaeth Busnes 4 mewn Hyfforddiant a Recriwtio 1 Swyddog Cymorth
Safonau Proffesiynol	1	Swyddog Dysgu ac Atal
Cyllid ac Adnoddau	1	Cymorth Cyllid
Cyfanswm	41	

8.9 Aseswyd arbedion effeithlonrwydd fel rhan o'r drefn. Wedi nodi a chyflawni £2.9 miliwn mewn arbedion yn 2021-22 a £35.4 miliwn yn y deng mlynedd cyn hynny, rhagwelwyd y byddai'n anodd gwneud ychwaneg o arbedion effeithlonrwydd ac y byddai angen asesu a fyddai unrhyw arbedion yn lleihau'r gwasanaeth a ddarperid a'u hystyried ochr yn ochr â chynigion i ail-fuddsoddi. Gofynnwyd i bob maes gwasanaeth gyflwyno cynigion i arbed £1.7 miliwn ar gyfer ail-fuddsoddi, yn ogystal â £1.7 miliwn arall wrth gefn i wneud iawn am unrhyw leihad annisgwyl yn y cyllid. Derbyniwyd cynigion i gyflawni'r arbedion hynny a chraffwyd arnynt. Bu'n rhaid gweithredu'r arbedion wrth gefn eleni. Aseswyd yr arbedion ail-fuddsoddi a chanfuwyd fod gwerth £0.755 miliwn ohonynt yn arbedion effeithlonrwydd go iawn y gellid

eu cyflawni yn y flwyddyn, a manylir yn eu cylch isod. Mae rhai o'r cynlluniau nas gweithredwyd yn 2022-23 yn fwy hirdymor ac fe'u datblygir yn y flwyddyn nesaf.

Categori	Arbedion a Bennwyd
	£'000
Arbedion canolog ar brosiectau	483
Swyddi Staff (yn wag heb fwriad i'w llenwi)	80
Arbedion mewn meysydd gwasanaeth nad oes a wnelont â staff	192
Cyfanswm	755

8.10 Yn ystod y flwyddyn cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol ar gyfer ugain yn ychwaneg o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a gaiff eu recriwtio yn ystod 2021-22; mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y ffigurau sylfaenol. Wedi trafod hyn â'r Prif Gwnstabl penderfynodd y Comisiynydd ariannu deg yn ychwaneg o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu drwy gynnydd yn Nhreth y Cyngor fel y byddai cyfanswm o ddeg ar hugain o swyddogion ychwanegol. Bydd hyn i raddau'n gwneud iawn am gwtogi ar niferoedd yn ystod y cyfnod o lymder. Er mwyn bwrw ymlaen â hyn mae angen cynnydd ychwanegol o £1.25 yn Nhreth y Cyngor.

8.11 Mae'r cynllun sydd wedi'i grynhoi uchod yn gosod y sylfaen ar gyfer blynyddoedd i ddod: penodi'r holl swyddogion ychwanegol drwy ymgyrch *Uplift*, cefnogaeth ar gyfer mwy na dau gant o swyddogion ychwanegol, a buddsoddi mewn gwasanaethau digidol a chostau eraill nad oes a wnelont â staff. O ganlyniad i gyllidebu darbodus a chyflawni arbedion yn y blynyddoedd aeth heibio cynlluniwyd cyllideb gytbwys ar gyfer y tair blynedd nesaf, gyda gofyn i arbed £2.879 miliwn (sy'n gyfwerth ag 1.6% o gyllideb net 2022-23) yn nwy flynedd olaf y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Eir ati i ganfod arbedion effeithlonrwydd ar gyfer ail-fuddsoddi yn ystod y cylch cynllunio nesaf. Dengys y siartiau isod sut fwriedir buddsoddi'n unol â blaenoriaethau'r Comisiynydd:

Delivering Safer Neighbourhoods



Supporting Victims & Communities



Fair and Effective Criminal Justice System



9. Cadernid a Chronfeydd Wrth Gefn

- 9.1 Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynydd i sicrhau bod ganddo gronfeydd wrth gefn digonol i reoli risgiau. Yn ogystal â'r risgiau ariannu a'r rhagolygon uchod, mae'n rhaid i'r Comisiynydd baratoi ar gyfer risg gwariant (gwario mwy na'r gyllideb), yn ogystal â digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld, megis digwyddiadau mawr costus, trychinebau naturiol neu ddigwyddiadau eraill nad oes modd eu rhagweld. Rheolir elfen o'r risg drwy'r cyllidebau yn ystod y flwyddyn a defnyddio'r cyllidebau arian at raid. Mae'r cyllidebau arian at raid yn lleihau, fodd bynnag, ac mae cyfran uwch o'r risg honno wedi'i throsglwyddo i'r Cronfeydd wrth Gefn.
- 9.2 Adolygir y cronfeydd wrth gefn fel rhan o'r broses gyllidebol ac eto wrth gynhyrchu Datganiad Cyfrifon ddiwedd y flwyddyn ariannol, pan fydd y sefyllfa derfynol yn hysbys.
- 9.3 Bwriedir lleihau'r cronfeydd wrth gefn o £32.931 miliwn i £20.899 miliwn dros y deng mlynedd nesaf. Disgrifir pob cronfa wrth gefn ym mharagraff 9.6.
- 9.4 Credir ei bod yn ddoeth cynnal Cronfa Gyffredinol wrth Gefn rhwng 3% a 5% o wariant referniw net. Gan fod y rhain yn gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i liniaru ar risgiau, mae'r Gronfa

Gyffredinol wrth Gefn wedi'i chynnal fymryn uwchben 3%. Wrth i'r gwariant refeniw net gynyddu, fodd bynnag, mae'n hanfodol cynnwys y Gronfa Gyffredinol wrth Gefn i gynnal balans o 3%, mae hyn wedi'i gynnwys yng nghynlluniau'r dyfodol ac wedi'i adlewyrchu yn y crynodeb isod:

Sefyllfa Cronfeydd wrth Gefn	Balans 31.3.21	Balans 31.3.22	Balans 31.3.23	Balans 31.3.24	Balans 31.3.25	Balans 31.3.26	Balans 31.3.27	Balans 31.3.28	Balans 31.3.29	Balans 31.3.30
<i>Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar</i>	Balans £miliwn									
Balans y Gronfa Gyffredinol	5.417	5.531	5.645	5.759	5.873	5.987	6.105	6.225	6.347	6.469
Cronfa Gyffredinol wrth Gefn wedi'i Chlustnodi	25.461	24.488	18.376	15.641	14.238	13.190	12.667	12.163	11.620	11.620
Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	2.084	3.423	3.607	3.737	3.362	3.262	3.162	3.062	2.962	2.862
Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu defnyddio	32.961	33.442	27.628	25.137	23.473	22.439	21.934	21.450	20.929	20.951

9.5 Manyir ynghylch pob cronfa wrth gefn wedi'u chlustnodi yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig gan gynnwys disgrifiad o'r modd y rhagwelir eu defnyddio.


10. Cyfalaf

10.1 Mae angen buddsoddiad parhaus mewn asedau ac isadeiledd y Comisiynydd er mwyn sicrhau amgylchedd gwaith effeithlon a chyfoes. Datblygwyd Strategaethau ar gyfer Ystadau, TG a Fflyd yn ystod 2019-20 a chytunwyd ar Raglen Gyfalaf newydd yn 2020-21. Bu'n rhaid diwygio'r Rhaglen a gynlluniwyd oherwydd gweithredu Ymgyrch *Uplift*, adolygu'r gofynion fel rhan o'r cylch cynllunio, a chynllun adfer COVID. Mae COVID wedi arwain at rywfaif o ad-drefnu'r Rhaglen o ganlyniad i oedi nad oedd modd ei osgoi. Mae prosiectau mawr fel Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys ac uwchraddio'r System Gorchymyn a Rheoli hefyd wedi bod yn destun adolygiad. Mae'r Rhaglen Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2021-22 hyd 2026-27 yn fersiwn ddiwygiedig o Raglen y llynedd sy'n cynnwys newidiadau mewn amser a/neu gostau.

10.2 **Ystadau** – gorffennwyd ailwampio Gorsaf Heddlu Pwllheli a chwblheir y gwaith o uwchraddio'r Ganolfan Arfau Tanio yn 2021-22. Mae'r costau adeiladu wedi cynyddu'n gyffredinol ers llunio'r amcangyfrifon gwreiddiol, a chyflymodd hynny yn ystod 2021-22 gan olygu y bu'n rhaid adolygu costau'r prosiectau presennol a rhai ar gyfer y dyfodol. Bydd angen cyflwyno Cynlluniau Busnes terfynol a chwblhau prosesau tendro ac ati ar gyfer y rhain oll cyn y gellir eu gweithredu. Ceir crynodeb isod o'r newidiadau yn y Rhaglen:

- Cynyddodd costau'r Ganolfan Comisiynu Cerbydau £0.236 miliwn a defnyddiwyd Derbyniadau Cyfalaf i'w talu
- Adolygu Ystadau: cynyddodd prosiectau yng Nghaergybi a Dolgellau 10%, neu £0.534 miliwn
- Cynyddodd prosiect Sir y Fflint (sydd bellach wedi'i rannu'n ddau brosiect y gogledd a'r de) £1.1 miliwn
- £2 miliwn wedi'i gynnwys ar gyfer gwaith ychwanegol yn 2025-26

- Amcangyfrif o £2 miliwn ar gyfer adnewyddu'r Ganolfan Arfau Tanio yn 2026-27, yn amodol ar gwmpasu a chyflwyno Achos Busnes.
- 10.3 **Fflyd** – cynhaliwyd adolygiad manwl o'r gofynion Fflyd drwy ddefnyddio data gwybodaeth rheoli Telemateg, ac oherwydd hynny gostyngodd y gost flynyddol a amcangyfrifwyd yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y llynedd £0.341 miliwn (gostyngiad yn nifer y cerbydau). Cododd nifer o faterion ers hynny sydd wedi effeithio ar gostau cerbydau a'u darpariaeth. Cafwyd problemau cyflenwi oherwydd prinder sglodion micro, COVID ac ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ymysg pethau eraill. Cynhaliodd Blue Light Commercial broses dendro genedlaethol ac ni chyhoeddwyd y ffigyrau terfynol nes mis Awst/Medi 2021. O ganlyniad i hynny cynyddodd cost pob cerbyd o £4,000 i £6,000. Mae'r Adran Fflyd bellach wedi ailbroffilio'r Rhaglen amnewid ac ail-bennu'r costau gan arwain at gynnydd o £0.953m dros bum mlynedd (sy'n lleihau'r arbediad a bennwyd ar gyfer yr un cyfnod o £1.7 miliwn i £0.77 miliwn).
- 10.4 **TG a Chyfathrebu** – buddsoddir yn sylweddol mewn TG. Mae'r Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Digidol yn arwain hyn. O gael dyfeisiau personol sy'n gallu cael mynediad i'r rhyngwyd gall swyddogion gweithredol a staff i weithio'n ystwyth – cyflymwyd y prosiect hwn o ganlyniad i COVID a bydd pob dyfais yn gallu defnyddio'r Rhaglen Galluogi Genedlaethol (o ran y feddalwedd ddiweddaraf sydd ar gael) erbyn diwedd 2021-22. Mae gwaith uwchraddio ar y gweill yn y system Gorchymyn a Rheoli hefyd. Mae Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys wedi'i gynnwys ond ni weithredir y Rhwydwaith am flwyddyn arall, sy'n fuddiol gan y bydd modd inni gronni blwyddyn ychwanegol o gyfraniadau yn y gronfa wrth gefn. Caiff ffonau symudol eu hamnewid ym mis Mawrth/Ebrill 2022 a rhoddir yr ap symudol ar waith ddechrau 2022-23. Mae costau amnewid offer TG wedi'u cynnwys ym mlynnyddoedd y dyfodol, gan gynnwys blwyddyn ychwanegol 2026-27.
- 10.5 Yr her fwyaf â'r Rhaglen oedd yr amserlen, ac ystyriwyd hyn nifer o weithiau yn ystod 2021-22. Yn anffodus, oherwydd ansicrwydd mewn amryw feysydd a oedd y tu hwnt i reolaeth rheolwyr prosiectau, bu'n rhaid gohirio rhai prosiectau er gwaethaf yr ewyllys i'w gweithredu'n gynt. Mae Gwariant Cyfalaf yn dal yn heriol, gyda mwy o amrywiant mewn costau (sy'n creu oedi wrth weithredu'r trefniadau llywodraethu a chraffu priodol pan mae costau'n cynyddu) yn ogystal ag amrywiant yn yr adnoddau mewnol ac allanol sydd ar gael i gyflawni'r prosiectau. Mae'r Rhaglen yn dal â gogwydd tua'r blynnyddoedd cynnar fel y gwelir isod, a chedwir golwg ar yr amserlen a chyflawniad yn gyson ar lefel y prosiectau unigol a'r Rhaglen gyfan.



10.6 Mae ail-drefnu'r amserlen wedi cynorthwyo â chyllid. Drwy oedi benthyciadau gellir defnyddio'r arian a neilltuwyd yn y gyllideb i ad-dalu benthyciadau (Darpariaeth Refeniw) i dalu am gyfalaf yn uniongyrchol, gan leihau'r swm y bydd angen ei fenthylg yn y dyfodol neu roi hyblygrwydd pan mae costau'n cynyddu. Mae'r Rhaglen yn fforddiadwy ar sail yr amcangyfrifon presennol o wariant a'r cyllid sydd ar gael. Cyflwynir y ffigyrau cyfalaf yn Atodiad C; bydd y Comisiynydd yn cymeradwyo'r cynllun manwl terfynol yn ffurfiol cyn diwedd mis Mawrth 2022, fel rhan o'r Strategaeth Cyfalaf. Mae hynny'n ofyniad statudol ac mae'n cynnwys Strategaethau Rheoli'r Trysorlys a'r Cod Darbodus. Manylir ynghylch y Rhaglen yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig; gweler grynodedb o'r Rhaglen a'r cyllid isod.

Disgrifiad	2021-22 Amcangyfrif Diwygiedig 2021-22	2022-23 Amcan	2023-24 Amcan	2024-25 Amcan	2025-26 Amcan	2026-27 Amcan
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cyfanswm Gwaith Adeiladu	2,700	4,872	5,684	5,168	2,100	2,100
Cyfanswm Cerbydau ac Offer eraill	1,635	2,480	1,667	2,441	1,797	1,341
Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	3,900	4,858	7,823	1,794	1,444	2,185
Cyfanswm Gwariant Cyfalaf	8,235	12,210	15,174	9,403	5,341	5,626

Disgrifiad	2021-22 Amcangyfrif Diwygiedig	2022-23 Amcan	2023-24 Amcan	2024-25 Amcan	2025-26 Amcan	2026-27 Amcan
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Grant y Swyddfa Gartref	171	0	0	0	0	0
Cyfraniad Refeniw	2,208	2,177	3,353	2,411	2,097	2,731
Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	2,959	2,352	1,384	0	0	0
Derbyniadau Cyfalaf	271	336	370	750	100	100
Benthyca ar gyfer Ystadau	2,071	4,503	5,584	4,418	2,000	2,000
Benthyca ar gyfer rhaglen newid offer	555	2,842	4,483	1,824	1,144	795
Cyfanswm Cyllid	8,235	12,210	15,174	9,403	5,341	5,626
Adnoddau Allanol	171	0	0	0	0	0
Adnoddau ein hunain	5,438	4,864	5,107	3,161	2,197	2,8318
Dyled	2,626	7,345	10,067	6,242	3,144	2,795
CYFANSWM	8,235	12,210	15,174	9,403	5,341	5,626

11. Ystyried y Dewisiadau

11.1 Mae'r Comisiynydd wedi ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Cyflawnwyd gwaith helaeth gan y Broses Cynllunio Sefydliadol er mwyn nodi arbedion a symud adnoddau o fewn y sefydliad. Oherwydd y drefn gynllunio bu modd hefyd dyrannu 82 o swyddogion Ymgyrch *Uplift* mewn modd deallus, ar sail blaenoriaethau. Cynigiwyd cynnydd yn nhreth y cyngor o £11.25, neu 3.68%. Byddai hynny'n talu costau chwyddiant, gweithredu *Uplift* a chynnal twf yn ogystal ag ariannu deg yn ychwaneg o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Mae yno adnoddau ychwanegol ar gael yn sgil y cyhoeddiad ynglŷn â swyddogion ychwanegol; mae'r cynnydd hwn, fodd bynnag, yn angenrheidiol i dalu costau presennol y swyddogion, costau sefydlu a hyfforddi a hefyd y cynnydd mewn costau yn y dyfodol wrth i gyflogau swyddogion gynyddu'n raddol bob blwyddyn.

11.2 Mae'r Comisiynydd wedi cynnal trafodaethau gyda'r Prif Gwnstabl sydd wedi cadarnhau bod codi Treth y Cyngor 3.68% yn rhoi cyllideb ddigonol i fedru gweithredu'r gwasanaeth plismona yn 2022/23, yn ogystal â chyfrannu'n ddarbodus at gronfeydd wrth gefn ar gyfer talu costau Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys yn y dyfodol. Hefyd, oherwydd ansicrwydd ynghylch lefel y grant yn y dyfodol, codiadau cyflog a newidiadau mewn gwasgfeydd gweithredol, nid yw'n bosibl gwneud sylw ar hyn o bryd ar gywirdeb y rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer blynyddoedd ariannol diweddarach, ac mae'n rhaid deall y byddai gostyngiad sylweddol yn y grant neu godiadau cyflog uwch na'r disgwyl yn arwain at doriadau pellach a/neu fwy o gynydd yn Nhreth y Cyngor yn y dyfodol. Mae'r tybiaethau, serch hynny, yn rhai darbodus ac yn gyson â'r rheiny a wneir yn y sector Plismona yn gyffredinol.

11.3 Wrth gynyddu Treth y Cyngor 3.68% y swm ar gyfer bob band eiddo yw:

Band Treth	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Treth y Cyngor £	211.20	246.40	281.60	316.80	387.20	457.60	528.00	633.60	739.20

11.4 Bydd praesept pob ardal filio fel a ganlyn:

<u>Awdurdod Bilio</u>	2022-23 Sylfaen Drethu	Praesept £
Cyngor Sir Ynys Môn	32,042.00	10,150,906
Cyngor Gwynedd	53,715.10	17,016,944
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	51,020.98	16,163,446
Cyngor Sir Ddinbych	40,642.10	12,875,417
Cyngor Sir y Fflint	65,194.00	20,653,459
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	53,665.01	17,001,075
	<hr/> 296,279.19	<hr/> 93,861,247 <hr/>

12. Goblygiadau

Amrywiaeth	Bydd argymhellion yr adroddiad yn effeithio ar nifer y gweithwyr yn yr Heddlu mewn blynyddoedd i ddod.
Ariannol	<p>Diben yr adroddiad hwn yw argymhell Praesept a Threth y Cyngor ar gyfer 2022/23 ac egluro'r ffactorau sydd wedi'u hystyried wrth wneud yr argymhelliad hwn. Er bod yr argymhelliad ar gyfer un flwyddyn ariannol, mae'n bwysig ystyried y sefyllfa hirdymor a thymor canolig wrth wneud penderfyniadau.</p> <p>Mae adnoddau ariannol digonol yn hanfodol er mwyn gweithredu'r Cynllun Heddlu a Throsedd a chyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol.</p>
Cyfreithiol	Mae'r adroddiad hwn, yn ogystal â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn rhoi digon o wybodaeth i'r Panel Heddlu a Throsedd wneud penderfyniad a all wrthsefyll her gyfreithiol yn y dyfodol.
Risg	Mae'r adroddiad hwn yn nodi ac arfarnu'r risgiau yn sgil yr argymhellion.
Heddlu a Throsedd	Nid oes goblygiadau ar wahân i'r heddlu a throsedd.

Atodiad A

Disgrifiad

Cyllideb 2021-22 i 2026-27

Gwariant	Cyllideb	+Cynnydd	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb
	Flynyddol 2021-22	Gostyngiad 2022-23	Flynyddol 2022-23	Flynyddol 2023-24	Flynyddol 2024-25	Flynyddol 2025-26	Flynyddol 2026-27
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
1.1 Cyflogau Swyddogion Heddlu	90,304	6,051	96,355	98,896	101,922	105,226	108,304
2.1 Cyflogau Staff yr Heddlu	42,517	3,096	45,613	46,888	48,068	49,276	50,413
2.2 Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu	6,104	1,130	7,234	7,429	7,615	7,806	8,000
3.1 Goramser Swyddogion Heddlu	2,233	104	2,337	2,395	2,455	2,516	2,577
4 Goramser Staff yr Heddlu	597	45	642	658	675	692	709
5 Lwfansau	1,299	35	1,334	1,333	1,332	1,332	1,332
6 Hyfforddiant	1,407	357	1,764	1,800	1,762	1,797	1,833
7 Gweithwyr Eraill	726	72	798	814	830	846	862
8 Taliadau Pensiwn Uniongyrchol	3,281	146	3,427	3,509	3,594	3,680	3,766
9 Costau Ynni	1,467	137	1,604	1,652	1,702	1,753	1,804
10 Costau Rhedeg Adeiladau Atgyweirio a Chynnal a Chadw Cerbydau	6,562	183	6,745	6,880	7,018	7,158	7,298
11 Costau Rhedeg Cerbydau	596	15	611	623	635	648	660
12 Lwfansau Car a Theithio	1,853	171	2,024	2,076	2,129	2,184	2,237
13 Uned Awyr	463	-49	414	423	431	440	449
14 Offer	604	-100	504	517	530	543	556
15 Dillad a Lifrai	1,091	120	1,211	1,236	1,260	1,286	1,311
16 Argraffu a Nwyddau Swyddfa	530	44	574	558	569	580	591
17 TG a Chyfathrebu	284	4	288	294	300	306	312
18 Cynhaliaeth	12,628	1,036	13,664	13,940	14,309	14,689	15,069
19 Nwyddau a Gwasanaethau Eraill	266	-12	254	259	264	269	274
20 Cydweithio a Phartneriaethau	2,626	77	2,703	2,756	2,810	2,864	2,918
21 Gwasanaethau Fforensig	6,547	931	7,478	7,665	7,856	8,052	8,247
22 Ffioedd Dyledion a Chyfraniad Cyfalaf	919	15	934	953	972	991	1,010
23 Cyllid Sefyllfaoedd Arbennig	4,354	153	4,507	5,716	5,670	5,898	5,952
24 Chwyddiant ac Arian at Raid	400	0	400	400	400	400	400
25 Cronfa Diogelwch Cymunedol	3,361	-2,595	766	666	550	550	550
	3,429	116	3,545	3,615	3,688	3,762	3,836

	196,448	11,282	207,730	213,951	219,346	225,544	231,000
	Cyllideb	+Cynnydd -'	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb
	Flynyddol 2021-22	Gostyngiad 2022-23	Flynyddol 2022-23	Flynyddol 2023-24	Flynyddol 2024-25	Flynyddol 2025-26	Flynyddol 2026-27
Incwm	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Gwariant Gros							
27 Secondiadau	-6,637	-905	-7,542	-7,729	-7,921	-8,117	-8,313
28 Llog ar Falansau	-100	0	-100	-100	-100	-100	-100
29 Incwm	-2,599	-10	-2,609	-2,609	-2,609	-2,609	-2,609
30 Grantiau Penodol	-14,309	-2,125	-16,434	-16,381	-16,328	-16,276	-16,224
Cyfanswm Incwm	-23,645	-3,040	-26,685	-26,819	-26,958	-27,102	-27,246
31 Cronfa wrth Gefn Cynlluniau Ariannu Preifat	-188	-53	-241	-293	-346	-398	-456
32 Cyfraniad at Gronfa wrth Gefn Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys	750	600	1,350	0	0	0	0
33 Cyfraniad at y Gronfa Gyffredinol wrth Gefn	0	114	114	228	342	456	570
Gwariant Net	173,365	8,903	182,268	187,067	192,384	198,500	204,750
34 Cyfanswm Grantiau	-83,677	-4,730	-88,407	-89,407	-90,907	-91,816	-92,725
35 Praesept	-89,688	-4,173	-93,861	-97,660	-101,477	-105,313	-109,162
Cyllid	-173,365	-8,903	-182,268	-187,067	-192,384	-197,129	-201,877
Twf/arbedion	0	0	0	0	0	0	0
Net Diwygiedig gan gynnwys twf	173,365		182,268	187,067	192,384	198,500	204,750
Balans Blynyddol	0	0	0	0	0	1,371	2,742
ACHOS SYLFAENOL - Cronnus	0		0	0	0	1,371	2,742